

ECO'R WYDDFA

Rhif 68

Mawrth 1982

Pris 15c

DATHLU 65 MLYNEDD GYDA'I GILYDD



Brynhawn Sul, Chwefror 14 eleni ar Raglen Hywel Gwynfryn fe ddangoswyd ffilm o Mr a Mrs Richard Owen, 1 Rhos Rug, Llanrug. Yr oedd Mr a Mrs Owen yn dathlu 65 mlynedd o fywyd priodasol ar Dachwedd 22, 1981.

Bu ganddynt bump o blant, Richard, Huw, Gertie, Ellen a'r diweddar Robert Morris. Hefyd y mae ganddynt 15 o wyrion a 25 o orwyrion.

Y mae Richard Owen yn fab i'r diweddar Richard a Grace Owen, Rhoslan, Llanrug ac yn un o ddeuddeg o blant. Richard Owen yw'r olaf sy'n fyw ohonynt.

Y mae'n ffaith ddiddorol fod teulu Richard Owen wedi bod yn byw yn Rhoslan am gyfnod o dros ddau gan mlynedd. Y mae'r enw Richard Owen wedi cael ei gadw o genhedlaeth i genhedlaeth fel enw'r penteulu bob tro. Y mae mab hynaf Richard a Mrs Owen hefyd wedi cael yr enw Richard Owen. Y mae ganddo yntau fab ac wedi cael yr enw Richard Owen.

Y mae Mrs Mary Ann Owen yn ferch i'r diweddar Elen a Robert Morris Williams, 1 Penrhos, Niwbwrch, Ynys Môn, ac yn wyres i'r diweddar Ann a Hugh Williams, Pen-y-gamfa, Niwbwrch. Allan o chwech o blant Elen a Robert Morris Williams dau yn unig sy'n fyw sef Mrs A.M. Owen a'i brawd Richard John Williams, Môr Awelon, Niwbwrch.

Y mae Mr a Mrs Richard Owen yn dymuno diolch am yr holl anrhegion, cardiau a chyfarchion trwy'r teliffon yn eu llongyfarch oddi wrth y teulu, cymdogion a chyfeillion o bell ac agos, ac am bob caredigrwydd

ddangoswyd tuag atynt. Diolch arbennig i Hywel Gwynfryn a staff B.B.C. Llandaf am ddwad â'r fath lawenydd i'r aelwyd.

Bydd Richard Owen yn dathlu ei ben-blwydd yn 93 oed Mawrth 10fed eleni.

Anfonwyd yr englyn canlynol i'r amgylchiad gan Mari Lewis.

Yn bwylllog rhodiwch bellach - byw yn dda

**Byw'n ddoeth a dirwgnach:
Byw'n uchel a byw'n iachach
Yn yr un bonc â'r wŷn bach.**

Glan Rhyddallt.

Mae llun tystysgrif priodas Mr a Mrs Owen ar dudalen 18.

CODI PRIS YR ECO

Yn anffodus mae chwyddiant wedi cael gafael yng nghostau cynhyrchu'r Eco. O'r herwydd, ac yn groes i'r graen, bydd yn rhaid inni godi'r pris i 20 ceiniog o rifyn Ebrill ymlaen. Gobeithio na fydd y bum ceiniog ychwanegol bob mis yn ormod o rwystr i unrhyw un barhau i fwynhau darllen yr Eco. Yn ôl ym mis Tachwedd 1978 y cafwyd y codiad pris, (o 10c i 12c diwethaf. 'Roedd y codiad i 15c yn Ionawr 1981 yn talu am bedair tudalen ychwanegol o ddeunydd.

Yn Eisiau - Trefnydd Gwerthiant

Mae Ian Pierce, Llanrug, wedi mynegi'i fwriad i roi'r gorau i'w swydd fel Trefnydd Gwerthiant yr Eco gyda rhifyn Gorffennaf y papur. Dymuniad Ian oedd i ni gyhoeddi'r newyddion yn awr yn y gobaith y byddai hyn yn rhoi digon o amser i ni ddod o hyd i Drefnydd newydd. Rhydd hyn gyfle hefyd i'r Trefnydd newydd gael cydweithio ag Ian am rai misoedd i ddod i arfer â'r gwaith.

Mae dyled yr Eco i Ian yn fawr iawn. Bellach mae prinder amser a phwysau gwaith yn ei orfodi i gefnu ar ei swydd, ond mawr yw ein gwerthfawrogiad o'i gyfraniad a'i lafur.

Os oes unrhyw un â diddordeb yn y swydd o Drefnydd Gwerthiant, cysylltwch â Mr Ian Pierce, neu un o'r Golygyddion.

CAR ARBENNIG YN LLANRUG



I'r rhan fwyaf ohonom breuddwyd dymunol ar ôl ennill y 'pŵls' yn unig a fyddai bod yn berchennog 'Ferrari'. Nid dymuniad fu hyn i Mr Huw Owen ystad Minffordd, Llanrug ond realiti. Mae Mr Owen - Huw Owen, glo fel ei 'nabodir gan drigolion y cylch, wedi bod yn berchen ar dri gwahanol math o'r cerbydau hyn, ond y tro yma mae wedi mynd gam ymhellach sef perchenogi y modur cyflymaf yng Ngwledydd Prydain. I ddyfynu'r hysbyseb "dyma'r car cyflymaf sy'n cael ei gynhyrchu ar gyfer y ffordd", gyda chyflymdra o 192 m.y.a.

Fel y Ferrari, car wedi ei adeiladu â llaw yn yr Eidal ydyw gan gwmni De-Tomaso. Mae y model hwn, sef yr El-Pantera yn gallu cyrraedd 172 m.y.a. ond oherwydd fod peiriant Blue Print ym modur Mr Owen mae ugain milltir yr awr yn gyflymach wedyn, dim ond dau beiriant Blue Print yn unig sydd ar gael yn y byd, un yn America a'r llall yn Llanrug!

I'r technegwyr yn ein plith

peiriant Ford Cleveland 5.7 litr yn datblygu 410 B.H.P. wedi ei lleoli tu ôl i'r ddwy sedd sydd yn galluogi'r cerbyd hwn i gyrraedd cyflymdra o sefyll i 60 m.y.a. mewn 3.5 eiliad (6.0 eiliad mewn Ferrari). Y cwmnïau Holly a Mallory o America fu'n gyfrifol am gyflawni mwy o bwer o'r peiriant a chwmni ZF o'r Almaen a ddarparodd y Gengist pum gêr. I ddodi pwer o'r eithafion yma ar y ffordd mae lled yr olwynion yn 8 modfedd ar y tu blaen a deng modfedd ar y cefn, a'r teiars wedi eu datblygu yn yr America trwy arbrofion ymchwil o ddefnyddio A.C. Cobras mewn rasmus ceir.

Nodyn i chwi gwsmeriaid Mr Owen, oherwydd sŵn dychrynlyd y 'Four Brach Racing Exhausts' mae Huw am ddal i gludo eich glo efo Lori.

Ein diolch i John W. Williams, Minffordd, am ei ddiddordeb parod i lunio'r Stori - Gol.

Mae naws deuluol i storïau'r dudalen flaen y tro hwn. Mab Mr a Mrs Richard Owen yw Mr Huw Owen.

CYFLE I GYNRYCHIOLI CYMRU



Dyma Kevin Owen, Talgwynedd, Cwm-y-glo a fu i lawr yng Nghaerdydd yn ddiweddar.

Yno yn y Ganolfan Chwaraeon yr oedd Kevin yn cystadlu ym Mhencampwriaeth Judo Cymru, ac oherwydd ei ymdrech a'i ddycnchw fe lwyddodd (yn grŵp ei bwysau o dan ddeunaw oed) i ddod yn un o'r pedwar gorau yn ein gwlad.

Fe fydd yn awr yn cael cyfle i ymarfer gyda darpar dîm Cymru gyda chyfle i fod yn aelod o'r tîm.

Mae Kevin yn aelod o'r clwb ers peth amser, a byddant yn cyfarfod yn y Ganolfan Ieuencid, Caernarfon o dan ddisgyblaeth Mr Wyn Hughes, Rhiwen, Deiniolen.

Fel y dywedodd ei athro:

"Dyma beth yw llewyrch ei gysondeb a'i agwedd yn ystod y misoedd a fu, ac mae'n sicr o fod yn siampl ardderchog i ieuencid yr ardal."

ECO'R WYDDFA

Rhif 68
MAWRTH 1982

Argraffwyd gan Wasg Gwynedd
Cibyn, Caernarfon

Cyhoeddwyd gyda chymorth
Cymdeithas Gelfyddydau
Gogledd Cymru

SWYDDOGION A GOHEBWYR

GOLYGYDD NEWYDDION

CYFFREDINOL: Twrog Jones, 23
Glanffynnon, Llanrug (C'fon 4051)

GOLYGYDD ERTHYGLAU: Dafydd
Whiteside Thomas, Bron y Nant, Pont-
rhythallt, Llanrug, (Caernarfon 3515)

GOLYGYDD NEWYDDION: Tony
Elliott, Crud y Wawr, Brynneglwys,
Penisarwaun. (Penyllyn 438)

TREFNYDD NEWYDDION

YSGOLION: Iwan Lloyd Williams,
Bryn Idris, Llanberis (Llanberis 515).

DYDDIADUR Y MIS: Miss Jane
Morris, 'Rallt Isaf, 3 Pen y Bont,
Ffordd Capel Coch, Llanberis.
Padarn 561

FFOTOGRAFFWYR: Ifan Parry,
Morwel, Ceunant (Waunfawr 321).
Gwyndaf Jones, 60 Glanffynnon,
Llanrug (C'fon 4669). Gwyndaf
Hughes, 20 Glanffynnon, Llanrug.

TREFNYDD HYSBYSEBION: John
Roberts, Bedw Gwynion, Llanrug
(C'fon 5605)

TREFNYDD GWERTHIANT: Ian
Pierce, Swyn-yr-Awel, Llanrug (C'fon
3776).

TRYSORYDD: Gwyn Oliver Jones, 58
Bwthyn Gwyn, Ffordd Deiniol,
Deiniolen.

TREFNYDD GWERTHIANT POST:
Mrs M. Evans, Lloc, Llanrug (C'fon
3227).

GOHEBWYR PENTREFI: Dyma'r bobl
i gysylltu â nhw yn eich ardaloedd:

BETHEL: Geraint Elis, Sycharth
(Portdinorwic 726)

BETWS GARMON: Mrs Brenda
Jones, Bryn Tegid (Waunfawr 294)

BYRNREFAIL: D.G. Ellis, Gwelledfa,
Brynrefail (Padarn 223)

CEUNANT: Ifan Parry, Morwel
(Waunfawr 321)

CWM-Y-GLO: Dafydd Price, Tŷ Capel
(Llanberis 550)

DEINIOLEN: Mrs Nancy Rowlands,
12 Pentre Helen (Llanberis 267)

DINORWIG: O.R. Williams, 2 Bro
Elidir (Llanberis 671)

LLANBERIS: Mrs Siân Thomas,
Tŷ'r Ysgol. (Llanberis 220)

NANT PERIS: T.J. Roberts, Llys Awel

LLANRUG: Mrs Eirlys Pierce, Swyn
yr Awel (C'fon 3776)

PENISARWAUN: Mrs Mary Davies, 9
Llys y Gwynt, Penisarwaun (Penyllyn
329)

TAN-Y-COED: Miss Megan
Humphreys, 4 Tai Tan-y-coed
(Waunfawr 355)

WAUNFAWR: Mrs G. Jones, Rhandir
Mwyn, (Waunfawr 626).

TREFNYDD PLYGU: Gwyndaf
Hughes, 20 Glanffynnon, Llanrug.

TREFNYDD BUSNES: Goronwy
Hughes, Eithinog, 14 Afon Rhos,
Llanrug (C'fon 4839)

Y RHIFYN NESAF

Daw'r rhifyn nesaf

o'r wasg ar

EBRILL 1

Deunydd i law'r

golygyddion perthnasol

MAWRTH 24

os gwelwch yn dda.

LLYTHYRAU

CYMORTH OS GWELWCH YN DDA

Annwyl Olygydd,
Efallai i chwi weld, neu glywed ar y
cyfryngau yn ddiweddar am fenter y
Gymdeithas Arlunwyr a Dylunwyr yng
Nghymru a Chymdeithas Addysg y
Gweithwyr i gynnal Dosbarthiadau
Arlunio dwyieithog ar y cyd. Mae'r
dosbarthiadau hyn yn agored i bawb,
ond fe'u trefnwyd yn bennaf ar gyfer y
di-waith yng Ngwynedd. Mae cangen
Bethesda o CADC yn ymestyn dros
Ogledd a Gorllewin Gwynedd.

'Rydym erbyn hyn wedi sefydlu
dosbarthiadau ym Methesda, Bangor a
Caernarfon. Mae tua phymtheg o bobl
wedi ymaelodi ym mhob un o'r
dosbarthiadau hyn, gyda chysfartaledd
o ddeg yn mynychu'r dosbarthiadau yn
rheolaidd bob sesiwn. 'Rydym yn awr
ar fin sefydlu dosbarth arall yng
Nghaerdybi, lle mae bron i 1,700 o bobl
yn ddi-waith. Mae diddordeb hefyd
mewn sefydlu dosbarthiadau yng
Ngholeg Harlech ac yn Oriel Mostyn.

Fodd bynnag, y mae problemau
ariannol wedi codi, a hynny i raddau
oherwydd ein llwyddiant gyda'r
dosbarthiadau. Mae'n rhaid gofalu am
arian ar gyfer rhan o gostau'r
tiwtoriaid, ac ar gyfer holl gost y
defnyddiau. Mae adnoddau
Cymdeithas Addysg y Gweithwyr, wrth
gwrs, yn gyfyngedig. 'Rydym wedi
gorfod gostwng y tâl dysgu, a chodi'r tâl
aelodaeth. 'Rydym hefyd wedi llwyddo
i gael ystafelloedd am ddim yn Ysgol
Sant Paul, Bangor, gan Goleg
Technegol Gwynedd, ac yng
Nghanolfan Gymdeithasol Noddfa,
Caernarfon, ac rydym yn defnyddio ein
canolfan cymorthdaledig ein hunain ym
Methesda — Gweithdy Capel y
Tabernacl. Mae cefnogaeth wedi dod
hefyd oddi wrth Bwyllgor Gweithredu'r
Myfyrwyr, Coleg y Brifysgol, Bangor,
Cynllun Celfyddydau Caernarfon ac
Ailwminiwm Môn. Gobeithiwn gael
cyfraniad hefyd gan Gymdeithas
Celfyddydau Gogledd Cymru.

'Rydym yn gobeithio y bydd ein cais
i'r Gwasanaeth Adnoddau Dynol, ac i
gronfeydd cenedlaethol drwy Fudiad
Addysg y Gweithwyr yn llwyddiannus,
ac y bydd hyn yn ddigonol i gyfarfod â
chostau'r dysgu y flwyddyn nesaf. Yn y
cysawser, gofynnwn am gyfraniadau,
boed fach neu fawr, gan bobl leol,
cymdeithasau a chwmnïau er mwyn
gallu cynnal y dosbarthiadau.

Os yw'n haws i chwi fedru cyfrannu
defnyddiau — papur ysgrifennu,
defnyddiau arlunio, neu'n wir
ddefnyddiau cerflunio (coed etc),
gallwch eu gadael yn un o'r manau
canlynol:—

Swyddfa C.A.G., Rhoslas, 33
Ffordd y Coleg, Bangor neu y
dosbarthiadau yn Ysgol Sant Paul,
Stiwio Ceramig, Ffordd Sackville,
Bangor (ar ddydd Gwener) neu Capel y
Tabernacl, Bethesda (ar ddydd
Mercher) neu Canolfan Noddfa, Cil
Peblic Caernarfon (ar ddydd Llun).
Ein canolfan yng Nghaerdybi fydd
ystafelloedd y Llwyfan yn Neuadd y
Dref, diolch i garedigrwydd Cyngor y
Dref. Ni phenderfynwyd eto ar
ddyddiad dechrau yno.

Os hoffech chwi ymuno â dosbarth,
neu ymweld, neu os hoffech ei
gymeradwyo i rywun fyddai â

diddordeb, cofiwch wneud hynny.
Byddem yn ddiochgar iawn i chwi.

Os oes a wneloch chwi â'r
celfyddydau gweledol yn broffesiynol,
neu os hoffech gefnogi'r rhain a
gweithgareddau eraill, anfonwch am
ragor o wybodaeth at ein hysgrifennydd
— Christine Politis (Bethesda, Cangen
Bethesda CADC, 35 Ffordd Garth
Uchaf, Bangor. Ffôn (0248) 55766

I'N HATGOFFA

At y golygydd;
Deuthum ar draws y 'darn
adrodd' isod yn 'Telyn y Plant'
gan A. Gwynn Jones a
gyhoeddwyd yn 1928. Tybiaf ei
fod yn addas i'w ddwyn i'r amlwg
yn ystod mis Mawrth, sef mis
gwyl ein Nawddsant. Dywed A.
Gwynn Jones yn y Rhagair —
"Bellach, ewch chwithau ati i
hogi eich arfau, cedwch yr iaith
yn bur ar eich gwefus".

SAFWN I FYNY DROS GYMRU

Safwch i fynd dros Gymru, safwch i fynd o
hyd,
Hi ydyw'r decaf o'r gwledydd, ar geinaf o
honynt i gyd;
Siaradwch Gymraeg ar yr heol —
gwisgwch y brethyn gwlan,
A pheidiwch dynwared yr estron, cedwch
eich calon yn lân.

Gwlad y mynyddoedd a'r moelydd —
gwlad yr afonydd mwyn,
Gwlad y coedydd a'r blodau, gwlad sy'n
orlawn o swyn;
Safwch i fynd dros Gymru — safwch dros
Gymru fach,
Cerwch y pur sydd ynddi, fe ddaw eich
calon yn iach.

Blant y mynyddoedd unig — blant y
dyffrnoedd heirdd;
Cofiwch yr iaith anwyllaf — dysgwch awen
y beirdd;
Safwch i fynd yn onest, na hidiwch ddirmyg
a sen,
Safwch dros iaith Llywelyn — safwch dros
Walia Wen.

Blant yr Ysgolion dyddiol, blant y Colegau
mawr,
Mae Cymru'n galw arnoch, mae'r cyfle
gennych yn awr.
Safwch i fynd fechgyn — safwch mewn llys
a llan,
Mewn tre neu ddinas hawddgar, yn wrol
gwnewch eich rhan.

E. Jones
Talsarn

CANOLFAN GENEDLAETHOL ADDYSG GREFYDDOL

Annwyl Olygydd,
Mae'r Ganolfan Genedlaethol
Addysg Grefyddol wedi datblygu
i sawl cyfeiriad ers ei hagor yn
swyddogol ym Medi 1980. Mae'r
cyhoedd yn gyffredinol yn
dangos diddordeb arbennig yn
ein Canolfan Adnoddau. Mae'r
Ganolfan hon wedi ei lleoli ar
lawr uchaf prif adeilad yr Ysgol
Addysg ar Saffle'r Santes Fair,
Lôn Pobty, Bangor ac mae'n
cynnwys amrywiaeth helaeth o
ddefnyddiau Addysg Grefyddol.
Yma fe welir un o'r detholiadau
helaethaf yng Nghymru (a
Lloegr!) o lyfrau, stridedi ffilm,
sleidiau, casetiau, pecynnau aml
gyfryngol, tapiau fideo, lluniau,

posteri, artfractau a.y.y.b. Mae'r
cyfan o ddiddordeb arbennig i
athrawon plant (ysgolion dyddiol
ac ysgolion Sul); i weinidogion a
chlerigwyr; i rieni ac yn wir i
bawb sy ag unrhyw ddiddordeb
mewn crefydd ac Addysg
Grefyddol.

'Rydym yn cael ymweliadau
cyson gan nifer fawr o bobl ac
mae cryn fenthycia ar ein
defnyddiau. Rydym yn cael
gwahoddiadau i gynnal
arddangosfeydd a darlithoedd
mewn cylchoedd ledled Cymru.
Bu yn Penwythnos Agored a
gynhaliwyd ym Medi 1980 yn
llwyddiant mawr gyda phobl o
bob cwr o Gymru yn ymweld â ni.
O ganlyniad i hyn ac i geisiadau
gan wahanol gylchoedd rydym
yn cynnal Penwythnos Agored
arall ar Sadwrn, Sul a Llun —
Mawrth 13-15.

Bydd y trefniant hwn yn
caniatáu pobl o bell ac agos i
fanteisio ar ein cyfleusterau a
chael gweld y defnyddiau yn
hamddenol — i'r perwyl yma
bydd y Ganolfan ar agor o 10.30 i
3.30 ar y Sadwrn a 1.20-4.30 ar y
Sul ac o 10.00 i 8.00 ar y dydd
Llun. Fel atyniad arbennig fe fydd
y ffilm 'Jesus of Nazareth' yn cael
ei dangos yn ystod yr holl
gyfnodau. Mae'r ffilm yn cymryd
6 awr i gyd ac felly trefnwyd i
ddangos Rhannau 1, 2 a 3 yn syth
ar ôl ei gilydd dydd Sadwrn a
Rhannau 4 a 4 prawn Sul. Ar y
dydd Llun fe ddangosir Rhannau
1, 2 a 3 rhwng 10.30 a 3.30 ac yna
Rhannau 3 a 4 rhwng 4.30 ac 8.00.
Os y byddech yn bwriadu dod fel
grŵp o ysgol neu eglwys
gofynnwn i chi adael i ni wybod
ymlaen llaw (ffôn: Bangor 51151,
Est 6109). Fe fydd te a choffi yn
cael ei werthu drwy'r amser ac
wrth gwrs fe fydd Staff y
Ganolfan ar gael i ateb
cwestiynau ac i roi cyfarwyddyd.

Rwy'n sicr fod gan eich
darllenwyr ddiddordeb yn y
ddarpariaeth arbennig yma ond
byddwn yn falch o groesawu eich
holl ddarllenwyr yma unrhyw
amser, wrth gwrs. Cofiwch, fodd
bynnag, wneud trefniadau ar y
ffôn os ydych am ddod ar ryw
adeg arall rhag ofn i ni fod i
ffwrdd ac i chwi gael siwrnai
seithug.

Yn gywir
Rheinallt A. Thomas

Trefnydd
Canolfan Genedlaethol Addysg
Grefyddol
Ysgol Addysg CPGC
Santes Fair
Lôn Pobty
Bangor.

ATGOF AM LYN PADARN WEDI RHEWI

Annwyl Syr,
Wrth ddarllen yn Eco'r Wyddfa
am lyn Llanberis wedi rhewi,
cofiais i mi weld llun o'r llyn wedi
rhewi, a char a cheffyl yn sefyll
arno, a phobl yn sefyll o'i
gwmpas, a'n had yn dweud ei fod
yn y llun.

Byddai chwarelwyr yn cerdded
at eu gwaith ar hyd y llyn o Ben
llyn. 'Roedd hyn cyn y flwyddyn
1898, oherwydd fe ddarfu imi

LLYTHRYAU (Parhad)

adael Llanberis ym mis
Tachwedd y flwyddyn honno.

Yr eiddoch yn gywir
E. Hughes (Mrs)

Bryn Hyfryd,
Groeslon

MYFYRWYR AM DAENU GWYBODAETH

Syr,
Mae llawer o'ch darllenwyr
wedi clywed am y gwrthdaro
diweddar rhwng awdurdodau
Coleg y Brifysgol ac Undeb
Myfyrwyr Cymraeg Bangor. Ein
bwriad ni, aelodau'r Undeb, yw
ceisio egluro'r sefyllfa'n
gyhoeddus yn y gobaith o ennyn
cydymdeimlad ein cyd-Gymry.
I'r pwrpas hwn cynhelir rali yma
ym Mangor, fore Sadwrn
Mawrth 6. Ar y dydd Llun
canlynol bydd Cyngor y Coleg yn
cyfarfod gyda sefyllfa'r Gymraeg
yn ben pwnc trafod ynddo.
Bwriedir i'r rali bwyso ar y
cyfarfod hwnnw i brysuro
Cymreigio'r awyrgylch a'r
cyfrwng addysg mewn coleg lle
nad oes ond un o bob deg o'r
myfyrwyr yn Gymro.

Anfonwn atoch, felly, i ofyn am
eich cefnogaeth ar y Sadwrn
arbennig hwn. Teimlwn fod hon
yn weithred bositif, ac yn fodd
goleuo pobl Cymru ynglŷn â
safle'r Gymraeg oddi mewn i un
o'r sefydliadau Cenedlaethol.

Hoffwn i chwi ystyried yr
uchod, a chysylltu â mi cyn
gynted ag y bo modd.

Yr eiddoch yn gywir,

Trefor Davies UMCB

Swyddfa Deiniol Bangor Uchaf
Ffôn (0248)2301

FFUG-EISTEDDFOD BRO ECO'R WYDDFA

LLYTHYR AGORED

Hoffwn ddiolch i bawb fu'n
gyfrifol am lwyddiant
Ffug-Eisteddfod Bro'r Eco, i'r
pentrefwyr am gystadlu ac i'r
cysylltwyr yn y pentrefi am
annog y cystadleuwyr.

Diolch i'r beirniad, sef Wil Sam
am ei gyfraniad pwysig at y miri.
Un arall sydd yn haeddu
cymeradwyaeth ydyw Arwel
Jones, arweinydd y noson. Ef
oedd yn gyfrifol am droi'r
handlan a sicrhau bod peiriant y
noson yn gweithredu'n hwylus.

Diolch i'r El-Astic bwtic,
Glanffynnon am drefnu
gwisgoedd yr Orsedd. Cafwyd
hyd i un staes yng nghefn y
llwyfan, maint 56 modfedd ac
olion cnoi ar yr ochr dde. Os na
fydd y perchennog wedi ei
hawlio mewn mis byddaf yn ei
ddefnyddio i drwsio 'exhaust' y
car.

Nwyddau eraill a gafwyd ar ôl
ydoedd pâr o drôns hir yn yn
cynnwys stamp Côr Caernarfon
ar y pen-ôl, a phar o ddannedd
gosod (lwtiliti) gyda lwmp o daffi
triog ynghlwm yn y darn uchod.

Dyma weithgaredd cyntaf Bro
Eco'r Wyddfa. Hoffech chwi gael
mwy? Oes gennych chwi
syniadau? Gadewch i mi wybod.

Yn ddiffuant

Miriam Hughes

Trefnydd Gweithgareddau
Bro Eco'r Wyddfa

Yr Allt Deg

Cwm-y-glo Caernarfon

LLYTHYR CWYNO BUDDUGOL

Bryn Cwynfan,
Llanbidinodyn.

Annwyl Syr

Gair o gwyn sydd gennyf am y
ffordd yr ydych yn ymddwyn tuag at
ein hunig ferch Willhelmina.

Mae'r beth bach yn dod adra o'r
ysgol bob dydd yn beichio crio.
Deallaf eich bod wedi ei rhoi i eistedd
wrth ymyl ryw hogan dew, ddwl.
Mae gan Willhelmina fel y gwyddoch
chwi awydd mawr am ddysgu, ond
sut fedar hi gael chware teg efo'i
llyfrau, a'r hogan arall yna yn cymryd
y lle i gyd.

Tydi hi'n hitio fawr am ginio'r
ysgol chwaith, mae ganddi stumog
'delicate' iawn.

Fasa rywbeth gennych adael i mi
wybod pryd mae ganddoch chwi
chips, beef-burgers a jeli neu ice
cream yn bwddin. Mi fedar fwyta
rhywbeth felly yn go lew. Mi ddof i'w
nhôl hi i gael cinio adra y dyrnodiau
eraill.

Os fyddai i dipyn yn hwyr yn
cyrraedd o 'gwaith, mi fuasai'r
ddynes 'Lollipop' yna yn medru
edrych ar ei hôl, 'does ganddi ddim
arall i'w wneud, ac mae Willhelmina
bach yn ddidrafferth dros ben.

Pan fydd y tywydd yn oer, da chi
gadewch iddi i mewn, neu mi fydd yn
pesychu drwy'r nos, a chaiff ei thad a
finna' ddim cysgu winc. Mae yna
ddigon o ferched yn yr ysgol i aros i
mewn efo hi i edrych ar ei hôl.

Roedd ei thad wedi teimlo i'r byw a
finna' hefyd a dweud y gwir. Gweled
fy mheth bach i yn y rhes gefn yn y
côr yn y Cyngerdd Nadolig.
'Toeddw'n i wedi prynu ffrog ddrud
iddi, gan feddwl yn siŵr y buasai
wedi cael bod yn y rhes flaen, ac yn
fwy na hynny, pam na fuasai wedi
cael canu unawd? Mae ei llais a'i
hymddygiad yn well na neb yn yr
ysgol.

Os na wnaiff pethau altro, mi
cadwn ni hi adra, ac mi dysgwn ni hi
ein hunain.

Mi wyddom ni felly na chaiff hi
ddim cam. Waeth i'r dyn Swyddfa
Addysg yna heb â dod i chwilio
amdani, chaiff o ddim bysnesu efo
ein hogan bach ni.

Mi fydd dipyn o golled i'r
Athrawon i gyd, a chithau hefyd o ran
hynny, pan ddaw yn amser i rannu
anrhegion y Nadolig nesaf.

Felly mi fuaswn yn eich cynghori i
'godi eich socks' i gyd ac ymddwyn
yn well tuag ati.

Yn drallodus iawn
Margiad Jane Cyna
(Mam Willhelmina)

Llythyr buddugol o'r Ffug Eisteddfod.
Yr awdures oedd Mrs Eirlys Williams,
Deiniolen.

APÊL

Dyma apêl arbennig i lythyrwyr.
A fuasech cystal â chadw eich
llythyrau i ddim mwy na 250 gair
yr un os gwelwch yn dda.

adlonni

RECORDIAU CASSET

LLEISIAU HANESYDDOL
ARTISTIAID ENWOG
CYMRAEG

Hefyd, Gwasanaeth Recordiau
Lleol Symudol - Manylion oddi
wrth

Anne and John Davies,
Glyddyn Mawr, Y Ffor,
Pwllheli, Gwynedd LL53 6RR
Tel: Pwllheli (STD 0758) 2932

BETHEL

CYMUN CYD-ENWADOL - Bydd
Gwasanaeth Cymun cyd-enwadol
yng Nghapel Elim, Y Felinheli, nos
lau, Ebrill 8, am saith o'r gloch.
Defnyddir Gwasanaeth sydd wedi ei
lunio'n arbennig, ar gyfer cymuno ar
y cyd. Cymerir rhan gan y
Parchedigion Archddiacon Arfon
Evans, Bangor; Glyn Tudwal Jones,
Bangor; Tudor Davies; Richard
Jones; Phillip Roderick a W.R
Williams. Gwahoddir aelodau Capeli
ac Eglwysi cylch Bethel, i'r
Gwasanaeth Cymun.

MERCHED Y WAWR - Gŵr gwadd y
mis hwn oedd Mr Robin Williams o
Goleg Amaeth Glynllifon. Cafwyd
sgwrs ddiddorol ganddo ar arddio.
Diolchwyd iddo gan Mrs Mair Jones,
Glangors. Enillwyd y raffl gan Mrs
M.L. Hughes, Penrhos. Gofalwyd am
y baned gan Mrs Eirlys Sharpe, Mrs
M. Griffiths, Tregof a Mrs Elizabeth
Evans, Blaen Parc.

Y mis nesaf bydd y gangen yn
ymweld â changen Cwm y Glo ar
Mawrth 17 a hefyd yn mynd i Westy
Gwynedd, Llanberis ar Fawrth 10 i
ddathlu Gŵyl Ddewi. Enwau i Mrs J.
Foulkes, Mrs Mair Price neu Mrs
Gwyneth Jones.

SEFYDLIAD Y MERCHED -
Cynhaliwyd cyfarfod misol y gangen
leol o Sefydliad y Merched nos lau,
Ionawr 21 gyda Mrs Gwyneth
Williams, Llain-yr-Ardd yn llywyddu.
Treuliwyd y noson yng nghwmni
Miss Gwyneth Parry, Dôl Erw yn
dangos sleidiau o'i gwyliau tramor, a
golygfeydd lleol. Diolchwyd iddi gan
Mrs Margaret Hughes, 6 Bro Rhos,
Darparwyd y te gan Mrs Gracie
Williams, 5 Bro Rhos a Mrs M.
Hughes, 6 Bro Rhos a diolchwyd
iddynt gan Miss Maggie Owen, 16
Bro Rhos. Enillwyd y raffl gan Mrs G.

Jones, Ddolwen fach.

CLWB FFERMWYR IEUAINC -
Llongyfarchiadau i'r canlynol yn
dilyn eu llwyddiant yng
nghystadlaethau merched
Eisteddfod Ffermwyr Ieuainc Eryri a
gynhaliwyd yng Nglynllifon nos
Wener, Chwefror 19.

Gwyneth Jones, Llanrug: 1af am
wneud Shortbread. Myfanwy Jones,
Glan Gors: 1af am wneud Tarten
Gwstad Wy. Jane Thomas,
Llanfaglan: 3ydd gyda gwaith clwb,
sef pedwar math o fwyd o gaws.
Shân Morgan, Llwyn Bedw: 1af am
Soft Toy. Gwyneth Jones, Llanrug:
3ydd am Patchwork Tea Cosy.
Llongyfarchiadau hefyd i Anwen
Jones, Carmel am ddod yn gyntaf
yng nghystadleuaeth Miss N.F.Y.F.C.
a Helen Jones, Glan Gors am ddod yn
ail.

LLONGYFARCHIADAU - I Janice
Mercer, Roslyn a Kathleen Bardsley,
Windy Corner y ddwy'n 18 oed yn
ystod y mis.

FFUG EISTEDDFOD YR ECO -
Llongyfarchiadau i dim Bethel am eu
llwyddiant ysgubol yn yr Eisteddfod.
Diolch arbennig i Mrs Ann Hopcyn
Evans a drefnodd a hyfforddi'r
cystadleuwyr ac am ennill prif wobr
yr Eisteddfod.

CYDYMDEIMLO - Nos Sul, Ionawr 24
yn ysbyty Bryn Seiont ar ôl gwaeledd
hir bu farw Mr Richard Jones, Bod
Hyfryd. Mae ein cydymdeimlad yn
fawr gyda Mrs Jones a'r teulu i gyd
yn eu profedigaeth.

Dydd Llun, Ionawr 25 yn ysbyty
Bryn Seiont yn 41 oed bu farw Mr
Vernon Owen, Penygroes. Mae ein
cydymdeimlad yn fawr iawn gyda
Mrs Gwyneth Jones a'r ddwy ferch, a
gyda Mrs Fanny Owen, Bryn Teg, ei
fam.

O'R FFUG-EISTEDDFOD



Trŵp bale Bethel ar ganol un o'r symudiadau mwyaf cymhleth ond gosgeiddig
eu dehongliad hwy o un o chwedlau Wil Cwac Cwas. Daethant yn ail yn y
gystadleuaeth.

Cymdeithas y Ddrama Gymraeg Coleg y Brifysgol, Bangor

yn cyflwyno

Y GWAHODDIAD

gan WILLIAM R. LEWIS

(Cynhyrchu gan William R. Lewis ac Alwyn Gruffydd)

THEATR GWYNEDD

7.30 Mercher-Sadwrn (Mawrth 3-6)

Tocynnau: £2.00 (£1.50 i fyfyrwyr, pensïynwyr a phlant)

LLANBERIS

CLWB METHEDIG ERYRI – Mwynhawyd gwledd ardderchog gan aelodau'r clwb yng Ngwesty'r Gwynedd ac wedi'r cinio diddorwyd yr aelodau gan Barti Canu Preswylfa. Cafwyd noson ddifrif iawn gan bawb.

Y GOBEITHLU – Yn ystod y mis mae'r plant yn y Gobeithlu yn Festri Capel Coch wedi cael eu diddori gyda ffilmiau a chwaraeon dan arweiniad y Parch. Marcus Robinson, y gweinidog, yn cael ei gynorthwyo gan Mrs Meira Pitts a Mrs Iola Sellars. Cymerodd y plant yma ran yn y rhannau agoriadol: Eirian Roberts, Hannah Rudkin, Einar Thomas, Christin Pitts, Dylan Williams, Marc Reynolds, Nia Wyn Griffith, Lisa Padmore, Jacqueline Sellars.

SEFYDLIAD Y MERCHED – Yn ein cyfarfod ddiwedd mis Ionawr cawsom y fraint o groesawu Mr Bert Thomas, J.P., O.B.E., i siarad am weithgareddau y 'Juvenile Court' a diddorol iawn oedd cael eglurhad ar amryw o bethau nad ydym ni, fel cyhoedd, yn eu deall, ac yr ydym fel aelodau yn diolch yn fawr iawn i Mr Thomas.

Yn anffodus, bu raid, unwaith eto, cydymdeimlo â rhai o'n haelodau oedd wedi colli perthnasau yn ddiweddar, sef Mrs Enid Rhys Owen, Mrs J. Lloyd Jones a Mrs Glenys Jones.

Pleser oedd cael croesawu Mrs Martha Hughes yn ôl atom ac wedi gwella'n reit dda ar ôl cael triniaeth yn yr ysbyty.

Hefyd, drwg iawn gennym glywed am salwch Mrs Martin Owen, ond yn falch o glywed ei bod wedi dychwelyd o'r ysbyty erbyn hyn, ac yr ydym yn anfon ein cofion ati hi.

CLWB ERYRI – Cyfarfu aelodau Clwb Eryri yng Ngwesty Gwynedd a mwynhawyd araith ddifrif iawn gan Mr W. Iolen Hughes. Bydd yr aelodau yn dathlu Gŵyl Ddewi yng Ngwesty'r Gwynedd ar Fawrth 5 gyda Mr Richard Jones, Abergele (cyn ysgolfeistr Ysgol Cynfi) yn wr gwadd.

LLONGYFARCHIADAU – Estynnir llongyfarchiadau i Gareth mab Mr a Mrs Robert Lloyd, 14 Dol Elidir ar ei lwyddiant fel gitarydd y grŵp a eilw eu hunain yn 'Lesgarot'. Grŵp o aelodau yr R.W.F. sydd ar hyn o bryd yn yr Almaen yw'r grŵp yma ac mae wedi ennill y wobr gyntaf mewn cystadleuaeth i grwpiau pop yn y wlad honno. Mae Gareth sydd yn 27 oed wedi chwarae'r 'trombone' yn seindorf yr R.W.F. ers 12 mlynedd, ac mae wedi gwneud disg eu hunan. Da iawn wir, gobeithio y cawn glywed y disg yn y wlad hon cyn bo hir.



RAS REDEG – Bu rhai o fechgyn Llanberis yn cymryd rhan yn y Ras 'Menai Mini Marathon' – ras o chwe milltir a hanner o Sir Fôn i Fangor, a chasglwyd rhai cannoedd o bunnoedd at Gronfa'r Cancr. Yn y dosbarth bechgyn o 13 i 17 oed daeth

Michael Roberts, unig fab Mr a Mrs Thomas John Roberts, Stryd y Ffynnon yn gyntaf. Llongyfarchiadau i chi Michael – daliwch ati – daw ras i ben yr Wyddfa ymhen ychydig, byddwch yn barod am honno 'rwy'n siŵr. Hefyd, daeth Melanie Sellars yn 3ydd yn Ras Connah's Quay.

O'R YSBYTY – Erbyn hyn mae Mr R. Hughes, Stryd Padarn a Mrs Martin Owen, Gwynfryn, Stryd Newton, gartref o'r ysbyty ac yn gwella yn dda iawn, hefyd Annette Sellars, Hafan a Mr Lewis Roberts, Tŷ Newydd, Clegir a Catrin merch Mr a Mrs Lennon, Plas Tirion.

EISTEDDFOD Y PLANT – Cyfarfu Pwyllgor Eisteddfod Plant Eglwys i'r ardal yn Festri Capel Coch dan lywyddiaeth y Parch Marcus Robinson i drefnu'r testunau. Cynhelir yr Eisteddfod **Ebrill 22 a 23**.

CYDYMDEIMLAD – Mae amryw o'r ardalwyr wedi colli rhai o'u teuluoedd yn ystod y mis – rhai ohonynt wedi byw ymhell o'r ardal ers blynnyddoedd. Estynnir y cydymdeimlad dwysaf â'r teuluoedd hynny i gyd:

Yn Nulyn dair wythnos yn ôl, lladdwyd drwy ddamwain â modur, nai i Mrs Nellie Williams, Creigle, Stryd Newton. Roedd yn byw gyda'i deulu yng Nghaerdydd ond wedi mynd am ddiwrnod i Ddilyn. Hefyd cydymdeimlir â Mrs Iris Wheldon Hughes, Maes Eilian, Mrs Buddug Hughes, Rhes Fictoria, a Mr Elfyn Bryniog Jones, Stryd y Ffynnon, y tri wedi colli ewythr – Rolant Evans (gynt o Pen y Bryn Ceunant Llanrug) ond wedi byw ers blynnyddoedd yn Bournemouth.

Ar ôl derbyn amryw o driniaethau llawfeddygol bu farw Dafydd, brawd Mr Dennis Jones, Y Llythyrdd. Roedd Dafydd Jones yn adnabyddus iawn wedi gwasanaethu fel postman am flynyddoedd yn y cylch.

Yn yr ysbyty yng Nghaernarfon bu farw chwaer Mrs Pat Smith, Oak Tree Cottage.

PERSONOL – Disgynnodd Sister Annie May Jones, Ardwyn, Stryd Capel Coch a thorri ei braich. Dymunir iddi adferiad llwyr yn fuan iawn.

DIOLCH – Dymuna Mr a Mrs Sellars, Hafan ddiolch i staff ysbyty Eryri am eu caredigrwydd a'u gofal am Annette tra y bu yno yn derbyn triniaeth. Diolch hefyd am y llu cardiau a dderbyniodd.

Y GYMDEITHAS LENYDDOL – Ar Chwefror 8 cafwyd noson hwyliog iawn dan ofal Mr Hugh R. Jones a ddaeth i lenwi bwlch ar fyr rybudd. Enillydd y llinell goll oedd Mr Vernon Hughes, a'r enillydd am ddarlenn Salm oedd Mrs E. M. Jones, gyda Mrs G. Roberts a Mrs B.E. Evans, yn gyfartal ail. Y beirniad ydoedd Mr Vernon Hughes. Diolchwyd i bawb gan Mr Irfon Ellis.

Nos Lun Chwefror 15 mwynhawyd noson gyda Pharti Lleisau Eryri dan ofal Mrs Iola Sellars a Mrs Ann Pritchard yn cyfeilio.

Mae Pwyllgor y Gymdeithas yn trefnu bws i weld perfformiad Cymdeithas y Gronyn Gwenith yn Theatr Capel Seilo Caernarfon nos Fercher, Mawrth 24 am 7.30. Am fanylion pellach cysylltwch â'r ysgrifenyddes – Mrs Iola Sellars, mor fuan ag sydd bosibl.

MARWOLAETHAU

O.H. Jones – Ar Chwefror 1af yn Ysbyty Môn ac Arfon bu farw O.H. Jones, 19 Llainwen Isaf yn 70 oed. Brodor o'r Felinheli ydoedd ond wedi byw yn yr ardal ers blynnyddoedd ac wedi magu tri o blant sydd erbyn heddiw wedi priodi a chartrefu tu allan i'r ardal. Un doniol iawn ydoedd

– gyda gwên ddireidus ar ei wyneb bob amser. Cydymdeimlir â'i weddw, y plant a'i chwiorydd a brodyr. Claddwyd ef ym mynwent Llanddeiniolen gyda'r Parchn. R.W. Williams a P. Rodrick yn gwasanaethu.

Miss Enid Owen – Yn yr ysbyty bu farw Miss Enid Owen, Bae Colwyn (gynt o Rhes yr Afon, Stryd Goodman). Roedd wedi gadael yr ardal ers blynnyddoedd bellach ond yn dal cysylltiad â'i hen ffrindiau. Claddwyd ym mynwent Nant Peris gyda'r Canon Alun Jones yn gweinyddu.

Mrs Lily Muriel Boyes – Yng nghartref Pen Gwaith ar y 8fed o'r mis bu farw Mrs Lily Muriel Boyes, Snowdon House yn 85 mlynedd oed. Daeth i fyw i'r ardal tua 18 mlynedd yn ôl gyda'i phriod, Capten W.C. Boyes. Claddwyd hi ym mynwent Nant Peris, gyda'r Canon Alun Jones yn gwasanaethu yn y gwasanaeth angladdol yn Eglwys Sant Padarn ac wrth y bedd.

Mrs Rebecca Jones – Yn ysbyty Heath, Caerdydd ar Chwefror 9 bu farw Rebecca, gweddw y diweddar Richard Bleddyn Jones, Snowdon Temperance, Pentre Castell, yn 54 oed. Cynhaliwyd y gwasanaeth angladdol yn Eglwys Jerusalem dan arweiniad y Parch Marcus Robinson, a chladdwyd hi ym mynwent Nant Peris. Cydymdeimlir â'r mab Peter, ei brodyr a'i chwiorydd a'r teulu i gyd yn eu colled a'u tristwch.

Mrs Phyllis Roberts – Yn ysbyty Bangor ar Chwefror 6 bu farw Mrs Phyllis Roberts yn 71 oed, gweddw y diweddar John Roberts, Maes Padarn gynt. Nid oedd iawn pedwar mis er iddi symud o Faes Padarn i lawr i'r pentre i Stryd Turner pan y cymerwyd hi'n wael. Un o blant yr ardal ydoedd, wedi ei geni a'i magu

yma, wedi priodi a gwneud ei chartref yma. Gwraig dawel a dymunol ydoedd wedi gofalu yn dyner am flynyddoedd am ei diweddar briod. Roedd yn aelod ffyddlon iawn o Eglwys Sant Padarn a daeth llu o gyfeillion a chymdogion i'r gwasanaeth angladdol yn Eglwys Sant Padarn a'i hebrwng i'r gladdfa yn Nant Peris. Gwasanaethwyd gan y Canon Alun Jones.

Cydymdeimlir ag Alun ei hunig fab, a'i briod, ei chwiorydd a'i brawd, hefyd Miss Bessie Roberts, B.A., ei chwaer yng nghyfraith, a'r teuluoedd i gyd yn eu profedigaeth.

CLWB YR HENOED – Nos Fawrth Chwefror 16 cyfarfu pwyllgor Clwb yr Henoed yn y Ganolfan dan lywyddiaeth Mrs M. Bryn Hughes. Cyfeiriodd y llywydd at rai o'r aelodau a gollwyd yn ystod y mis sef Mrs Phyllis Roberts, Stryd Turner, Mr R. J. Roberts, Stryd Snowdon, Mr T. Pritchard – priod Mrs Marie Pritchard, Llanrug nawr, a Mrs Lily M. Boyes, Snowdon House.

Roedd yn bleser deall fod Mrs Trevor Williams, un o aelodau gweithgar y clwb yn gwella ar ôl llawdriniaeth yn ysbyty Bangor, hefyd Mrs Martin Owen, hithau gartref o'r ysbyty. Trefnir y cinio i ddathlu Gŵyl Ddewi ddydd Iau, Mawrth 4 yng Ngwesty Fictoria am 12.30 o'r gloch. Daw aelodau'r pwyllgor o amgylch i gyrchu'r enwau ar gyfer y cinio.

DIOLCH – Dymuna Matron Plas Pengwaith ddiolch i lawer o drigolion yr ardal (rhy niferus i'w henwi) am alw heibio i gynnig cymorth yn ystod y tywydd garw. Hefyd y meddygon a'u staff, pobl busnes, Swyddogion Heddlu Llanberis a Heddlu Caernarfon, y trydanwyr, y plymar, y staff a'u gwŷr, heb anghofio rhai o blant yr ysgol am eu parodrwydd i glirio'r eira o'r fynedd.

TE PARTI



Anfonwyd y llun uchod gan Miss Bessie Roberts, Stryd Turner. Llun o deuluoedd yr ardal ar ddechrau'r ganrif yn cael te parti rhywle yn yr ardal. Mae amryw o'r cymeriadau wedi eu cysylltu â phobl sydd yn byw yma heddiw. Adwaenodd Mrs Deliah Parry, Plas Tirion lun o'i mam a'i nain a chwaer ei nain yn y llun. Hefyd Mrs Williams mam y diweddar Alun

Williams, Plas Coch. Ysgwn i os oes rhai o ddarlennwyr yr Eco â rhyw syniad lle y cynhaliwyd y te parti yma gyda phawb yn eu dillad gorau? Hefyd lle ydyw'r tŷ a welir ar y chwith i'r darlun? Mae tad Bessie Roberts ar y gornel dde a'i brawd o'r tu ôl iddo. Carai gael gwybodaeth a thipyn o hanes yr amgylchiad gan rai o'r darlennwyr os oes modd.

CINIO GŴYL DDEWI CLWB ERYRI

Cynhelir cinio'r Clwb yng ngwesty Gwynedd nos Wener, 5 Mawrth am 7.30. Y gŵr gwadd eleni yw Mr Richard Jones, Abergele, cyn-ysgolfeistr Deiniolen, a cheir adloniant gan Rovi, y consuriwr o Gaernarfon. Yn ogystal ceir cystadleuaeth y Limerig gyda John Roberts

Williams yn beirniadu. Swyddogion y clwb yw: Cadeirydd: Harri Gwynn, Is-gadeirydd, Emlyn Davies, Trysorydd: Ieuan Ellis Jones, Bardd y Clwb: Llion Jones gyda Rol Williams yn Ysgrifennydd, a Stanley Owen yn Gofnodydd.

TRIP YR HENOED



Dyma lun o rai o ferched Llanberis, y tu allan i'r Prince of Wales, cyn cychwyn ar un o'u triplau blynyddol. Pa flwyddyn tybed? Diolch i Mrs Mattie Jones am gael benthg y llun a diolch i A. Williams, 70 Tre Gof, Chapel St., Caernarfon am ei anfon inni. Gobeithiwn fod Mrs Jones yn gwella ar ôl llawdriniaeth yn yr ysbyty.

Llanberis

(Parhad)

DIOLCH – Dymuna Mrs Nellie Wyn Jones a'r teulu 7 Bro Cadfan, Rhosgadfan, gynt o Lwyn Dyrns a Dôl Elidir, ddiolch o galon i'r teulu a ffrindiau bro yr *Eco* am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd iddynt yn eu profedigaeth annisgwyl.

DATHLU – Llongyfarchiadau i Mr a Mrs William Henry Jones, Angorfa, Coed y Glyn sydd yn dathlu eu priodas arian ar Fawrth 23. Dymuniadau gorau oddi wrth y teulu i gyd.

VERDI GER Y FENAI

Yn dilyn llwyddiant ysgubol y perfformiad o'r *Meseia* (Handel) y llynedd gan Gôr y Brifysgol, Bangor, eleni try'r aelodau i'r cyfnod Rhamantaidd am waith corawl estynedig i'w berfformio. Ar Fawrth 11 (nos Iau) am 8.00 p.m. yn Neuadd Pritchard Jones, Y Coleg Uchaf, C.P.G.C., Bangor, daw cantorion ymroddedig y cylch ynghyd i berfformio *Requiem* (Offeren i'r Meirw) Verdi. Yno hefyd, gobeithir clywed lleisiau swynol yr unawdwyw canlynol: Wendy Eathorne (Soprano), Margaret Cable (Mezzo Soprano), Kenneth Bowen (Tenor), ac Ian Caddy (Bas).

Cyfansoddodd Verdi – yr enwocaf o blith holl gyfansoddwyr yr Eidal – dros ddeg ar hugain o weithiau llwyfan. Heddiw, cyfran fechan iawn o'r rhain a berfformir yn rheolaidd ar hyd ac ar led llwyfannau ein gwlad. Fodd bynnag, saif ei Offeren i'r Meirw (*Requiem*) ar begwn eithaf holl gampweithiau corawl y cyfnod. Fe'i cyfansoddodd i goffáu marwolaeth y bardd cenedlaetholgar Eidalaid hwnnw, Alessandro Manzoni, a fu'n gymar oes i Verdi.

Cwblhawyd y campwaith ym 1873 ac fe'i perfformiwyd am y tro cyntaf yn Eglwys San Marco, Milan y flwyddyn ddilynol. Verdi ei hun oedd yr arweinydd ac yn sgîl y perfformiad cloddiw hwnnw, sicrhawyd lle blaenllaw i'r *Requiem* yn 'repertoire' gorawll y cyfnod.

Hyderir y bydd y perfformiad ym Mangor yr un mor llwyddiannus.

Ceir tocynnau ar gyfer y cyngerdd uchod oddi wrth Ysgrifenyddes, Adran Gerdd y Brifysgol, Bangor 51151 Est 301 (rhwng 9.00-10.30 a.m.; 2.00-3.00 p.m.).

O'R FFUG EISTEDDFOD 'BARDD Y BATH'



Y Bardd buddugol – Ann Hopcyn o Fethel. Gwelir ei cherdd fuddugol ar dudalen 7.

LLUNIAU NADOLIG

Cafwyd lluniau o bartïon a chyngherddau Nadolig ymhlith y newyddion o rai o'r pentrefi ar gyfer y rhifyn hwn o'r *Eco*. Yn achos un o'r lluniau (llun Ysgol Feithrin, Llanberis) roedd rheswm da dros hyn, am i barti Nadolig yr Ysgol gael ei ohirio oherwydd y tywydd ofnadwy. Serch hynny ni fedrwn ystyried cyhoeddi lluniau Nadolig yn rhifyn mis Mawrth o'r papur. Mae'n ddrwg gennym am hyn, ond rydym yn gorfod ceisio bod yn gyson. Mae'r *Eco*'n llongyfarch disgyblion Ysgol Gynradd Cwm-y-glo ar gael cymryd rhan yn y rhaglen 'Canllaw', noswyl y Nadolig, ac am gasglu arian ar gyfer Cymdeithas y Deillion, a Phlas Tre Marl, Cartref i'r Anabl, Cyffordd Llandudno.

LLYN PADARN gan Leslie Larsen

Diolch o galon i bawb a gysylltodd â mi ynglŷn â Llyn Padarn yn rhewi.

Cefais gopi o lythyr oddi wrth Mr Gwynfor Jones, Ty'n 'Radd, Penisarwaun yn rhoi peth o hanes y llyn yn rhewi ym mis Chwefror 1895. Yn ôl y llythyr bu cannoedd o bobl yn sgelfrio ar y ddau llyn, Padarn a Pheris ac aeth Mr R.C. Williams, Garreg Wen, Nant Peris o un pen Llyn Padarn i'r llall ac yn ôl gyda throl a cheffyl. Yn sicr yn ôl y llythyr bu'r ardalywyr yn sgelfrio ar y llyn o leiaf o Chwefror 17 tan Fawrth 3.

Diolchaf i Mr Gwilym Roberts (Cae'r Frân), Fron Olau, Llanberis, noda ef y misoedd hyn fel rhai pan fu'r llyn rewi:

	1835
Chwefror	1855
Ionawr	1879
Chwefror	1895
Chwefror	1917
Ionawr	1947
Chwefror	1963

Yn fy nyddiadur i am 1963 gwelaf bod y llyn wedi rhewi o Ionawr 14, 1963 hyd Chwefror 26, 1963 o leiaf. Gwelaf hefyd fod y chwareli a rhai o'r ysgolion wedi gorfod cau am tua chwech wythnos oherwydd y rhew.

Chwiliodd Mr Roberts mewn hen ddyddlyfrau fel un Lewis Evans, Pen y Bont, Llanberis i ddod o hyd i'r wybodaeth. Diddorol oedd y geiriau hyn yn y dyddiadur, "Eira gwyn ar y Foel" 27 Gorffennaf 1915. Tybia Mr Roberts mai Moel Elan a olyga wrth

sôn am y Foel. Os eira oedd ar y Foel ar Orffennaf 27 ac nid cenllysg fel y mae Mr Roberts yn amau, y mae'n eithriadol.

Gall eira ddisgyn ar Eryri unrhyw fis bron; daeth yn gynnar yn 1979 – 22 o Fedi – ac mor hwyr â 21 o Fehefin yn 1964. Gellir gweld esgryn eira (hen eira) yng Nghwmglas, y Glyder a'r Carneddau yn aml ym Mehefin ond yn 1951 gwelais yr esgryn eira hyn ar y 5ed o Orffennaf.

Gwelaf o nodiadau Mr Roberts pa mor beryglus oedd gweithio yn Chwarel Dinorwig. Rhwng 22 Mehefin 1923 a Chwefror 14, 1925 lladdwyd wyth o ddynion yn y chwarel: William Charles Jones, Bryn Eglwys; Richard Davies (Driver); Lewis Griffiths Capel Seion; Griffith Owen, Penisarwaun; John Williams, (Bath); Owen Edward Williams, Cwm-y-glo; Evan Jones, Pen Dyffryn, Dinorwig; Robert Jones, Llanrug. Gwelais hefyd nodyn o'r flwyddyn 1829 am chwech o chwarelwyr yn boddi "trwy i gwch fyned i lawr yn ymyl y Gors Goch oherwydd gwynt dwyrain mawr wrth ddyfod at eu gwaith fore Gwener 23 Mehefin 1829 cawd 5 ohonynt ddydd Sadwrn a'r llall borau Sul."

Ymddiheuraf i chwi, gwelaf fy mod wedi crwydro braidd o fyd natur ond yr oedd y deunydd a gefais oddi wrth Mr Gwilym Roberts mor ddiddorol; unwaith eto diolchaf iddo ac i Mr Gwynfor Jones.

BARGEN

Ydych chi'n gwybod am rhywun sydd newydd, neu ar fin symud o'r fro hon i fyw? Does wahaniaeth pa mor bell y teithiant, Los Angeles, Paris, Llundain neu Ddrws y Coed gan ein 'bro-dorion' ar wasgar gadw cysylltiad â'r hen fro drwy

dderbyn yr *Eco*. Ie, am £4.50 y flwyddyn gallwn anfon copi o'r *Eco* yn fisol i unrhyw fan ar wyneb y ddaear. Os y gwyddoch am unrhyw un fuasai'n hoffi derbyn yr *Eco* drwy'r post yna cysylltwch â: Mrs M. Evans, Lloc, Llanrug (Ffôn Caernarfon 3227).

CABS PADARN

FFÔN: PADARN 347

Gwasanaeth Tacsî a Bws Mini

Gwasanaeth Maes Awyr a Phorthladd

Unrhyw bellter: Hur Contract

WAUNFAWR

CYDYMDEIMLWN â Miss Mair Cotton, Bryn Hyfryd ar golli ei mam.

YN YR YSBYTY – Aethpwyd â Mrs Jones, 12 Dol Erddi, a Mr David Griffith, Tref Eilian, i'r ysbty yn ystod y mis. Anfonwn ein cofion atynt a dymunwn wellhad buan iddynt. Hefyd cofiwn am drigolion eraill o'r pentref sydd yn dal yn yr ysbty. Dymunwn adferiad buan hefyd i Mrs Catrin Tomos, Y Groeslon, merch Mrs Roberts, Bodafon sydd yn Ysbty Môn ac Arfon, Bangor.

ADREF O'R YSBYTY – Bu Mrs Helen Jones, Dol Erddi, Adrian Roberts, Bryn Golau, Tina Parry, Bryn Golau, Mrs Heulwen Jones, Cynant Lodge a Mrs Liz Jones, Bryn Teg yn yr ysbty yn ddiweddar. Gobeithio eu bod yn dal i wella.

LLONGYFARCHIADAU i John Gwynedd, Nant, ar ei benodiad fel Rheolwr Cyllid gyda Chwmni Barcud. Bydd John yn dechrau ar ei swydd newydd ym mis Ebrill.

I Jill V. Williams, Tref Eilian, ar ei phriodas â Jeffrey Jones o Borthmadog, yng nghapel Engedi, Caernarfon.

I Mrs Hughes, Llys Meredydd, ar gyrraedd ei phen-blwydd yn 80 oed ar y 21ain o'r mis hwn.

DIOLCH – Dymuna Mrs Carys Owen, Gilfach ddiolch i'r rhai o'r pentref a gymerodd ran yn y Ffug Eisteddfod.

CLWB CANT – Dyma restr o enwau enillwyr Clwb Cant o fis Rhagfyr ymlaen – Rhagfyr: 1 – John Huws Roberts, 2 – Eurig Wyn, 3 – Dafydd Iwan. Ionawr: 1 – Norman Williams, 2 – T.H. Williams, 3 – M.V. Jones. Chwefror: 1 – M.V. Jones, 2 – Rob Jones, 3 – Delyth Williams.

CRONFA'R GANOLFAN – Dyma restr o enillwyr y Clwb 300 am fis Chwefror a dynnwyd mewn cyfarfod o Glwb y Mamau ar Chwefror 11, 1982 – 1: £40, (187) Gwilym Hughes, 16 Tref Eilian; 2: £25, (232) John Cadwaladr, 3 Glyn Afon; 3: £10 (221) Emlyn Davies, Bodwyn. Fe dynnir y gwobrau nesaf mewn cyfarfod o Gymdeithas yr Eglwys Mawrth 26, 1982.

Y GANOLFAN – Yng nghyfarfod diwethaf Pwyllgor Canolfan Waunfawr a gynhaliwyd ar Chwefror 10 diolchwyd i Don Roberts a Gwilym Williams am y gwaith arbennig a wnaed ganddynt ar gynlluniau'r Ganolfan. Mae'r caniatâd cynllunio terfynol bellach yn nwylo'r pwyllgor adeiladu ac mae Cyngor Arfon a'r Cyngor Cymuned wedi cefnogi'r cynlluniau.

Mae £3,400 yn y gronfa a 294 aelod yn y Clwb 300. Ymhlith y gweithgareddau y mae'r pwyllgor yn eu trefnu i'r dyfodol mae: Ras Farathon ar hyd llethrau'r Wyddfa o gwmpas y Pasg; Disgo yn Ysgol Syr

Huw Owen, Mawrth 12; Raffi Fawr; Cyngerdd arbennig ym Mai yng nghwmni Dafydd Iwan a Dylan, Traed Wadin; a chyngerdd o 'Ddoniau Lleol' ym mis Hydref.

Mae cyfansoddiad y Ganolfan wedi ei gyflwyno i'r Comisiynwyr elusen yn Lerpwl er mwyn sicrhau statws elusen i'r ymgyrch. Penderfynwyd, fel rhan o'r cyfansoddiad, i gynnal cyfarfod cyhoeddus blyneddol y Ganolfan ym mis Ebrill bob blwyddyn.

SEFYDLIAD Y MERCHED – Cynhaliwyd cyfarfod mis Chwefror o'r Sefydliad yn Neuadd yr Eglwys nos lau Chwefror 4 gyda Mrs Catherine Jones yn llywyddu. Dymunodd adferiad buan i Mrs Overy ac yr oedd yn falch o glywed fod Mrs Bet Hughes yn gwella.

Darllenwyd y llythyr misol a chofnodion y cyfarfod diwethaf.

Darllenodd Mrs Morfa Evans ei hadroddiad o'r Cyfarfod Blyneddol a gynhaliwyd yng Nghaernarfon.

Mae trip i Gaerdydd wedi ei drefnu ddydd lau, Ebrill 29 – pris £6.50. Blaendâl o £2 i'w anfon i Mrs Katie Wyn Jones erbyn Mawrth 12.

Cafwyd sgwrs ddiddorol gan Mr Rob Jones, Y.H. ar ein hawlau yn y gymdeithas o fewn y gyfraith.

Diolchodd Mrs Pat Parry iddo ar ran y Sefydliad.

Anfonwyd y blodau a roddwyd gan Mrs Catherine Jones i Miss Roberts, Glan Aber ac enillodd Mrs Mary Davies y raffi, a roddwyd gan Mrs Katie Wynn Jones.

Cynhelir y cyfarfod nesaf, sef cyfarfod Dathlu Gŵyl Ddewi yn Neuadd yr Eglwys nos lau Mawrth 4 – y wraig wadd fydd Mrs Buddug Lloyd Roberts, Cricieth.

RHODDION

Diolch i'r canlynol am eu rhoddion tuag at gostau cynhyrchu'r Eco:

£1: Mr a Mrs Evans, 32 New St., Deiniolen.

£1: Mr a Mrs D.W. Evans, 5 Tai Gweledfa, Deiniolen.

£2: Mrs W.M. Hughes, Rhiwen, Deiniolen.

£1: Di-enw, Y Waunfawr.

£2: Miss E.W. Jones, Ty'n Fawnog, Dinorwig.

£1: Mrs Annie Jones, 5 Maes Eilian, Dinorwig.

£2: Mrs Betty Peris Roberts, 11 Maes Eilian, Dinorwig.

£2.00: Mrs Betty Williams, 4 Coed-y-glyn, Llanberis.

£3.00: Di-enw, Llanrug.

50c: Di-enw, Penisarwaun.

£5.00: Miss H. Munro, 1 Lawrence Court, Corby.

DINORWIG

O'R YSBYTY – Da croesawu gartref wedi triniaeth lawfeddygol yn ysbty Bangor, Mrs Dilys Williams, Tŷ Capel a Mr Gwilym Williams, Chwael Goch, Fachwen. Parhaed i wella yw'r dymuniad.

CYDYMDEIMLAD – Cydymdeimlir â Mr a Mrs John E. Thomas, Bwlch Gwynt, a'r cysylltiadau teuluol eraill ym marw brawd Mr Thomas, y diweddar Mr Dafydd Orwig Thomas, yn Watford yn ddiweddar.

YN YR YSBYTY – Anfonwn ein cofion at Mrs Eileen Phillips, 6 Maes Eilian sydd mewn ysbty yn Ninbych. Brysied gartref.

CYMDEITHAS LENYDDOL UNDEBOL – Nos lau, Chwefror 4 yn y Ganolfan cafwyd sgwrs ddiddorol ar y Bardd Dewi Emrys, gan Mr Emyr Jones, Caernarfon (awdur Canrif y Chwaelwr). Canolbwyntiodd ar nodweddion neilltuol yng nghymeriad y bardd. Llywydd y cyfarfod a chyflwynydd y siaradwr i'r aelodau oedd Mr R.H. Williams, Tŷ Capel, a thalwyd diolchiadau wedi trafodaeth gan Mr Hugh Thomas, Bro Elidir.

CYFARFOD GWEDDI BYD EANG Y CHWIORYDD – Mawrth 4 1982 – Yn y Ganolfan bnawn Mawrth, Chwefror 9 gwnaed trefniadau i gynnal Cyfarfod Gweddi Byd Eang y Chwiorydd yn Eglwys Sardis (B), Mawrth 4 eleni.

DIOLCHIADAU – Diolch i'r canlynol ar ran Eglwys Dinorwig M.C. ac ardalwyr am helpu clirio difrod dŵr o gwmpas Capel M.C. nos Wener, Chwefror 12. Maluriwyd mynedfa i'r Festri a'r Capel gan ei rychu.

Gweithiodd Mr R.H. Williams, Tŷ Capel, Mr David L. Hughes a Mr John Peris Roberts, Maes Eilian a Mr Derec Williams, Bron Eilian yn cymenu o gwmpas at gael gwasanaeth at y Sul. Buont hefyd o gwmpas tai ardalwyr nos Wener yn rhoddi help llaw i glirio difrod dŵr. Diolch yn fawr hogiau.

YN YR YSBYTY – Deallwn fod Mrs Alice Parminter, gynt o Lythyrddi Dinorwig yn Ysbty Druid Llangefni. Anfonwn ein cofion ati ac at ei phriod Mr Harri Parminter.

DIOLCHIADAU – Dymuna Mrs Sue Thomas a'r plant, 11 Avon Close, Garston, Watford, hefyd Mr John E. Thomas, Bwlch Gwynt, Dinorwig ddatgan eu diolch diffuant i'w teulu, cymdogion a ffrindiau am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd iddynt yn eu profedigaeth o golli priod, tad, taid a brawd annwyl, David Orwig.

DIOLCH – Dymuna Mrs Betty Peris Roberts, 11 Maes Eilian, ddiolch o galon i'r teulu a'r llu cyfeillion am eu caredigrwydd tuag ati unwaith eto, pan fu yn yr ysbty mis Rhagfyr ac hefyd ar ôl dod gartref. Mae'n falch o ddweud ei bod yn gwella. Diolch yn fawr i bawb.

DIOLCH – Dymunaf ddiolch yn fawr am y rhoddion, y cardiau a'r dymuniadau da a dderbyniais ar achlysur fy ymddeoliad o Ysgol Gwaun Gynfi. Diolch hefyd am bob cydweithrediad a charedigrwydd gan fy nghyd-athrawon, y plant a'u rhieni, a chyfeillion ar hyd y blyneddoddd y bwm yn yr ysgol. Diolch o galon i bawb. – Ellen Wyn Jones.

Y LIMRIGAU BUDDUGOL

Aeth draenog am dro un ben bore
Cyn i neb roi tro yn y pentre
Ond 'roedd un hen fuwch
Ynghanol y lluwch
A sugnodd hi'n sych yr hen gene!

*Dolly Deiniolen
(Nan Jones, Deiniolen)*

Aeth draenog am dro rhyw ben bore,
I ddringo y Wyddfa o'i godre.
'Rôl cyrraedd y top
Cadd stori'n y siop
Fod Cwcw'n gwneud nyth yn ei gartre.

*W.J.G.
(Ann Hopcyn, Bethel)*

Aeth draenog am dro rhyw ben bore
Gwell f'ai i'r hen drwyn aros adre
Ar groeslon y Post
Fe gadd ddamwain dôst
Fo heddiw yw'r 'News' yn y pentre.
*Dioddefwr, Deiniolen
(Pwy?)*

Parodi ar y Tylluanod Enillydd – Rhiwen PLANT DRWS NESA'


Pan fyddai'r gath 'cw'n herwan
A 'Kit-e-Kat' yn brin,
A Jên y wraig yn mynd o'i cho',
Yn dawnsio'n ei chyrilin' pins,
Plant drws nesa'n cadw swm
Glywid yn uwch na'r gath a'r cwn.

Pan fyddai John ni'n fabi,
A hwnnw'n fabi blin,
Y bora bach a chanol nos,
Fe'i codwn ar fy nglin
'Roedd sgrechian uwch na'i sgrechian o:
Sgrechian y tacla'n Nant-y-Gro!

Pan lithrem ninnau i'r gwely
Ar nos o aeaf oer,
Pan glosiai Jên i 'nghesail i,
Minnau yn llyncu 'mhoer,
Pan ddaliais Jên mewn serchog rwyd ...
Swm y plant yn lladd pob nwyd!

A phan ddaeth dyddia ola'
Wedi'r prysurdeb mawr,
A dyfod diwrnod angladd,
Rhoi Jên i'r ddaear lawr.
Wel sôn am araith ganddyn nhw!
Cael llond fy mol – 'Bw-hw, bw-hw!'
Gwyn Parry

AM DRIP CYFFYRDDUS, DIOGEL A RHAD
I BLE BYNNAG Y BO . . .



**BWSIAU ARFON
LLANRUG
(ERIC MORRIS)**
Ffôn: Caernarfon 5175
neu Bangor 51981



I DRWSIO'R
TELEDU
NEU'R
RADIO
FFONIWCW...

**Osmond
W. Shaw**
DEINIOLEN
Ffôn:
LLANBERIS 545
Gwasanaeth 'run diwrnod
os ffoniwch cyn 10 o'r
gloch y bore

STORFA

Mace

**O.R. & M.
PARRY**
Sgwâr
Llanrug

Caernarfon 2790
Dewis hael
o fwydydd, llysiau
a diodydd

HWYL Y FFUG EISTEDDFOD

Ddechrau mis Chwefror cynhaliwyd ffug-eisteddfod lwyddiannus iawn yn neuadd Ysgol Brynrefail, Llanrug. Bu cystadlu brwd ond hwyliog rhwng pentrefi bro'r Eco a chafwyd cynulleidfda dda. Wil Sam oedd y beirniad ac Arwel Jones, Llanrug oedd arweinydd y noson. Enillwyd Tlws y Ffwlbri gan bentref Bethel. Ein llongyfarchiadau iddynt a'u diolch i bawb a wnaeth y noson yn llwyddiant.

Côr adrodd gyda sownd effects: 1. Bethel, 2. Llanrug, 3. Penisarwaun a Waunfawr. **Unawd ar unrhyw offeryn gwreiddiol:** 1. Ann Hopcyn, Bethel; 2. Mrs Katie Williams, Penisarwaun; 3. Rita Williams, Bethel a Roberta Griffith, Llanrug. **Adrodd unigol 'W':** 1. Katie Williams, Penisarwaun; 2. Llinos Owen, Bethel; 3. Jemeima Jane, Waunfawr; **Darllen darn heb ei atalnodi:** 1. Llinos Owen, Bethel; 2. Meira Turner, Waunfawr; 3. Margaret Owen, Waunfawr. **Deuawd i fab a merch:** Mrs M.D. Williams a Brian Williams, Bethel. **Parti Chwibianu deuchwib:** 1. Y Llinosiaid, Bethel; 2. Penseit, Deiniolen; 3. Parti Ronnie Ronald, Llanrug. **Côr Crib:** 1. Y Chwipdon Lleuog, Deiniolen; 2. Y Chwain, Llanrug; 3. Cribwyr, Waunfawr. **Bale Wil Cwac Cwac:** 1. 'La Scala', Penisarwaun; 2. Bale Rws, Bethel; 3. Rhywun, Waunfawr. **Llythyr Cwyno:** 1. Mrs Eirlys Williams, Deiniolen; 2. Ann Hopcyn, Bethel; 3. Cari Owen, Llanrug. **Limerig:** 1. Nan Jones, Deiniolen; 2. Ann Hopcyn, Bethel; 3. Dioddefwr, Deiniolen. **Parodi:** 1. Gwyn Parry, Deiniolen; 2. Nancy Lovatt, Llanrug; 3. Gwladys Evans, Gallt-y-Foel, Deiniolen. **Cerdd y Gadair - Cerdd Gocosaidd:** 1. Ann Hopcyn, Bethel; 2. Mrs Mary Vaughan Jones, Waunfawr; 3. Eurig Wyn, Waunfawr. **Y Cythraul 'Steddfod:** Tony Elliott, Penisarwaun. **Tlws y Ffwlbri i'r pentref buddugol - Bethel.**



Wil Sam, y beirniad, yn cyflwyno Tlws y Ffwlbri, sef draenog bach, i un o gefnogwyr ieuainc y pentref buddugol - Bethel.



Côr Crib buddugol yn nosbarth A - Deiniolen. 'Doedd dim cystadleuaeth yn Nosbarth D - felly nid oedd Llanrug yn bresennol!



Y Cythraul 'Steddfod - neb llai na'r golydydd newyddion pentrefi ei hun, Tony Helliott!

Y Gerdd Fuddugol gan ANN HOPCYN BETHEL

MIRI YN Y PENTREF

Bob bore Llun
Mae pawb yn gytûn,
A neb yn gwarafun,
Mai golchi yw'r testun.
'Roedd popeth yn iawn,
A hwfer pawb yn llawn,
A rhai yn orlawn,
Tan ddaeth y prynhawn.
Aeth Mari gyda chwardd
Allan i'r ardd
I nôl ei fest
Oedd yn cadw ei brest

Yn dwym, off y lein;
Hen fenyw ffein.
Ond O! y sioc
Pan sylwodd toc
Nad oedd y fest,
A brynodd yn yr arddwest,
Yn ei lle,
Ac 'roedd 'na wagle
Yn y fangre
Ar yr ochr dde
I'w blows brodre ongle.
Ar yr un pryd
I lawr y stryd,
Aeth Silfia siapus,
Hogan nwyfus,
Ar gythgam o frys
Yn llewys ei chrys,
I ganol y letus
I 'mofyn ei gwregys.
Ond Och! ac O!
Wedi'r holl chwilio
A bloeddio a fflamio,
Ac hefyd ail-sbio,
Ni wnaeth hi lwyddo
I ddod o hyd 'ddo.

Ar yr un adeg
Aeth y ddynas Saesneg,
Sy'n byw yn rhif deg,
Allan yn gloi,
Er mwyn crynhoi,
Yn ddiymdroi,
Y glaw i'w osgoi,
Y dillad a olchodd,
A hynny o'i hanfodd,
Nid o'i gwirfodd.
Yno 'roedd ei sgert
A'i blows blode pert,
Ei ffedog felen,
A'i phais o liw hufen
A gafodd yn fargen
Lawr yn South Ken.
Ond ble 'roedd ei bra.
Oedd yn wyn fel yr eira?
'Roedd wedi'i ladrata!
Meddylodd hithau
Yn syth am ei bronnau,
Y ddwy fel balwnau
Yn hardd fel y blodau
A wthient siwmperau
Yn fôr o donnau.



Deuawd Bethel - uchafbwyntiau'r noson!

O'r rhyfeddodau!
Meri a wylodd,
Silfia a lefodd
A'r Saesneg a daerodd
Y dalient y lleidr,
Ysglyfaeth o neidr,
A'i ddangos i'r byd
Yn ddihiryn ynfyd.
Er chwilio yn ddyfal
Ar hyd yr holl ardal,
Gan gymryd pob gofal
I ffeindio y fandal,
Ni chafodd ei ddal.
Ond pan fydd yn nosi
Mae Hiwbert, sy'n fforti,
A'i gorun yn moeli,
Yn dala'r bys
Heb lawer o ffys,
I fynd i'r dre
Tan dri yn y bore.
Cafodd ef waith
Ynghanol y twrw
Fel Danny La Rue;
Ac mae ganddo ffugenw,
Ar fu llw!
Sef Sandra Jên,
Sy'n barod ei gwên,
Hen hogan glên.
Mae Hiwbert yn cael hunllef,
Ei fod yn cyfaddef
I bawb yn y pentref
Ei fod, yn y dref
Yn newid ei ryw
O wryw i fenyw.
Ond 'does neb yn amau
Mai Hiwbert efallai
A aeth â'r pilynnau.
Gan bwy fasa'r stumog
I ddweud mai yr euog
Oedd y gweinidog?

W.J.G.

Trŵp bale Waunfawr - trydydd am gyflwyno un o chwedlau Wil Cwac Cwac.



MODURDY
MENAI



FFORDD CAERNARFON
Y FELINHELI

Ffôn : Portdinorwic 882
Perchennog : J. Evans

LLANRUG

TYSTEB – Gan fod y Parch W.O. Roberts, Annedd Wen, gweinidog Llanrug, Pontrhythallt, Tan-y-coed a Cheunant yn ymddeol Mawrth 31 y flwyddyn hon, penderfynodd Pwyllgor Eglwys i'r Ofalaeth wneud tysteb iddo i ddangos gwerthfawrogiad yr eglwys a'r ardal o'i wasanaeth gwerthfawr ac ymroddgar. Derbynnir cyfraniadau yr aelodau gan gynrychiolwyr o'r eglwys unigol. Croesewir hefyd unrhyw gyfraniad gan ardalwyr y tu allan i'r eglwys.

MERCHED Y WAWR – Nos Fawrth, Chwefror 9 yn yr Ysgol Gynradd cynhaliwyd cyfarfod o'r gangen. Llywyddwyd gan Miss Phyllis Ellis. Y wraig wadd oedd Mrs Ruth Davies, Llandegfan. Testun ei sgwrs oedd 'Coginio Bwydydd Cyflawn'.

Cafwyd cyfarwyddiadau ac arddangosiadau ar sut i wneud seigiau brecwast, seigiau sawrus, bwydlysiau, eidionwyn gwenith cyfan a phwdinau.

Diolchwyd i Mrs Davies gan Mrs Evans, Lloc.

Rhodddwyd y te gan y Foneddgesau Joyce Jones, Margaret Jones, Eirwen Rowlands, Olwen Hughes, Mair Hughes a Betty Roberts. Diolchwyd iddynt gan Mrs Davies, Plas Gwyn. Enillydd y raffl oedd Mrs Joan Griffith, Pant Tirion.

Cydymdeimlodd Miss Phyllis Ellis, ar ran y gangen, â Mrs Meirwen Lloyd ar farwolaeth ei thad.

Llongyfarchwyd Mrs Lola Humphreys ar enedigaeth ei merch, ac â Mrs Meira Pritchard, a Mrs Dilys Williams ar enedigaethau eu hwyresau.

Darllenodd y cadeirydd adroddiad Mrs Beth Ann Williams o Bwyllgor yr Anabl a ffurfiwyd yn gysylltiol â Phwyllgor Rhanbarth Arfon o Ferched y Wawr, a chyflwynodd Miss Megan Humphreys adroddiad o Bwyllgor Rhanbarth Arfon o Ferched y Wawr.

Cynhelir y cyfarfod nesaf Mawrth 9 yng Ngwesty Gwynedd Llanberis.

YN YR YSBYTY – Mae Mr Harry Roberts, 2 Tai Plastirion wedi derbyn triniaeth lawfeddyfol yn Ysbyty Môn ac Arfon. Anfonwn ein cofion cynhesaf ato, gan ddymuno adferiad buan iawn.

PRIODAS EURAIDD – Llongyfarchiadau calonnog i Mr a Mrs Joseph Williams, 17 Bro Rhythallt ar ddathlu eu Priodas Euraid Ionawr 28 eleni.

MARW – Daeth newydd am farw un a aned yn Llanrug sef Mrs Mary Louisa Pierce Roberts (Williams gynt) yn Swan River, Manitoba, Canada. Fe'i magwyd gan ei nain yn Nhyddyn Rhuddallt. Priododd ar ddiwedd y rhyfel byd gyntaf â Jack Jones

Roberts o ardal y Bala ac ymfudodd i Winnipeg. Yr oedd yn 87 oed. Gadawodd ddau fab a merch.

Bu farw Mrs Sallie Williams, Y Berllan yn ysbty Gallt y Sil, Caernarfon, Ionawr 16. Fe'i magwyd ym Mlaen Ffridd, y Waunfawr a bu'n ffermio yn y Gadlys, Llanwnda hyd at bymtheng mlynedd yn ôl pan ddaeth i fyw i Lanrug. Cydymdeimlwn â'i phriod Mr R.D. Williams a'i fab David, a hefyd â Mrs Ella Morris, Cwm-y-glo, ei chwaer.

Dyma englyn o waith Glan Rhyddallt a anfonodd Mrs Mary Lloyd Williams ar gerdyn:

Gwraig dirion lawn daioni – dda ei ffydd

**A phawb â pharch iddi
Ymhob modd fe haeddodd hi
Fam dyner gof amdani.**

LLWYDDIANT – Dymunwn longyfarch yn galonnog iawn Mr Rheon Thomas, B.A., mab Mr a Mrs R.O. Thomas, Gerallt ar ei lwyddiant yn arholiadau terfynol yr Institute of Public Finance Accountancy. Y mae Rheon ar hyn o bryd yn gweithio i Gyngor Sir Morgannwg Ganol. Dymuna ei lu cyfeillion o ardal Llanrug bob llwyddiant iddo eto i'r dyfodol.

CYMDEITHAS LENYDDOL CAPEL MAWR – Nos Iau, Ionawr 28 cyfarfu'r Gymdeithas dan lywyddiaeth Mr Elidir Owen, Sharel. Cyflwynodd Mr J.G. Jones, Ger y Ffynnon ddetholiad o'i hoff recordiau gyda sylwadau diddorol. Diolchwyd gan Mr Oswald Davies, Plas Gwyn a Miss Meirwen Roberts, Ganllwyd. Darparwyd te gan Mrs Gwenda Roberts, Hafle a Mrs Carrie Owen, Tŷ Fry.

Nos Iau, Chwefror 11 cafwyd noson i sôn am 'Gymeriadau Hynod' gan Mr John Wyn Owen, Llain Delyn a'r Parch W.O. Roberts, Annedd Wen. Llywyddwyd gan Mrs Eileen Williams, Awel yr Hesg. Diolchwyd gan Mr Cledwyn Williams, Tŷ'r Ysgol a Mr Ifor Williams, Gwelfryn. Rhodddwyd y te gan Mrs Parry, Morannedd a Miss Meirwen G. Roberts, Ganllwyd.

CYMDEITHAS CHWIORYDD CAPEL MAWR – Cynhaliwyd noson goffi Chwefror 4. Dechreuwyd trwy ddefosiwn gan Mrs Nancy Roberts, y llywydd. Daeth cynulliad da ynghyd, ac anfonwyd cofion at chwiorydd a fethai fod yn bresennol gan ddiolch iddynt am eu rhoddion. Cafwyd adroddiad y Drysoryddes, Mrs D. Jones, Tegerin a diolchodd y llywydd iddi a hefyd i'r Ysgrifenyddes, Mrs Beryl Thomas, Gerallt am eu llafur diflino. Gwnaed trefniadau gogyfer â Chyfarfod Gwedd i Chwiorydd y Byd a gynhelir yng Nghapel Mawr Mawrth 5. Rhodddwyd y coffi gan Mrs

L. Horman, Venice a Mrs M. Jones, Ogwen.

UNDEB Y MAMAU – Cynhaliwyd cyfarfod mis Ionawr o Undeb y Mamau yn y Ganolfan yn Hafan Elan. Croesawyd yr aelodau i'r ganolfan gan y Warden, Mrs Arthur Jones. Agorwyd y cyfarfod gyda gwasanaeth byr gan y Rheithor ac ef hefyd a estynnodd groeso i drigolion Hafan Elan i ymuno am y noson gydag aelodau Undeb y Mamau i fwynhau sleidiau a hanes Pererindod y Parch a Mrs E.T. Roberts, Sant Iago, Bangor i Wlad Canaan. Cafwyd sleidiau hynod o liwgar a da a chafwyd hanes y bererindod yn gryno iawn. Canwyd 'Y Gŵr wrth ffynnon Jacob' a 'The Stranger of Galilee' gan Mrs E.T. Roberts. Y gwestwagedd oedd Mrs S. Jones, 11 Bryn Moelyn a Mrs W. Ransom, Pen Boncyn, Bryn Moelyn a Mrs I. Jones, Penrhos. Yr oedd Mrs Jones, Penrhos yn dathlu ei phen-blwydd yn 80 oed y noson honno a chyflwynwyd iddi dusw o flodau hardd a cherdyn pen-blwydd wedi ei arwyddo gan bawb oedd yn bresennol. Diolchwyd i'r siaradwyr gwadd a'r gwesteion gan y Rheithor a diolchodd Miss M. Rowlands ar ran trigolion Hafan Elan. Yr oedd elw y raffl yn £4.15. Diweddwyd drwy adrodd y Gras. Cynhaliwyd cyfarfod mis Chwefror yn y Rheithordy ac agorwyd y cyfarfod gyda gweddïau gan y Rheithor. Llywyddwyd gan Mrs Williams, Y Rheithordy. Y gŵr gwadd oedd Mr Griff Roberts, Tŷ Gwyn a rhoes sgwrs ar Gymorth Cyntaf i'r Anafus. Mwynhaodd pawb y noson yn fawr iawn. Yr oedd Mr Roberts wedi dod â llawer o offer defnyddiol at waith cymorth cyntaf a dangosodd sut i'w ddefnyddio. Y gwestwagedd oedd Mrs G. Pierce, Glan'rafon a Mrs D. Gwynfor Williams, Y Rheithordy. Diolchodd amryw o'r aelodau i'r gŵr gwadd ac i'r gwestwagedd. Diweddwyd drwy adrodd y Gras.

CRONFA'R FYNWENT – Y mae'r Rheithor a'r Wardeiniaid yn cydnabod yn ddiolchgar y rhodd o £3 tuag at Gronfa'r Fynwent gan Mr Huxley Thomas, Llanberis.

PENODIAD – Penodwyd y Parch D. Gwynfor Williams, Rheithor Llanrug i fywoliaeth Llanbeulan, Llanfaelog, Rhosneigr a Thalyllyn, Ynys Môn gan ei Ras Archesgob Cymru i olynu'r Parch J. Harries Jones sydd wedi ymddeol. Bydd y Gwasanaeth Gosod yn Llanfaelog nos Fercher, 28 Ebrill.

Y GOBEITHLU, CAPEL MAWR – Cynhaliwyd tri chyfarfod. Dechreuwyd trwy ddefosiwn gan Ffion Lloyd Williams, Nia Gwawr Jones, Aled Roberts, Anwen Parry, Michelle Jones, Cemlyn Jones a Bryn Carwyn Thomas. Cymerwyd rhan

mewn canu ac adrodd, a dangoswyd ffilmiau Beiblaidd i'r plant gan Mr John Williams, Gweledfa. Nia Wyn Jones, Y Wern ac Anwen Parry, Ael y Bryn oedd yn cyfeilio. Diweddwyd y cyfarfodydd dan arweiniad y Parch W.O. Roberts.

O'R YSBYTY – Da gweld Mrs G.M. Jones, Y Dalar Deg wedi gwella ar ôl derbyn triniaeth yn Ysbyty Môn ac Arfon.

Nos Iau Mawrth 25 dan nawdd Cymdeithas Lenyddol Capel Mawr M.C. cynhelir y Gomedï 'Treble Chance' (Meirion Powell) gan Gwmni Drama Llanberis yn Ysgol Bryn'refail Llanrug – drysau'n agored 7.00 i ddechrau am 7.30.

Y SEINDORF – Bu'r Seindorf yn cystadlu yn Belle Vue, Manceinion ar Chwefror 14. Ni ddaethant i'r chwech cyntaf y tro yma.

Mewn cyfarfod o'r Pwyllgor Merched, ar Chwefror 15 trefnwyd Ffair Sborion yng Nghaernarfon i'w chynnal Mawrth 20. Fe fydd unrhyw un o'r pwyllgor yn falch o dderbyn sborion.

HAFAN ELAN – Nos Fawrth, Ionawr 26 ein gwŷr gwadd oedd tad a mab o Gaernarfon, Mr W. Parry a Mr A.W. Parry. Dangoswyd ffilm ganddynt a oedd yn dwyn y teitl 'Atgofion' sef hanes brwydr y Somme. Un o brif actorion y ffilm oedd Mr R. Hughes, Caernarfon mab i Mrs N. Hughes rhif 24.

Croesawyd hwy gan Mrs D. Jones (Y Warden) a diolchwyd iddynt gan Mrs G. Jones rhif 7.

Darparwyd y te gan Mrs B. Jones rhif 11 a Mrs E. Orritt rhif 10 a diolchwyd iddynt gan Miss M.I. Rowlands, Cilmeri.

Croeso adref i Mr J. Morris rhif 12 a dderbyniodd triniaeth lawfeddygol yn ysbyty Clatterbridge Lerpwl.

CYDYMDEIMLO – Cydymdeimlwn ag M.M. Williams, Rhyd yn ei phroffedigaeth o golli ei merch yng nghyfraith yn Stoke on Trent yn ddiweddar.

NOSON GOFFI – Nos Fercher, Chwefror 10 cynhaliwyd Noson Goffi ynghyd â stondin Moes a Phryn a gwnaed elw sylweddol at y ganolfan.

Enillwyr y raffl oedd – 1. Mr E. Orritt, 2. Mr Len Jones, 3. Joan, Bethel. Diolch i bawb am eich cefnogaeth.

CROESO ADREF – i Mrs S.V. Jones, Craigwen. Da deall ei bod yn gwella ar ôl gwaeledd yn yr ysbyty. Hefyd croeso adref i Arwel Rowlands, Llys Forgan ar ôl cyfnod yn yr ysbyty. Dymunir yn dda i Mrs Griffith, Dolanog, a fydd yn ystod mis Mawrth yn mynd i ymweld â'i mab Hywel yn Awstralia. Ein cofion o ardal Pontrhythallt ato ef a'i deulu.

GWILYM JONES Monumental Works LLANRUG

FFÔN CAERNARFON 2898

COFADEILWAITH O BOB MATH
MEWN LLECHI A GWENITHFAEN
GAN GREFTWYR LLEOL

SCIPIAU ARFON

YMGYMERIR Â CHLIRIO SBWRIEL O BOB
MATH
SBWRIEL ADEILADU, CARTREF A
DIWYDIANNOL
TELERAU RHESYMOL


Ffôn:

Dydd Caernarfon 5670
Llanfairfechan 680 329

Gyda'r Nos
Penylllyn 236.



UN ARALL O LUNIAU YSGOL BRYNERYR



Dosbarth y 'Scholarship' yn Ysgol Bryneryr, Llanrug. Yn anffodus, nid oes dyddiad ar y llun, ond dyma'r enwau:

Rhes gefn (chwith i'r dde) Joyce Wynne, John Richard, Lizzie May, Gwilym Frank, Elin Jane.

Rhes flaen (chwith i'r dde) Gwladys Jones, John Idris, Mr. Parry, Diana Whiteside.

Tybed a all rai o'n darllenwyr roi dyddiad i'r llun, ac enwau llawn y disgyblion?

AR Y TRÊN I WERSYLL YR URDD



Trên yn gadael Stesion Pontrhythallt, Llanrug. Y ddwy ferch yw Katie Wyn Jones a Diana Whiteside Jones. Yn ôl eglurhad ar gefn y llun, mae'r ddwy ar eu ffordd i Wersyll Llangollen yn 1929. Ai gwersyll yr Urdd oedd hwn? Hoffem fwy o wybodaeth os gwelwch yn dda.

CLWB CANT - Dyma enillwyr Rhagfyr. 1, Hefin Jones; 2, Derfel Griffiths; 3, Berwyn Hughes. Enillwyr Ionawr. 1, Twrog Jones; 2, Dafydd Evans; 3, L. Larsen.

Y GYMDEITHAS UNDEBOL

Y GYMDEITHAS UNDEBOL - Ar Chwefror 2, gyda Mr Ifor Williams, Gwelfryn yn llywyddu, mwynhawyd noson hwyliog o Frethyn Cartref, yn cynnwys tair sgets yn cael eu perfformio gan Mrs I. Butler a Mrs Katie Williams, Mrs Jones-Evans a Mrs L. Hughes a Mrs W.A. Jones. Mrs J. Williams, Mrs L. Horman, Mrs A. Smith a Mrs E.W. Thomas. Yn ychwanegol cafwyd adroddiadau ac unawdau a deuawd. Darparwyd cystadleuaeth 'Darn heb ei atalnodi' gan Mrs J.M. Jones.

I derfynu darllenwyd penillion i gyfarch yr holl aelodau gan Mrs E.W. Thomas. Talwyd diolch i bawb gan y Parch W.O. Roberts.

Chwefror 16, cafwyd dadl 'Mae'r ddelfryd o gydraddoldeb i ferched yn fantais i Gymdeithas heddiw'. Y siaradwyr oedd y Parch W.O. Roberts, Mr Emrys Owen, Mrs W.A. Jones a Mrs Lola Butler. Llywydd y noson oedd Mrs M. Lloyd Williams a thalwyd y diolchiadau gan y Parch Erfyl Blainey.

DRAENOG



Pa reswm sydd gan athrawesau cerdd i sleifio allan o dai tafarn mewn cywilydd gan esgus chwilio am newid i ffonio?

DRAENOG ARALL O LANRUG



Y CASINO

Trwy godi papur dyddiol Y 'Sun', y 'Mail' neu'r 'Post', Cewch Bingo neu Casino I'r aelwyd ar fin nos.

A dyna a ddigwyddodd I Ceinlys a'r hen Em. Wrth groesi'i ffwrdd y rhifau Gan ddisgwyl dod i ben.

Yn sydyn fore Sadwrn, A Ceinlys roddodd sgrech: "Mae wedi cyrraedd, Emrys! Y rhif; sef dauddeg chwech!"

Daeth Caribi, Barbados Yn llawer milltir nes, A gobaith o dorheulo Ar draethau yn y gwres.

SIBRYDION O'R YSGOLION

TRIP I LUNDAIN - Yn ystod yr wythnos diwethaf aeth Mrs Manning a Mrs Carys Jones a disgyblion y 5ed a'r 6ed dosbarth i Lundain i weld drama 'Arms & The Man', yn Theatr Lyric. Mae'r ddrama yn rhan o gwrs lefel O eleni.

LLWYDDIANT YSGUBOL GWLITH - Ar Chwefror 13 roedd Cystadleuaeth Werin yn cael ei chynnal yng Nghanolfan yr Urdd yn Aberystwyth. Bu grŵp o'r ysgol yn fuddugol. Mae 'Gwlith' yn awr yn mynd i Cill Airne i gynrychioli Cymru yn yr Wyl Geltaidd. Hefyd byddant yn cystadlu yn y gystadleuaeth 'Cân i Gymru', gyda chyfansoddiad o eiddo Arfon Wyn, aelod o'r grŵp Gwerin adnabyddus Pererin. Pob lwc a llongyfarchiadau iddynt. Cwmp go lew oedd ennill trwy Gymru gyfan eto.

TYSTYSGRIFAU

A wnaiff pawb sydd heb dderbyn tystysgrifau lefel A, O a TAU ddod i'w casglu i swyddfa'r ysgol mor fuan ag sy'n bosibl.

CYNRYCHIOLI EI WLAD - Bythefnos yn ôl bu Chris Lloyd, Pen-y-Pas yn sgîo tros Gymru ym Mwgaria. Roedd Chris sydd yn y 6ed dosbarth, wedi mwynhau ei hun yn arw. Cystadleuaeth ryngwladol rhwng Cymru, Lloegr a Bwlgaria oedd hi. Da iawn Chris.

CRONFA'R YSGOL - Dymuna'r ysgol ddiolch o galon i Bwyllgor Carnifal Llanrug am eu rhodd hael o £50 i Gronfa'r Ysgol. Diolch yn fawr iawn!

"Rhaid i ti ffonio," meddai, "I ddinas Llundain draw, A dweud dy fod yn hawlio Y 'Jackpot' yn dy law."

Ond anodd oedd cael gafael Ar un oedd gyda'r pwrs; Roedd miloedd wrthi'n barod Yn disgwyl am gael sgwrs.

Ond trannoeth fe ddaeth newydd Mai rhywbeth aeth o'i le; Roedd pawb bron wedi ennill O'r gogledd lawr i'r de.

Castelli wedi chwalu; Rhaid cyrraedd côt a het: Aeth Emrys i Ferodo A Cein i'r Coparet!

A chwithau, os am gynnig, Rhaid cael gwell chwarae teg. Nid dwsin fydd y cywion Tra deor un ar ddeg.

CYMYSGWR CONCRIT AR FENTHYG

£10 yr wythnos
£2.50 y dydd

HEFYD CLUDO
LLWYTHI YSGAFN
CLIRIO SAFLEOEDD,
DANFON TYWOD,
GRO A DEFNYDDIAU
ADEILADU ERAILL

ERIC GOVER

11 STRYD YR
WYDDFA

LLANBERIS

Ffôn:
PENLLYN 285
neu PADARN 327

Ar gyfer pob parti . . .
I ddathlu pob achlysur . . .

Gwesty'r Foelas

(Richard a Meirwen Thomas)


Llanrug

Ffôn: CAERNARFON 4652

GORS BACH PANEL BEATING SERVICE Cwm-y-glo

Ffôn : LLANBERIS 814

GWASANAETH TORRI-LAWR
24 AWR



06190 – O CHWECH I NAW DEG!



Tudalen i'r
plant: hen
ac ifanc
gan
**DYFRIN
Y
DEWIN**

CHWEDLAU MÔRLADRON YR YNYSOEDD PELL

2. TRYSOR YNYSOEDD Y MACHLUD

Flynnyddoedd lawer yn ôl, roedd Brenin ar yr Ynysoedd Glas. Roedd yn hen frenin, ac yr oedd wedi byw erioed ar yr Ynysoedd Glas. Roedd bryn uchel ar y fwyaf o'r Ynysoedd Glas, ac ar ben y bryn roedd castell. Yn y castell hwn roedd y Brenin yn byw, ac yno hefyd yr oedd ei fab, y Tywysog, yn byw.

Bob dydd, fel yr oedd yr haul yn machlud, roedd y Tywysog yn edrych allan i'r môr. Ymhell bell ar draws y môr gallai weld tair ynys. Eu henwau oedd Ynysoedd y Machlud.

Un diwrnod aeth y Tywysog am dro i'r traeth. Roedd Hen Forwr yn eistedd yno.

"Wyddoch chi am yr ynysoedd draw ar draws y môr?" gofynnodd y Tywysog.

"Gwn," atebodd yr Hen Forwr, "bûm yno'n chwilio am drysor pan oeddwn yn ifanc."

"Gawsoch chi drysor?" holodd y Tywysog.

"Rhywfaint," atebodd yr Hen Forwr. "Roedd y Morladron Duon yn byw ar Ynysoedd y Machlud amser maith yn ôl. Roeddynt yn dwyn trysor oddi ar longau oedd yn hwylio heibio, ac yn ei guddio ar yr ynysoedd. Mae'r Morladron Duon wedi gadael yr ynysoedd bellach, ond mae llawer o'r trysor yn dal yno."

"Rydwi eisiau mynd i Ynysoedd y Machlud," meddai'r Tywysog. "Fe ofynnaf i'r Brenin am long. Ddowch chi hefo mi?"

"Dof," meddai'r Hen Forwr, "neu chei di byth mo'r trysor."

Y diwrnod wedyn, daeth y Brenin i lawr i'r traeth i wyllo'r Tywysog, yr Hen Forwr a chriw'r llong yn hwylio i ffwrdd i Ynysoedd y Machlud.


"Cofiwch ddod yn ôl i'r Ynysoedd Glas," meddai'r Brenin wrth wyllo'r llong yn hwylio i ffwrdd.

O fewn ychydig ddyddiau roedd y llong wedi cyrraedd Ynysoedd y Machlud. Doedd dim coed, na blodau, na gwair yn tyfu arnynt. Roedd creigiau du dros yr holl ynysoedd. Aeth y Tywysog a'r Hen Forwr a'r criw dros y creigiau i chwilio am y trysor. Roedd y'r Hen Forwr yn cofio ble roedd y trysor wedi ei guddio. Yn fuan, daethant at ogof yng nghanol y creigiau.

"Edrychwch," meddai'r Hen Forwr, "dacw ogof y Morladron Duon. Ynddi roedd y Morladron yn



Yr Hen Forwr a ddangosodd ble'r oedd trysor y Morladron Duon wedi ei guddio.
Lliwiwch y llun.



Llong y Tywysog yn hwylio tuag at Ynysoedd y Machlud.
Lliwiwch y llun.

byw ers talwm. Os oes trysor ar ôl, bydd wedi ei guddio yn yr ogof."

Aeth y Tywysog a'r criw i mewn i'r ogof ar ôl yr Hen Forwr. Roedd yn dywyll iawn yn yr ogof, ac yr oedd yn anodd iawn gweld yn glir.

"Bydd yr aur wedi ei guddio ym mhen pellaf yr ogof, mae'n siŵr," meddai'r Hen Forwr.

Roedd creigiau mawr du yng nghefn yr ogof. Edrychodd pawb o'r tu ôl i'r creigiau, ond doedd dim trysor yno. Edrychodd pawb o dan y creigiau, ond doedd dim trysor yno. Roedd pawb yn siomedig iawn. Ar y ffordd allan o'r ogof sylwodd y Tywysog ar ogof fechan arall wrth ochr yr ogof fawr.

"Edrychwch," meddai, "beth sydd yma?"

Roedd yn dywyllach yn yr ogof fechan, ond eto'i gyd roedd yn bosibl gweld rhywbeth wrth ochr craig ddu yno. Sach! Cariodd y morwyr y sach allan. Roedd tair sach yno i gyd. Daeth y morwyr â'r holl sachau allan o'r ogof. Edrychodd y Tywysog i mewn i'r sachau.

"Trysor," meddai; "dyma drysor y Morladron Duon."

Yna, gwelodd yr Hen Forwr rywbeth arall yn sgleinio ar lawr.

Cyllell finiog oedd yno.

"Mae'r gyllell hon yn sgleinio fel newydd," meddai. "Cyllell un o'r Morladron Duon yw hi. Mae'n rhaid fod y Morladron wedi dod yn ôl i'r ynysoedd. Rhaid i ni frysio'n ôl i'r llong. Os daw'r Morladron Duon ar ein traws, fe fyddan nhw'n ein lladd ni i gyd!"

"Awn â'r trysor efo ni," meddai'r Tywysog.

Cariodd y morwyr y sachau yn ôl i'r llong. Erbyn iddynt gyrraedd y llong roedd hi'n rhy dywyll i hwylio i ffwrdd.

"Rhaid i ni aros tan y bore," meddai'r Hen Forwr, "oherwydd mae creigiau peryglus o gwmpas yr ynysoedd."

"Bydd yn rhaid i ni hwylio ar doriad y wawr," meddai'r Tywysog, "rhag ofn i'r Morladron Duon ddod."

Y bore wedyn, hwyliodd y llong o Ynysoedd y Machlud cyn gynted ag y gwawriodd. Ond! Fel yr oedd y llong yn hwylio heibio i'r creigiau, gwelodd yr Hen Forwr long arall yn hwylio tuag atynt. Llong ddu oedd, gyda hwyliau du arni a phenglog wen ar yr hwyliau.

"Y Morladron Duon!"

GWYDRO DWBL? ARFON WINDOW FITTERS Ltd.

56a Ffordd Penchwintan, Bangor
Bangor 52313

Cyngor arbenigol yn rhad ac am ddim
Gwarant o 5 mlynedd ar yr holl waith

CEFNOGWCH Y CWMNI LLEOL
SY'N LLOGI LLAFUR LLEOL

Cyfarwyddwr: Ian Harris

Bistro

**45 Stryd Fawr
LLANBERIS**

Ffôn: PADARN 278

(Danny a Nerys Roberts)

Pryd gorau'r fro

gwaeddodd yr Hen Forwr. "Y Morladron Duon! Rhaid i ni ddianc. Mae'r Morladron Duon am ein lladd!"

Roedd y criw yn gweithio'n galed i drin yr hwyliu, ond dod yn nes yr oedd llong y Morladron Duon. Edrychodd y Tywysog yn ôl.

"Mae'r llong ddu'n nesu!" gwaeddodd.

"Mwy o hwyliu," meddai'r Hen Forwr.

"Maen nhw'n hwylio'n gyflymach na ni," meddai'r Tywysog, "maen nhw'n dod yn nes bob munud."

"Mae'n rhaid i ni ddianc," meddai'r Hen Forwr.

Ond dod yn nes ac yn nes yr oedd llong y Morladron Duon. Roedd y Tywysog yn medru gweld y morladron ar fwrdd y llong. Roedd cleddyfau a chyllyll miniog gan bob un ohonynt. Roedd pawb ofn y Morladron Duon.

Edrychodd y Tywysog ar draws y môr. O'i flaen roedd craig fawr yn codi o'r môr. Cafodd y Tywysog syniad.

"Hwyliwch tua'r graig fawr," gwaeddodd. "Ewch â'r llong mor agos i'r graig ag sy'n bosibl."

"I beth?" holodd yr Hen Forwr. "Fe fydd y Morladron Duon yn siŵr o'n dal a'n lladd."

"Hwyliwch tua'r graig," meddai'r Tywysog eto. "Fe ollyngwn y trysor ar y graig ac efallai y bydd y Morladron Duon yn ddigon barus i aros i'w godi."

"Dyna'n hunig siawns," atebodd yr Hen Forwr, "rhaid barus am drysor fu'r Morladron Duon erioed."

Hwyliodd y llong yn agos iawn i'r graig fawr. Gafaelodd y criw yn y sachau a thywallt y trysor ar y graig. Roedd y graig wedi ei gorchuddio gan y trysor, ac yn sgleinio yn yr haul. Aeth llong y Tywysog ymlaen heibio'r graig.

Roedd llong y Morladron Duon yn agos iawn erbyn hyn. Roedd bron â

chyrraedd y graig fawr. Yna, gwelodd un o'r Morladron y trysor ar y graig.

"Trysor!" gwaeddodd. "Llund craig o drysor!"

"Arhoswch!" gwaeddodd un arall.

Daeth llong y Morladron Duon at y graig fawr, ac aros. Yn fuan iawn, roedd y Morladron Duon yn dringo o'r llong i'r graig ac yn casglu'r trysor.

Erbyn hyn, roedd llong y Tywysog wedi hwylio ymhell oddi wrth y graig, gan adael y Morladron Duon yn bell ar ôl. O fewn ychydig ddyddiau roeddylt wedi cyrraedd yr Ynysoedd Glas. Roedd y Brenin wedi eu gweld o'i gastell, ac wedi dod i'r traeth i'w cyfarfod.

"Rydych chi'n ôl yn ddiogel," meddai'r Brenin; "oedd trysor yn Ynysoedd y Machlud?"

"Oedd," atebodd y Tywysog, "ond bu'n rhaid i ni ei adael i'r Morladron Duon."

"Peidiwch â phoeni," meddai'r Brenin, "yr hyn sy'n bwysig yw fod pawb yn ddiogel."

Ac aeth y Tywysog, yr Hen Forwr a'r criw i gyd gyda'r Brenin yn ôl i'w gastell i gael gwledd fawr am iddynt gyrraedd yn ôl yn ddiogel o Ynysoedd y Machlud.

GWRACHOD!

Ydych chi'n credu mewn gwrachod? Roedd llawer o bobl ers talwm yn credu fod gwrachod yn medru mellithio a rheibio - anifeiliaid yn ogystal â phlant a phobl. Yn ei llyfr: 'Gwrachod Cymru', mae Eirlys Gruffydd yn sôn am rai o wrachod ardal Llanberis.

Darllenwch yr hanes am y dair gwrach oedd yn defnyddio Ffynnon Chwerthin i felltithio. Ble tybed mae'r ffynnon honno? Os oes rhywun yn gwybod, anfonwch y wybodaeth i'r 'Eco'.

Gwrach enwog arall yn byw yng nghreigiau Mur Mawr ym Mwlch Llanberis oedd Ganthrig. Aeth rhai o blant yr ardal ar goll, ac er bod pawb yn ofni Ganthrig, nid oedd neb wedi meddwl y byddai'n gwneud niwed i'r plant. Un diwrnod, daeth un o weision Cwmglas o hyd i law un o'r plant oedd ar goll. Dechreuodd pobl yr ardal wyllo Ganthrig a'i dilyn i'w hogof. Clywsant blentyn yn crïo, a rhuthrodd un o'r dynion i mewn a thorri pen y wrach i fwrdd efo cryman. Claddwyd y wrach mewn lle o'r enw 'Tir Coch'.

Beth am anfon gair i'r 'Eco' i roi gwybod i ni ble mae 'Tir Coch'. Oes gan rywun hanes gwrachod eraill o fro'r 'Eco'?

S	Rh	C	L	W	Y	D	Y
O	S	I	O	C	O	Th	I
Ch	A	E	N	L	G	W	Y
M	A	E	I	F	W	Th	Y
A	A	Dd	R	O	E	Y	W
G	S	Y	W	O	N	C	N
C	A	D	N	A	N	T	O
Ll	T	N	A	L	M	A	C

Mae enwau pymtheg o afonydd Cymru wedi eu cuddio yn y sgwâr uchod, sef:-

SEIONT, OGWEN, CADNANT, CEFNI, COLWYN, GWY, MAWDDACH, WYSG, SOCH, CLWYD, CONWY, CAMLAN, COTHI, AERON, GAM.

Mae chwech o lythrennau ar ôl heb eu defnyddio. Defnyddiwch y llythrennau i ffurfio enw un afon arall sy'n ffurfio'r terfyn rhwng plwyfi Llanddeiniolen a Llanrug.

WIL CWAC CWAC A'I DEULU PLUOG YN YMWELD Â'R ARDAL

TÎM BUDDUGOL PENISA'RWAUN YN Y FFUG 'STEDDFOD



ATGYWEIRIO DODREFN 'FRENCH POLISHING' UGAIN MLYNEDD O BROFIAD YN Y GWAITH

J. RHEON PRITCHARD

14 GLANRAFON BONTNEWYDD

Ffôn: Caernarfon 3507)



BECWS DEINIOLLEN

(D.E. & R.P. JONES)

Ffôn: LLANBERIS 232

BARA FFRES A THEISENNAU BLASUS

Hefyd gwerthwyr CALOR GAS

DEINIOLEN

(Llongyfarchiadau gwresog i'n gohebydd yn Neiniolen, a'i phriod, Mr a Mrs R. Rowlands, 12 Pentre Helen, ar ddatlu eu Priodas Ruddem).

CLWB ELIDIR - Cyfarfu'r aelodau yn y clinig, ddydd Mawrth, Chwefror 9. Yn absenoldeb y llywydd, Mrs C. Marren arweiniwyd y cyfarfod gan Mrs Megan Morris, is-lywydd y Clwb. Anfonwyd cofion at amryw o'r aelodau sydd yn cwyno. Pasiwyd cydymdeimlad â'r Parch Trevor Lewis a'r teulu ym marwolaeth tad Mr Lewis yng Nghaergybi. Hefyd cydymdeimlwyd â Mrs Griffith, 10 Tai'r Faenol, yn y brofedigaeth o golli ei mab yng nghyfraith yn Llundain. Mae'r aelodau yn dra diolchgar unwaith eto i ddau berson a ddymuna fod yn anhysbys, un am rodd o £3 ac un arall am rodd at y raffl. Dymunwyd pen-blwydd hapus i bedair aelod oedd yn cael eu pen-blwydd yn ystod yr wythnos, sef Mrs Blodwen Parry a Mrs Jane Jones, Stryd Newydd, Mrs Mary Thomas, 7 Tai'r Faenol a Mrs Mary Hughes, Rhyd Fadog. Rhoddwyd y te gan y pwyllgor. Enillwyd y raffl gan Mrs Evans, 6 Tai Caradog.

MERCHED Y WAWR - Cynhaliwyd cyfarfod o'r uchod yn Ysgol Gwaun Gynfi, nos Lun, Chwefror 8. Yn absenoldeb Mrs Miriam Lewis, llywyddwyd y cyfarfod gan Mrs Megan Morris. Pasiwyd cydymdeimlad â theulu Llys Myfyr ym marwolaeth Tad y Parch Trevor Lewis. Cafwyd adroddiad llawn a chryno o gyfarfod Pwyllgor Rhanbarth Arfon o Ferched y Wawr, a hefyd o bwyllgor yr anabl a gynhaliwyd yn yr Aelwyd, Caernarfon ar Ionawr 23 gan ddwy oedd yn ein cynrychioli, sef Mrs Megan Morris a Mrs Jane Eirlys Williams. Hefyd dymunir llongyfarch dwy o'r aelodau am eu llwyddiant yn Ffug-Eisteddfod Bro'r Eco a gynhaliwyd yn Ysgol Brynrefail, Llanrug, nos Wener, Chwefror 5, sef Mrs Gwladys Evans a Mrs Jane Eirlys Williams a ddaeth yn gyntaf allan o bedwar ar ddeg am lythyr cwyno. Cynhelir swper Gŵyl Ddewi Merched y Wawr yng ngwesty Bron Eryri, Llanberis, nos Fawrth, Mawrth 2. Bydd y Bws yn cychwyn o Ddinorwig am 7.15 o'r gloch. Trefnwyd y noson gyda lluniaeth ysgafn a baratowyd gan yr aelodau.

SEFYDLIAD Y MERCHED - Cafwyd noson ddiddorol nos Lun, Chwefror 1 yng nghwmni Miss Richards, Caernarfon. Ei thestun oedd 'Patagonia'.

Anfonwyd ein cofion at Mrs Hughes, Rhiwen yn ei thrallod o golli ei gŵr, Mr W.M. Hughes. Bydd y cyfarfod nesaf nos Lun, Mawrth 1. Gwahoddir Pensiynwyr Deiniolen a'r cylch i swper yn Ysgol Gwaun Gynfi am 7 o'r gloch. Derbynnir rhoddion fel arfer gan yr aelodau.

Cwsmeriaid Wedi'u Siomi

(Diolch i 'Hen Aelod' am y penillion hyn yn adrodd am ddigwyddiad trist yn hanes y fro.)

O gychwyn digon egwan
Ac aberth dewrion wŷr
Cynyddu wnaeth yn raddol
Yn siop enwoca'r sir
Caed ynddi bob darpariaeth
Mewn bwydydd a theilwriaeth
Esgidiau, glo, oil lamp a blawdia
Dodrefn hefyd fel bo'r eisiau
Fe fwydodd gannoedd lawer
Ar gyflog bach y chwarel.
Er y dogni amser rhyfel
Gofalai'r cawr o Aberdâr
Y byddai pawb yn saff o'i siar
Roedd Morgans bach yn fachan triw
Yn wir, i'r Coparet yr oedd yn byw
A llwyddo wnaeth ymhen rhai blwyddi
I dalu hanner-coron in mewn "divi".
O'r staff fu yno'n gweithio

Yn ferched ac yn ddynion
Rhai yn glên, a rhai yn flin
Nid oes yn aros ond Eileen
'Mhen amser daeth dirywiad
'Rhen gwsmeriaid ddim yn dwad
A mabwysiadwyd cynllun newydd
Ei gwneud yn siop pawb helpu ei hun
A helpu ei hun yn hael bu llawer
Heb feddwl talu wrth y cownter
Er hyn ni fu yn llwyddiant
A methiant fu yr ymdrech
A'r newydd drwg yn awr a glywn
Ei bod yn cau ddydd Sadwrn.
Drigolion Deiniolen a'r cylch
Pa beth sydd yn cyfri am hyn?
Cau siopa'r pentre, a'r rhen Gapel Wesla
A nawr Coparet y siop fwy
Cynigiau i chwi rai rhesymau
Sy'n wir ac nid celwyddau:
Newid patrwm byw yr ardal,
Hen aelodau wedi'n gadael
Am rai newydd sy'n anwadal
A ffaith arall rhaid ei hentro
Prynu'r cwbl bron yn "Tesco"
Cofiwedd hediw ar ei derfyn
Y rhai fu'n ffyddlon it o'r cychwyn
Ac o barch fe goda'm het
Mewn chwithdod mawr am Coparet.

(Hen Aelod)

DIOLCH - Dymuna Mrs Kate Hughes, 1 Rhes Victoria ddatgan ei diolchgarwch llwyr i'r cymdeigion fu mor garedig wrthi yn ystod y tywydd mawr ym mis Ionawr. Mae'n gwerthfawrogi'r caredigrwydd yn fawr iawn. Diolch yn fawr.

Dymuna Carys Williams, Tŷ Capel Disgwyllfa ddiolch o galon i bawb am yr holl gardiau, anrhegion ac arian a dderbyniodd hi ar achlysur ei phen-blwydd yn 21 oed yn ddiweddar.

Diolch yn fawr i bawb.

MARW - Drwg oedd gennym glywed am farwolaeth un o fandwyr hynaf y pentref, sef Mr W.M. Hughes, Rhiwen. Bu Mr Hughes yn arweinydd y seindorf am gyfnod hir ddechrau'r rhyfel byd cyntaf a chadwdd ei ddiddordeb ar hyd ei oes. Cyfansoddodd lawer o gerddoriaeth i'r Seindorf. Bu dwy ymdeithgan sef Elidir a Devils Kitchen yn enwog i fandwyr drwy wledydd Prydain. Pan oedd y Seindorf yn ymarfer ar y nos lau ddilynol chwaraewyd yr ymdeithgan Elidir er cof amdano. Mae pwyllgor y Seindorf yn anfon eu cydymdeimlad llwyr i'r teulu.

SEINDORF - Nos Lun Chwefror 1 cynhaliwyd Cyfarfod Blynnyddol y Seindorf. Yn y gadair oedd Mr Gwyn Parry, Bro Dawel. Cafwyd cynulliad da iawn. Agorwyd y cyfarfod drwy ddarlenn y fantolen am y flwyddyn aeth heibio. Penderfynwyd hefyd i gario ymlaen â'r Clwb '200'. Y swyddogion am y flwyddyn nesaf yw: Cadeirydd, Mr Gwyn Parry, Bro Dawel; Ysgrifennydd, Mr M. Jones, Minafon, Clwt-y-bont; Trysorydd, Mr H.G. Jones; Llyfrgellydd, Mr Caradog Thomas; Gofalwr, Mr Thomas Williams, 30 Pentre Helen.

Llongyfarchiadau hefyd i rai o aelodau'r Seindorf ar ennill y wobr gyntaf hefo 'Côr Crib' yn eisteddfod ffug Eco'r Wyddfa.

Enillwyr Clwb 200 y Seindorf - 1: £25, Mr M. Jones, Minafon, Clwt-y-bont; 2: £15, Mr R.O. Williams, Arfon House, 3: £5, Mr W.G. Morris, Tŷ Oer, Clwt-y-bont.

Bydd y Seindorf yn teithio i Preston Mawrth 21 i gystadlu mewn Cystadleuaeth Rhanbarth Gogledd Lloegr. Os yn llwyddiannus byddant yn mynd i Lundain ym mis Rhagfyr. Pob lwc iddynt.

PROFEDIGAETH - Drwg iawn oedd gennym, fel aelodau yng nghapel Ebenezer, glywed am y brofedigaeth a ddaeth i ran ein gweindog, sef y Parch Trevor Lewis, Llys Myfyr. Collodd ei dad ychydig ddyddiau yn ôl. Derbynnied ef a'r teulu ein cydymdeimlad llwyr i'r eu profedigaeth.

BECHGYN PERYGLUS DEINIOLEN



JUDO - Llongyfarchiadau i ddau fachgen ifanc o'r ardal ar ddod yn llwyddiannus mewn cystadleuaeth Judo ym Mae Colwyn cyn y Nadolig. Mae Alun Wyn Evans, 5 Tai Gweledfa, wedi graddio i 2il Mon ac hefyd 4ydd Mon. Mae wedi ennill Medal Arian am un o'r cystadlaethau a Belt Melyn a thystysgrif am y llall. Hefyd daeth Terry Wyn Evans, 32 New Street yn 2il o dan 12 allan o amryw o gystadleuwyr. Cafodd

yntau hefyd y Belt Melyn a thystysgrif yn ei glwb, 'Bushido' ym Mangor. Byddant yn cystadlu eto yn Wrecsam ym mis Mawrth. Dymunwn bob llwyddiant iddynt yn y dyfodol. Maent yn dod â chlod i'r ardal yn barod a da o beth yw gweld bechgyn ifainc yn cymryd diddordeb yn y math yma o beth. Pwy a wŷr nad ânt ymlaen rhyw ddiwrnod i ymgeisio yn y Mabolgampau.



CWMNI DRAMA CAPEL EBENEZER - Dyma ddarlun o Gwmni Drama Ebenezer a fu'n llwyfannu dramâu lawer gwaith. Y Ddrama hon oedd Cwpan Llwenydd a Mr Ellis Hughes yn hyfforddwr i ni. Y lle olaf i ni ei llwyfannu oedd ym Mhwlheli. Dyma enwau'r cwmni. Rhes Uchaf: Mrs Jennie Thomas, Deiniol Road, hi fyddai'n ein 'promptio' ni; ein hyfforddwr, Mr Ellis Hughes; Robert Rowlands, 12 Pentre Helen, gofalwr y llwyfan a'r goleuadau; Mr Richard Thomas, 2 Bro Helen; Mr W. Iolen Hughes; Ysgolfeistr Rhiwlas ('nawr wedi ymddeol'); Mr Alun Wyn Evans,

55 Pentre Helen. Rhes Flaen: Mr William H. Williams, Tŷ Capel Ebenezer; Mrs Nancy Rowlands, 12 Pentre Helen; Mrs Annie Jones, Tai Capel; Mrs W.H. Williams, 2 Y Bwthyn; Mrs Megan Jones yn arfer byw ym Maes Gwylfa; Mrs Brenda Roberts, oedd yn byw yn Hafod Olau; a Mr Edward John Williams, 'nawr yn byw yn y Felinheli. Cawsom amser difyr iawn yn llwyfannu'r dramâu. Tynnwyd y llun yma ar lwyfan festri Ebenezer yn y flwyddyn 1951. Y llun trwy garedigrwydd Mrs Nancy Rowlands, 12 Pentre Helen.

LLONGYFARCHIADAU i Mrs Eirlys Williams, 3 Pentre Helen, ar ennill y wobr gyntaf yn Ffug-Eisteddfod Yr Eco, am ysgrifennu llythyr Cwyno. Mae amryw eraill wedi ennill o'r pentref, ond byddant i gyd yn dod o dan hanes Ffug-Eisteddfod yr Eco.

EBENESER - Gwahoddir chwi i Festri Ebenezer, nos Wener nesaf, Chwefror 26 i fwynhau noson o ganeuon a sgetsus gyda neges Gristnogol. Bydd cyfle i bawb ymuno yn yr addoli. Trefnir y cyfarfod gan nifer o bobl ifainc o Wynedd sy'n teimlo'r alwad i rannu eu ffydd Gristnogol gydag eraill. Dewch i lawenhau yn yr Arglwydd. Croeso i blant hŷn, pobl ifainc ac oedolion. Y Sadwrn canlynol Chwefror 27, cynhelir bore coffi yn Festri Ebenezer rhwng 10.30 a 12.30am ac estynnir croeso i bawb i alw i mewn am banded.

DIOLCH - Dymuna'r Parch a Mrs Trevor Lewis a Mrs E. Lewis, Caergybi, ddiolch i gyfeillion Deiniolen a'r cylch am bob mynegiant o gydymdeimlad a ddangoswyd iddynt yn eu profedigaeth. Hefyd am bob rhodd

ariannol tuag at gapel Bethphage, Llaingoch, Caergybi.

Dymuna Mrs W.M. Hughes, Rhiwen ddiolch i'w theulu,

Wavell Roberts CIGYDD

LONDON HOUSE
LLANRUG

Ffôn: Caernarfon 3574
PEN CIGYDD Y FRO!

Yr ŵyn lleol mwyaf
blasus

Selsig cartref, cigoedd
parod i'w bwyta
Archebion ar gyfer
y rhewgist

MYNNWCH Y GORAU
A DEWCH ATOM NI!

DEINIOLLEN (Parhad)


cymdogion a ffrindiau am yr holl gardiau a dderbyniodd mewn cydymdeimlad â hi yn ei phrofedigaeth o golli ei hannwyl briod. Diolch i bawb am eu geiriau caredig.

Dymuna Mrs Nellie Jones, 10 Caradog Place ddiolch i'w ffrindiau a'i chymdogion am bob arwydd o garedigrwydd a dderbyniodd ar ôl colli ei hunig frawd, sef Mr W.M. Hughes. Diolch hefyd am y cardiau a dderbyniodd.



Darlun o hogia'r RAC yn amser y Rhyfel. Os oes rhywun yn adnabod rhai yn y llun Byddwn yn falch o gael clywed. Y llun wedi ei roi gan Mrs W.M. Hughes, Rhiwen.

TEYRNGED Y SEINDORF I'R DIWEDDAR Mr W.M. HUGHES, RHIWEN



Mae'r Eco'n ddiolchgar i aelodau Seindorf, Deiniolen am y llun uchod o seindorf 1914, gyda'r arweinydd, Mr W.M. Hughes, yn eistedd yn y canol. Mae'r llun yn ymddangos yn y rhifyn hwn fel teyrnged i'r diweddard Mr W.M. Hughes.




GWIN CARTREF

Gwin mis Mawrth
- Sudd y Fedwen

Peidiwch â disgwyl dod o hyd i ryw beth tebyg i hwn ar silffoedd Boots! Methiant fu fymgais i beth bynnag i gael ei gyffelyb mewn tun. Nid dyna'r ffordd i wneud gwin beth bynnag medda chwitha. Ble mae'r sialens mewn agor tun? Beth am y wefr o greu? Wel, daliwch eich gafael ta, dyma un i'r rhai brwdfrydig yn unig. Caiff y rhai diog yn eich plith roi'r gorau i ddarllen rwan!

Ychydig o'i hanes i ddechrau. Gwin sy'n hanu o ardal Môr y Baltig ydyw ac yn ôl pob sôn roedd yn ddiod poblogaidd yn Rwsia yn ystod y ganrif ddiwethaf. Ar adegau, dinistriwyd fforestydd cyfain o goed bedw gan mor awyddus oedd y werin i'w tapio! Nid yw colli tua galwyn o sudd yn y gwanwyn (y bythefnos gyntaf ym mis Mawrth yw'r amser gorau) yn debygol o niweidio unrhyw goeden. Serch hynny, rhaid cofio rhoi plwg pren yn y twll ac yna gellir ei ddefnyddio'r flwyddyn nesa'. Dyma'r prif bwyntiau i'w cadw mewn cof:

1. Ni ddylid tapio coeden ifanc iawn - rhaid i'r bôn fod yn naw modfedd o leiaf mewn diamedr.
2. Dylid tyllu ond yn ddigon pell i'r tap neu'r tiwb fod yn gadarn yn ei



Y dull o dapio'r goeden

le (tyllwch ychydig yn bellach na thu mewn y rhisgl).

3. Peidiwch â chymryd mwy na galwyn o sudd.
4. Rhowch blwg pren yn y twll ar ôl tapio digon o sudd.


Y BROSES

Torrwch dwll gyda bres a bit o'r un diamedr â'r tap neu'r tiwb, i fôn y goeden. Dylai'r twll oleddfu at i lawr fel bo'r sudd yn rhedeg yn rhwyddach. Gosodwch y tiwb yn y twll.

Ym mis Mawrth pan fo'r sudd yn codi gellir tynnu tua galwyn o'r hylif mewn tridiau.

DEFNYDDIAU


- 1 galwyn o sudd bedwen
- 2 lemwn
- 1 oren melys
- 1lb rhesin neu ½ peint o



ddwysfwyd (gwyn)
3 lb siwgr
1 oren Seville
Borum a maethydd

DULL

Piliwch yr orennau a'r lemwn a berwi'r croen, heb y mwydion yn y sudd am 20 munud. Ar ôl hyn ychwanegwch ddigon o ddŵr i wneud galwyn ac yna tywalltwch y cyfan i grochan neu bot pridd yn cynnwys y siwgr a'r rhesin wedi'u malu. Trowch y cymysgedd hyd nes



bo'r siwgr wedi toddi; pan fo'r gwirod wedi oeri i 70°F (21°C) gellir ychwanegu sudd y ffrwythau a'r burum. Rhowch liain trwchus dros wyneb y pot pridd a rhowch o mewn lle cynnes hyd nes bo'r gwirod wedi gorffen gweithio. Wedyn gellir ei hidlo i botel weithio a gosod aerglo. Gadewch am chwe mis, yna gellir defnyddio siffon i botelu. Defnyddiwch boteli cryf; rhaid clymu'r cyrc yn gadarn. Storiwch y poteli ar eu hochrau a gadewch am chwe mis arall cyn profi'r gwin.

Yn yr un dull gellir gwneud gwin o sudd sycarmorwydden a chollen Ffrengig (walnut). Wrth ddefnyddio un pwys o siwgr gellir cynhyrchu cwrw da iawn.

EISTEDDFOD GADEIRIOL DYFFRYN CONWY LLANRWST MEHEFIN 1982

Cynhelir

CYSTADLEUAETH NOSON LAWEN

ym Mhabell yr Eisteddfod Uchod
NOS WENER, MEHEFIN 18 1982

am 7 o'r gloch

Beirniad: y Parch HARRI PARRI, CAERNARFON

Enwau i mewn erbyn Mawrth 27, 1982

GWOBRAU: £100, £75, £50, £25

Ceir manylion gan yr ysgrifennydd:

Mr D. Jones, Gwylfa, Poplar Grove, Llanrwst, Gwynedd.
Ffôn 640879

Hefyd cofiwch am

EISTEDDFOD GADEIRIOL DYFFRYN CONWY LLANRWST

Dydd Sadwrn, Mehefin 19, 1982

Barddoniaeth

Cerdd Gaeth neu Rydd mewn Mydr ac odl (heb fod dros 120 o linellau). Testun: Llwybrau.

Englyn: Y Bom; Englyn Ysgafn: Amser Brecwast; Telyneg: Dolur; Soned: Afon Gonwy; Chwe Phennill Telyn.

Rhyddiaith

Ysgrif: Yr Allt Goed; Stori Fer: Agored

Ceir manylion gan yr ysgrifennydd

Mr D. Williams, Llys-Owain, Llanrwst, Gwynedd LL26 0DP. Ffôn 640805

CINEMA'R PLAZA, BANGOR MAWRTH 28ain, 1982

CYNGERDD MAWREDDOG

gyda CHARLES WILLIAMS yn cyflwyno . . .

HOGIA'R WYDDFA

TREBOR EDWARDS

MARIAN ROBERTS, Brynsiencyn
GWLITH ac ANNETTE ROBERTS

Drysau'n agored am 7.30 p.m.

Dechreuir yn brydlon am 8

TOCYN: £1.50

ar gael gan aelodau pwyllgor tîm Pêl-droed Llanberis

CWM-Y-GLO

CYDYMDEIMLWN â Mrs Ella Morris, Hafan ar golli ei chwaer, yn Llanrug. Hefyd â Mrs Margaret Williams, Nant Forgan, ar golli ei modryb, Mrs Phyllis S. Roberts, Llanberis.

DYMUNIADAU DA I FRAWD A CHWAER - Mae Meirion, mab Mr a Mrs Idwal Williams, Elidir View, yn treulio hanner blwyddyn yn teithio o amgylch Seland Newydd. Ar wahân i weld y wlad, mae gan Meirion ddiddordeb mawr mewn amaethyddiaeth, ac mae'n manteisio ar y cyfle o gael gweld dulliau gwahanol o amaethu, ac yn arbennig o gneifio defaid.

Taith hapus Meirion.

Dymunwn yn dda hefyd i Eirian, chwaer Meirion, ar gael ei phenodi yn gogyddes gynorthwyol ym Mhlas Hedd, Bangor.

DYWEDDIAD - Cyhoeddir dyweddïad Alwyn, mab Mr a Mrs M. Hughes, 2 Bryn Gro ag Ann, merch Mr a Mrs N. Thomas, Rhos y Dre, Aberteifi, Dyfed.

UNDEB Y MAMAU - Bu cyfarfod o aelodau Undeb y Mamau yn y Ganolfan, nos Fawrth 9 Chwefror. Y Rheithor oedd yn arwain y gwasanaeth agoriadol a chyfeiliwyd gan Miss Ceridwen Hughes, Pool Street. Y gŵr gwadd oedd Mr Griff Roberts, Tŷ Gwyn, Llanrug a dangosodd nifer fawr o sleidiau lliwgar a dynnwyd ganddo o olygfeydd yng Nghymru, Lloegr a'r Alban a chafwyd noson bleserus iawn. Y gwestwragedd oedd Mrs T. Roberts, Bod Gwynedd a Mrs N. West, Craig y Don. Diolchwyd i'r gŵr gwadd gan Mrs D. Jones, Fron Gader ac i'r gwestwragedd gan Mrs Orritt, Morannedd. Diweddwyd drwy adrodd y Gras.

MARWOLAETHAU

Edward Morris Pritchard. Yn ystod 1981, collwyd llawer o'n cyfeillion yn y Cwm, a ffarweliodd yr hen flwyddyn â ni gyda'r newydd trist am farwolaeth 'Ted' Pritchard ar Ragfyr 20, yn 61 oed. Collodd ei rieni pan yn ifanc, ond yng ngofal ei chwiorydd, tyfodd i fyny yn ŵr ieuanc hoffus a gweithgar yn achos Capel MC. Ymunodd â'r Gwarchodlu Cymreig tua dechrau Rhyfel '39-45, ond oherwydd anffawd, newidiwyd cwrs ei fywyd, a bu'n gweithio yn Swyddfeydd y Llu Awyr yn Llanberis. Oherwydd gofynion ei waith, rhaid fu iddo ef a'i briod ymgartrefu yn Lloegr, wedi'r rhyfel, ond ni chollodd ei gariad at ei fro, a deuai draw i'r hen ardal bob cyfle a gâi. Bydd melys atgof amdano, a chwithdod o feddwl i ni ei golli mor gynnar. Derbyniad ei wedd, a'i blant, a'r teulu i gyd, gydymdeimlad dwfn pobl y Cwm.

Mrs Jennie Evans. Tua'r un adeg, bu farw Mrs Jennie Evans, yr olaf o dri phlentyn Mr a Mrs Evan Williams, Bryn Afon (fferm y Bwlch yn ddiweddarach). Athrawes wrth ei galwedigaeth, ym Mhen Bedw am flynyddoedd, yna ymddeol i Argoed, Rhosbodrual. Wedi colli ei phriod, ac yn wir, ei hiechyd, daeth i Blas Pen Gwaith, lle cymerai ddiddordeb ym mhopath. Ymddiddorai mewn hanes lleol, a chafwyd llawer cyfraniad ganddi i'r Eco. Cydymdeimlwn â'i hunig fab a'i deulu, a hefyd ei thair nith a'u teuluoedd, sef Enid a Chris Hoffman o'r Isalmaen, Sylvia ac Eirwyn Williams, Llwyncoed, a Mary Wyn a Gareth Phillips Llundain, a'r holl gysylltiadau teuluol.

Mr Cemlyn Jones. Mae bron yn amhosibl cael geiriau addas i ddatgan cydymdeimlad y pentrefwyr â Mr a Mrs Gwilym Jones, Rhiwbeina, Caerdydd, ar achlysur y brofedigaeth arswydus a ddaeth i'w rhan yn ddiweddar. Collasant eu hunig fab, Cemlyn, yn 25ain oed,

mewn damwain yn Nulyn, pan aeth i wyllo'r gêm rygbi ryngwladol. I ni yn y Cwm, Margaret, Ashley House, merch Mrs Gwladys Williams, a'r diweddar Owen Williams, yw Mrs Jones, ac mae ein gofid dros y ddau a Mrs Williams, ac â'r teulu i gyd, tu draw i fynegiant. Hyderwn y cânt nerth i gario'r groes aruthrol o drom, a ddaeth i'w rhan.

MARW - Bu farw Mrs Mary Winifred Chick, Mairlys yn Ysbyty Môn ac Arfon, Bangor brynhawn Sul Chwefror 14. Brodor ydoedd o Benisarwaun ond bu'n cartrefu yng Nghwm-y-glo am rai blynyddoedd. Gweddwyd ydoedd i Mr John Martin Chick a fu am flynyddoedd yn gyrru fen y becws o amgylch yr ardal, a chofir amdani hithau hefyd yn gweithio yn y becws. Yr oedd yn wraig dalentog dros ben ac yn hanu o dras talentog. Brawd iddi oedd y diweddar Huw Lloyd Edwards, y dramodydd enwog ac fe etifeddodd hithau yn helaeth o ddawn y teulu. Yr oedd yn benigamp am wneud brodwaith a gwnâi ddarluniau prydfert h o frodwaith. Gallai wneud pob math o deganau meddal a gallai wneud gwaith crosio gyda'r gorau yn y wlad. Yr oedd yn gerddor gwych a rhoes yn hael o'i dawn i ddysgu plant yr Ysgol Sul yn Eglwys Sant Gabriel yng nghwmni ei chwaer Mrs J.E. Watkins, Dolwen. Byddai bob amser yn barod i lenwi bwlch pan fyddai un o'r organyddion yn methu â bod yn bresennol. Yr oedd yn wraig siriol a charedig bob amser ac yn llawn o hiwmor iach a gallai dynnu coes yn ddiidrugaredd. Bu'n fam ac yn nain benigamp ac yn Gristion o'r iawn ryw ac yn mwynhau bywyd hyd yr eithaf nes i'r Athritis ei lluddias. Bu'n aelod ffyddlon o Eglwys Sant Gabriel a mynychodd y gwasanaethau hyd yr wythnos o flaen y Nadolig pryd y cadd driniaeth lawfeddygol fawr yn Ysbyty Môn ac Arfon. Cadd ddod adref am gyfnod ond bu'n rhaid ei chipio yno drachefn ychydig ddyddiau cyn ei marw. Cadd bob caredigrwydd gan ei theulu a buont yn hynod o ofalus ohoni. Gwelir ei cholli ar ei haelwyd, yn yr ardal ac yn yr Eglwys. Bu ei hangladd fore dydd Mercher Chwefror 17. Gwasanaethwyd yn y cartref, yn Eglwys Sant Mihangel, Llanrug ac ar lan y bedd gan y Rheithor. Yn ôl ei dymuniad angladd hollol breifat ydoedd oherwydd gwraig yn caru'r encilion ydoedd a phob amser yn casáu ffwdan a ffys. Cydymdeimlwn â Mr a Mrs W. Chick a John, mab, merch yng nghyfraith ac ŵyr ac â'i chwiorydd a'r teulu oll yn eu galar a'u hiraeth. Boed i'w henaidd drwy drugaredd Duw orffwys mewn tangnefedd a llewyrched goleuni gwastadol arni.

PENBLETH DDWBL

Onid ydym tu hwnt o glyfar! Ein bwriad oedd rhoi'r ateb i chwi yn ein rhifyn diwethaf. Beth gawsoch? Yr un broblem unwaith eto!

Dyma'r ateb y tro hwn:

8	9	5	12
2	15	3	14
11	6	10	7
13	4	16	1

Mae pob llinell ar draws, i lawr, neu o gongl i gongl yn rhoi'r un cyfanswm. Defnyddiwyd y rhifau o 1 i 16 unwaith yn unig.

DIM RAS NOFIO?

Ar 24 Gorffennaf, wythnos ar ôl Ras yr Wyddfa, gobeithir cynnal yr ail Ras Nofio ar Lyn Padarn fel rhan o weithgareddau'r Carnifal. Bu'r ras Nofio y llynedd yn llwyddiant ysgubol ond os na cheir enwau gwirfoddolwyr ar gyfer stiwardio, gwaith achub ac ati ar fyrder bydd

raid i'r trefnydd Bryn Parry roi'r ffidil yn y to.

Buasai hyn yn drueni mawr oherwydd eisoes mae cystadleuwyr byd enwog wedi gaddo cymryd rhan. Os am helpu cysyllter â Bryn Parry, 74 Stryd Fawr, Llanberis.

A oes gennych HEN GARDIAU POST i'w gwerthu?
Os oes cysylltwch â

Gweneirys Jones
Cartrefle
Waunfawr
Ffôn: Waunfawr 371

Newydd Sbon! Gweithdy Crefftau



SIOP AMAN Stryd Fawr

DEINIOLEN Ffôn: Padarn 2010

Crefftwaith llechi, anrhegion
a chofroddion lleol.

Wrth droed yr Wyddfa . . .



BWYTY FFERM
BRON ERYRI
LLANBERIS Ffôn 391

Perchnogion: Mr a Mrs AW Hughes

TAI MWD YNG NGWYNEDD

Mae pawb, 'rwy'n siŵr, wedi sôn rywbryd am y newidiadau sydd yn amlwg yn ein cefn gwlad a'n pentrefi mewn mater o ychydig flynyddoedd, a rhan o waith Amgueddfa Werin Cymru yn Sain Ffagan yw cofnodi'r 'pethau' yma - dulliau o amaethu, hen grefftau, caneuon ac arferion er enghraifft - cyn iddynt ddiflannu neu fynd o'r cof.

Mae'r Adran Adeiladau bellach wedi cychwyn ar astudiaeth o dai â waliau o fwd yng Nghymru. Dyna fath o adeilad a oedd yn gyffredin iawn tua chanrif yn ôl, ond sydd bellach bron â diflannu'n llwyr.

Mae'r dull o adeiladu â phridd neu fwd yn un o'r dulliau mwyaf hynafol o godi adeilad, ac er bod tuedd i feddwl am bridd fel rhywbeth dros dro, mae'n syndod pa mor gryf a pharhaol y mae'n gallu bod.

I godi adeilad o fwd, rhaid oedd paratoi cymysgaeth o glai, gwellt a cherrig mân, a'i sathru. Yna ei osod rhyw chwech i naw modfedd o uchder ar y tro i ffurfio'r waliau. Yr oedd y rhain o ddwy i dair troedfedd o drwch ar y gwaelod ac yn lleihau fel yr oedd y wal yn codi. Yna aros am tua wythnos i'r mwd gael sychu cyn gosod y cwrs nesaf ar ei ben - ac yna ymlaen hyd nes cyrraedd yr uchder terfynol. Fe fyddai'r bylchau ar gyfer y ffenestri a'r drws yn cael eu torri yn fuan wedi gorffen y waliau, ac hefyd yr oedd yn arferol i "sgwaru'r" waliau â rhaw unwaith yr oeddynt wedi cael cyfle i sychu.

Ceir gwahaniaethau bach o ardal i ardal yn y dulliau o baratoi ac adeiladu â mwd, yn arbennig efallai yng nghynnwys y gymysgaeth. Yn Llŷn, er enghraifft, mae'r rhan fwyaf o'r bythynnod tua 25' x 12' o ran maint, ac wedi eu hadeiladu â waliau tua 2' o drwch ar sail o gerrig. Defnyddiwyd clai lleol i wneud y gymysgedd, wedi ei gymysgu â gwellt, a'r cyfan wedi'i sathru dan draed ceffylau neu wartheg cyn cael ei osod mewn cyrsiau i greu'r waliau.

Ym 1965 gwnaethpwyd astudiaeth fanwl o ardal Rhoshirwaun, Llŷn, gan aelodau o staff Amgueddfa Werin Cymru a nodwyd y pryd hynny bod llawer o'r adeiladau mwd yma yn dal ar eu traed. Diddorol oedd darganfod un tŷ gyda wal o dywyrch, dull o adeiladu y sonnir amdano mewn llenyddiaeth ond sydd wedi goroesi mewn ychydig enghreifftiau yn unig.

Wedi codi'r tŷ yr oedd yn rhaid ei amddiffyn rhag y tywydd, ac yn arferol gwneid hyn drwy osod haen o blastr, a hwn y rhan amlaf, wedi ei wyngalchu. Fe fyddai'r to bron bob amser wedi'i droi â gwellt, hesg neu frwyn.

I bob pwrpas, byddai bwthyn o fwd yn edrych yr un fath o'r tu allan â bwthyn o gerrig, ac yn aml, dim ond pryd y disgynnai'r to neu rhyw ddarn o blastr o'r wal y gellir darganfod mai mwd oedd y prif ddeunydd.

Sonnir am dai mwd ym mro Eifionydd yn yr 1890au (er enghraifft Abererch ym 1893), ac hefyd ger Bangor yn nechrau'r 19fed ganrif. Tybed faint o'r rhain sy'n dal i sefyll heddiw, o gofio mai dyma o bosib y dull mwyaf cyffredin o adeiladu yng ngorllewin Cymru hyd at ryw ganrif yn ôl? Os gwyddoch am enghreifftiau o unrhyw fath o adeilad â waliau o fwd, fe fyddwn yn ddiolchgar iawn am gael clywed y manylion.

Y cyfan yr hoffem i chwi ei wneud yw nodi enw a lleoliad yr adeiladau naill ai trwy ddefnyddio map "Ordnance Survey" neu trwy ddisgrifio eu lleoliad yn ofalus. Fe fydd disgrifiad o'r adeilad, yn cynnwys o bosibl ei gyflwr a'i ddefnydd gynt yn ddefnyddiol iawn i ni.

Yn olaf, os oes gennych atgofion neu wybodaeth am y grefft o baratoi'r mwd, neu adeiladu ag ef, neu rhyw ddull arall o ddefnyddio pridd at godi adeiladau (fel tywyrch efallai), byddem yn hynod ddiolchgar o gael clywed oddi wrthyh.

Y cyfeiriad i ysgrifennu ato yw:

**Yr Adran Adeiladau,
Amgueddfa Werin Cymru,
Sain Ffagan,
Caerdydd,
CF5 6XB.**

DRAENOG



Mae gwersi hanes yn Ysgol Brynrefail yn llawer mwy diddorol y dyddiau hyn - mae'r plant yn cael teithio i'r ysgol ar hyd hen ffordd drol - honno rhwng y Sefydliad Coffa a'r ysgol. 'Does yr un car yn mentro arni oherwydd yr holl dyllau.

Ysgol Foduro Arfon



Hyfforddwr Profiadol
Gwasanaeth o Ddrws i
Ddrws.

Pris Rhesymol

Taccis K.T.

Cludwyr ymhell ac agos
Gwasanaeth 24 awr
Ffôn: Caernarfon 76105



ATGOFION

(Cyfres o ysgrifau byrion gan
Goronwy O. Jones, Caerffynnon,
Penisa'rwaun)

'Rwyf yn cofio'r streic lo ym 1926. 'Doedd dim byd yn symud ar y rheilffordd ac 'roedd y cledrau wedi mynd yn goch. Yr unig beth oedd ar gael fel tanwydd wrth gwrs oedd coed. Fel mae'n digwydd bod, 'roedd fy nhad yn ffrindiau mawr efo Mr Griffiths, Fferm Perfeddgoed. Roedd Mr Griffiths yn dal llawer o dir, ac 'roedd o wedi prynu coed hefyd. Gweithiodd fy nhad efo fo am gyfnod. Arferai 'nhad fynd yno ar ddydd Sadwrn a gofyn i Mr Griffiths am goed tân. Yn aml caniatodd i nhad lifio coeden i lawr, a'i thorri hi'n ddarnau. Wedyn byddai'n cael ceffyl a throl y ffermwr i gludo'r coed adref.

Roedd pawb yn gorfod helpu - fy mrodyr Dafydd, Rolant, Glyn a minnau. Rhaid oedd dadlwytho'r coed wrth y gŷ. Wedyn tra 'roedd ein tad yn mynd â'r ceffyl a throl yn ôl i'r fferm, ein gwaith ninnau oedd torri'r darnau i fyny efo llif-draws. Roeddem yn gorfod gweithio'n galed, a byddai 'nhad yn gwybod yn iawn sut waith oedd wedi cael ei wneud yn ei absenoldeb. Eto, o edrych yn ôl, 'roedd pob un ohonom wrth ein bodd yn gweithio'n galed fel hyn yn hytrach na chwarae.

'Roedd gardd fawr gan fy nhad, a'i hyd yn debyg i hyd y teras o dai lle 'roedd ein cartref ni, a'i lled tua'r un peth. Ein gwaith ni, yr hogiau, oedd ei thrin hi, a helpu efo'r tatws a'r llysiau eraill. Roedd pawb yn gorfod gweithio. Arferai 'nhad ddewis Dydd Gwener y Groglith fel yr adeg i blannu'r tatws, rwdins, ac yn y blaen. 'Roedd y cwbl i fod i lawr erbyn y nos Sadwrn.

Gan fod pawb yn gweithio, 'roedd y gwaith o balu'r ardd wedi'i orffen

heb fawr o helynt, er bod y gwaith yn galed a ninnau'n gorfod gweithio gyda'r nos, ac yn ystod y dydd i gael pethau'n barod i blannu ar y dydd Gwener.

Gorchwyl un ohonom wedyn oedd cael llwyth o dail o fferm Dewyth Goronwy (brawd fy nhad). Wedyn, 'roedd y rhai hŷn yn cario'r tail i'r rhesi efo berfa, a'r rhai lleiaf yn rhoi'r tatws i lawr. 'Roedd fy nhad, wedyn, yn cau'r rhesi. Yn ogystal â thatws 'roedd fy nhad yn hau rwdins, ffa, a phys. Ein gwaith ninnau oedd eu priddo.

Cofiaf tua 1930, roedd yr ardd, am ryw reswm, heb ei phalu am dymor. Aeth fy nhad i lawr i fferm y Nant i gael y ceffyl, llwyth o dail ar y drol, a gwŷdd. Ar ôl cyrraedd adref dyma fo'n bachu'r ceffyl yn y gwŷdd ac yn dechrau aredig yr ardd oherwydd 'roedd hi'n ddigon mawr. 'Roedd llwybrau fel ffordd drol rhwng y lleiniau, a'r ceffyl yn mynd i'r dalar ym mhob pen. Wedyn dyma 'nhad yn cael syniad arall, ac yn rhwymo rhaw i ochr arall styllen y gwŷdd ac yn agor rhesi. 'Roedd yn rhaid i ninnau fynd ar ei ôl efo tail mewn berfa, un ohonom yn chwalo'r tail, ac un arall yn rhoi'r tatws i lawr. Erbyn y pwnn 'roedd pob dim wedi'i wneud.

'Rwyf yn cofio hen gymydog i ni, Tom Jones oedd ei enw. Hen longwr oedd Tom Jones. O flwyddyn i flwyddyn mi wnaeth ei orau glas i fod y cyntaf i orffen ei waith yn yr ardd. Wel y flwyddyn honno mi ddaeth allan efo'i gribin a'i raw, ac mi welodd ein gardd ni wedi'i gorffen, ac yntau efo traean o'i ardd o heb ei gwneud. Sôn am fynd! Mi weithiodd heb ddweud gair nes bod y chwys yn disgyn o'i wyneb, nes i ninnau, yn y diwedd, dosturio a mynd i'w helpu i orffen y gwaith.

W.J. GRIFFITH

PLYMAR
A GOSODWR
GWRES CANOLOG
PANT TIRION, LLANRUG
Ffôn: Caernarfon 3248


GOSODWR SWYDDOGOL
SYSTEMAU
GWRESOGI OLEW
GWRES BP



Aelod o'r National
Association of
Plumbing and Mech-
anical Services
Contractors.

Dim un dasg rhy fychan,
Dim un dasg rhy fawr..

BILL ac EILEEN GRIFFITHS



**Antiques
Ivy Cottage
BETHEL**

Ffôn:

Y FELINHELI 670556

PRYNWYR A GWERTHWYR HEN BETHAU

Telir prisiau da
Trafodir busnes yn gwbl breifat a chyfrinachol

PENISARWAUN

DIOLCH – Dymuna Gwynfor a Jean, 6 Bryn Eglwys, ddiolch yn fawr iawn am bob caredigrwydd a ddangoswyd tuag at Llion, pan oedd yn sâl yn yr ysbyty, ac yn arbennig i athrawon a phlant Ysgol Tanycoed.

DIOLCH – Dymuna Margaret June a Mansour ddiolch yn fawr am yr anrhegion a dderbyniasant ar achlysur eu priodas.

Dymuna Olaf Cai a Lyn Larsen ddiolch o galon i bawb am y caredigrwydd a'r dymuniadau da a dderbyniasant ar achlysur eu priodas yn ddiweddar.

CLWB YR HEULWEN – Bydd y Clwb yn ail-ddechrau ar Fawrth 16. Croeso i aelodau newydd.

DIOLCH – Dymuna Irfon Hughes, Cae Howel a Heddwyn Jones, Bethel ddiolch am yr anrhegion a dderbyniasant ar achlysur eu dyweddiad.

NEWYDDION DA – Mae ei Ras, Archesgob Cymru wedi cyhoeddi bod y Parch Aled Edwards, Glan Ogwen, Bethesda wedi'i benodi i fywoliaeth Eglwys Penisa'rwaun a Llandinorwig. Bydd Mr Edwards yn cael ei sefydlu ar Ebrill 30 yn Eglwys Llandinorwig. Bydd yn byw yn Fanwylen, Glasgoed.

DYMUNIADAU DA – I Ffion Parry ar gyrraedd ei deunaw oed.

LLONGYFARCHWN – Anita, Springfield, ar ei llwyddiant mewn arholiad piano. Hefyd i Alun Mowll, 19 Bryntirion, ar ennill 2 dlws eto gyda'i karate.

DYMUNWN – Bob hapusrwydd i William a Jean Jones ar eu priodas yn ddiweddar.

GWAELEDD – Da yw gweld Eurgain Roberts, 10 Bryntirion gartref o'r ysbyty ar ôl ei llawdriniaeth. Dymunwn yn dda i William J. Jones,

Cae Corniog, sydd yn yr ysbyty. Mae Mrs Gladys Thomas, 2 Madog Teras hefyd yn yr ysbyty. Fe gafodd Miss L. Jones, Craig y Dinas ddamwain yn ddiweddar. Nid ydyw Mrs Hugh Roberts, Pen-y-Gaer yn dda iawn chwaith. Mae Mrs Katie Jones, 9 Bryntirion gartref o'r ysbyty erbyn hyn. Dymunwn adferiad llwyr a buan iddynt oll.

CYDYMDEIMLWN – Â Mr Trevor Rowlands a'r teulu oll yn eu profedigaeth o golli ewythr yn Lloegr ac hefyd teulu'r ddiweddar Mrs M. Chick, Cwm-y-Glo. Mae Mrs Mathews, Fresh Winds, wedi colli modryb yn Neiniolen a Mr a Mrs Jones, Heather Bank, wedi colli ewythr. Ein cydymdeimlad dwysaf â'r teuluoedd hyn yn eu trallod.

YSGOL TAN Y COED – Bu saith o blant Safon 3, sef Sioned Roberts, Sioned Williams, Eurgain Haf Evans, Naethan Eagles, David Edwards, Berwyn Paterson a Darren Lamb yn treulio penwythnos yng Ngwersyll Glanllyn yn ddiweddar. Buont yn nofio, canwio, rhwyfo a disgotecio yng nghwmni plant o ysgolion eraill yr ardal.

Treuliodd plant Dosbarth y Babanod orig ddifwr yn yr Orsaf-Dân yng Nghaernarfon gan wyllo'r dynion yno yn 'mynd trwy eu pethau'.

Bu tri disgybl, sef Dyfed Wyn Jones, Sioned Williams a Catrin Evans yn ddigon ffodus o gael profiad actio o flaen camerau. Gobeithir eu gweld pan fydd rhaglen Ffilmiau'r Nant ar Thomas Charles o'r Bala yn cael ei dangos ar S4C rhyw ddydd a ddaw.

PROFEDIGAETH – Drwg iawn oedd gennym glywed am farwolaeth tad Mrs Dorothy Lamb, 2 Bryn Eglwys. Ein cydymdeimlad dwysaf â Dot, Mike a'r teulu yn eu colled.

BRYNREFAIL

CLWB Y MAMAU – Yn Nhŷ Glas ar Chwefror 11 cafwyd sgwrs ddiddorol iawn gan Mr M. Hughes, swyddog iechyd amgylchedd o'r Cyngor Sir. Rhoddodd amlinellad o'r problemau a wynebir gan ei adran yn yr ardal. Rhoddwyd y te gan Mrs A. Hasson a Mrs H. Roberts. Rhoddwyd anrheg y mis gan Mrs S. Williams ac fe'i enillwyd gan Mrs C. Houston.

SEFYDLIAD Y MERCHED – Trefnwyd gornest ar sail y rhaglen deledu 'Tri gair bach' gan Carol Houston. Mair Williams a Sheila Williams oedd yr

enillwyr. Rhoddwyd anrheg y mis gan Jennie Hughes ac fe'i enillwyd gan Mrs Griffiths. Rhoddwyd y te gan Pat Jones a Betty Owen.

CLWB PEDWARUGAIN – enillwyr mis lonawr – 1 – 1) Phyllis Jones; 2) Sylvia Williams; 3) Vera Price. 8 – 1) Audrey Roberts; 2) Norma Green; 3) Dafydd Ellis. 15 – 1) Carol Houston; 2) Shirley Roberts; 3) Mrs Hasson. 22 – 1) Jenny Roberts; 2) Mr Mowll; 3) Garry Jones. 29 – 1) Maldwyn Jones; 2) Jackie Jones; 3) Betty Owen.

TAN-Y-COED

COFION – Ein cofion a'n dymuniadau da i ddau o'r cylch a fu'n wael – Mr Jack Williams, Cartref a Rebecca Hughes, Rallt Deg. Mae Rebecca wedi derbyn triniaeth lawfeddygol yn yr ysbyty ym Mangor. Da deall fod Mr Williams a Rebecca yn gwella'n dda.

GLANLLYN – Cafodd Lona Roberts, 4 Tai Minffordd, Amllyn Evans, Carwyn a Wyn Parry, Ael y Bryn amser difyr iawn dros y penwythnos Chwefror 5-7 yng Nglanllyn, canolfan yr Urdd.

CROESO ADRE i Mrs E. Ellis, 3 Tai Bryngwyn. Cyn y Nadolig aeth Mrs Ellis i aros gyda'i mab, Mr Tom Ellis a'i deulu i gylch Nottingham – ei chymdogion yn falch o'i chroesawu yn ôl i'r Bryngwyn.

Croeso hefyd i Mr a Mrs McCann, rhieni Mr W.J. McCann, Rallt a ddaeth i fyw i Preswylfa, Tai Trefor.

LLONGYFARCHIADAU i Margaret E. Roberts, Tainewyddion ar ennill gwobr Cronfa David a Jane Jones am ganlyniadau Lefel O Ysgol Brynrefail Mehefin 1981.

Y GYMDEITHAS – Oherwydd amgylchiadau anorfod cynhaliwyd dau gyfarfod olaf o Gymdeithas Pontrhythallt a'r Cylch yn Nhan-y-coed a threuliwyd dwy noson ddifyr iawn gyda'r Ffestri'n llawn. (Gweler y manylion yng nghlofn Llanrug.)

Anfonwn ein cofion a'n dymuniadau da i Mrs Pitts, Caerweddus sydd yn yr ysbyty ym Mangor ar ôl damwain yn ei chartref. Disgwylir y bydd Mrs Pitts gartref erbyn yr ymddengys y rhifyn hwn o'r Eco. Adferiad buan a llwyr iddi, a chroeso'n ôl i'w chartref a'i bro.

TRAFOD GWAITH EIGRA LEWIS ROBERTS

Ddydd Sadwrn, 3 Ebrill yng ngwesty Plas Maenan ger Llanrwst, cynhelir cwrs undydd, wedi'i drefnu gan bwyllgor rhanbarth Aberconwy o Gyngor Gwlad Gwynedd i drafod gwaith Eigra Lewis Roberts. Mae'r cwrs yn agored i unrhyw un sy'n dymuno'i fynychu. Codir tâl o £5.75 ac mae hyn yn cynnwys lluniaeth a phryd amser cinio.

Am ragor o fanylion cysylltwch â Swyddfa'r Cyngor Gwlad, 2 Cei Llechi, Caernarfon (ffôn 2626)

**CEFNOGWCH
EIN
HYSBYSEBWYR**

NANT PERIS

GENEDIGAETH – Llongyfarchiadau i Glenys a Keith Bingham, Deiniolen ar enedigaeth merch, wyres i Mrs Ann Jones, Maes yr Haul. Pob bendith i'r teulu i'r dyfodol.



Hefina Pritchard, Nia Rhydwen Humphreys a Lyn Griffith yn y gwasanaeth olaf.

YSGOL Y NANT – Wrth glywed cymaint o sôn am gau ysgolion bach y wlad yn ddiweddar dyma lun o'r munudau olaf cyn cau ysgol y Nant tua'r flwyddyn 1963. Mae'r hen ysgol yn awr ar ei newydd wedd yn agored i diwydiant ysgafn a gwaith i rai o'r ardal gobeithir.

DYMUNIADAU DA i Mr a Mrs Roberts a'r plant, 6 Bro Glyder, yn eu cartref newydd yn Llanberis.

BETWS GARMON

MARW – Yn ystod y mis daeth y newydd trist am farwolaeth Mr Norman Hodgson, gŵr tawel, caredig a chymwynasgar. Cydymdeimlir yn fawr â'i weddw, Mrs L. Hodgson, Prestatyn ac â'i ddwy ferch, Brenda, Ystrad Uchaf a Lillian, Cwm-y-glo a'u teuluoedd.

GENI – Llongyfarchiadau i taid a nain, Mr a Mrs H.O. Jones, Tŷ Coch – ganwyd mab i Carol ac Alan, Waunfawr, ar Chwefror 17.

**SETIAU
TELEDU LLIW
AIL LAW
MEWN CYFLWR
RHAGOROL
SIOP TELEDU**

**T
CEPAS**

Ffordd yr Orsaf
LLANRUG
(Ffôn: Llanberis 205
gyda'r nos)

Mynnwch eich
PAENT a PHAPUR PAPURO
oddi wrth

E.WILSON HUGHES
84 Stryd Fawr
LLANBERIS

Ffôn: Llanberis 491

MELYSION A BACO AR WERTH HEFYD

J.M. JONES A'I FAB

GWAITH CERRIG BEDDAU

A THREFNWYR ANGLADDAU

DEINIOLEN

Ffôn: Y FELINHELI 670124

Agor

Ffiniau'r Gorffennol

Gŵyl Dewi Sant yn Llanberis 1826

Yr oedd brwdfrydedd yr hen Gymry uniaith oedd yn byw ym mro Eryri dros gant a hanner o flynyddoedd yn ôl yn anhygoel. Er enghraifft ar Fehefin 17 1825 daeth amryw ynghyd i dŷ John Williams i sefydlu Cymdeithas Gymreig-yddawl dan yr enw 'Cym-reigyddion Nant Padarn'. Dyma enwau'r swyddogion - Llywydd, Jeremiah Williams, goruchwyliwr y gloddfa efydd yn Llanberis; Rhaglaw, Evan Williams, Fachwen; Cofiadur, Evan Evans, Masnachydd; Trysorydd, William Evans, Gwesty Castell Dolbadarn; Bardd, William Edwards (Gwilym Padarn).

Penderfynwyd fod y Gymdeithas i gyfarfod yn nhŷ John Williams, ac i ddathlu Gŵyl Ddewi yno Mawrth 1af 1826.

Fel hyn y bu dathlu Gŵyl Dewi: aeth yr aelodau i Eglwys Llanberis mewn gorymdaith drefnus. Darllenodd Gweinidog y Plwyf y Parch P.B. Williams y gwasanaeth. Pregethodd ar yr adnod gyntaf yn Salm 133. Aeth yr aelodau wedyn i dŷ John Williams am ginio a gwledda.

Ar ôl y cinio eisteddodd John Hughes Fachwen (Llywydd) yn y gadair a chafwyd cyfarfod.

Y llwnc destun oedd "Yr Eglwys a'r Brenin". Darllenodd Gwilym Padarn englynion a gyfansoddodd.

Yn uchel bloeddiwn, "lechydd - i'n Brenin,"

Nes bo'n bryniau hyfryd
Yn ymunaw am ennyd
A ni'n y gwaith hwn i gyd.

Ein Heglwsy burlon hyglod -
llwydded,

A llaw Duw lor uchod
A'u dalio fyth: dylai fod
Yn lân, ac heb eilunod.

Yna cafwyd areithio a chanu. Cyhoeddodd Gwilym Padarn feirniadaeth ar y traethodau a chyhoeddi Prydain ap Aedd Mawr (ffugenw) yn fuddugol. John Hughes y Llywydd oedd hwnnw. Testun y traethawd oedd "Undeb y Cymry a'r Saeson". Griffith Williams Ddolhelig oedd yr ail.

Darllenwyd englyn i Dewi Sant:

Dewi ydoedd ŵr da odiaeth -
haeddaï

Addas goffadwriaeth:
Gwenwyn marwol Morganiaeth
Yn ei oes, ei luddio wnaeth.

(Gwilym Padarn)

Y TAD A'R MAB

Yr oedd William Edwards (Gwilym Padarn) yn byw ym Mheitre Castell, Llanberis ac yn gweithio yn Chwarel Dinorwig. Yr oedd yn lenor a bardd gwych a chafodd barch gan holl feirdd Eryri.

Dechreuodd ei fab Griffith Edwards hefyd weithio yn Chwarel Dinorwig. Daeth i gael ei adnabod fel Gutyn Padarn. Wedi astudio a phasio arholiadau cafodd le yn Rheithor a'i enw wedyn oedd y Parch Griffith Edwards, M.A., Rheithor Llangadfan, Sir Drefaldwyn.

Wedi heneiddio a dioddef cloffni byddai Gwilym Padarn yn methu cerdded adref o'r Chwarel er nad oedd ei gartref ond milltir o bellter

Gan Mary Lloyd Williams, B.E.M.

dros Lyn Peris. Yn y 'tŷ pwyso' yn y bonc yr arhosai Gwilym Padarn trwy'r wythnos. Yr adeg hynny gelwid y tŷ pwyso yn "Machine".

Y mae'r llythyr canlynol anfonwyd gan Gwilym Padarn at ei fab Gutyn Padarn yn ddrych o dristwch ac yn enghraifft o galedi bywyd chwarelwr yn yr oes honno:

(Cyfeiriad)

Machine New York yn Chwarel
Dinorwig,
Chwefror 7ed 1852.

Annwyl Fab,

Gwelais ran o'th bryddest ar y testun "Doethineb Duw" yn Eisteddfod Porthmadog etc.

Ni fu arnaf fi ddim cymaint o helynt erioed ag sydd arnaf yn awr o'm coes. Y mae yn fwy dolurus o lawer nag y bu erioed. Byddaf am nosweithiau yn methu cysgu gan y llosgfeydd a'r gofid a fydd ynddi. Ni bŵm gartref ers mis. Y mae arnaf awydd cychwyn tuag yno heddiw. Bŵm ar fy nhraed trwy'r nos lawer gwaith yn methu cynnig i'r gwely am y bydd yn waeth yn y gwely nag yn un man.

Euthum i'r gwely nos Fercher. Methais gysgu dim. Codais un o'r gloch y bore, gwneuthum dân pur fawr (tân ar lawr fydd gennyf) eisteddais gerllaw iddo, rhoddais ddŵr mewn tebot tun wrth ei ochr, rhwng chwech a saith o'r gloch: cysgais wrth aros iddo ferwi, a syrthiais ar fy mhen i ganol y tân yn fy nghwsg. Llosgais un ochr i'm pen a'm talcen ac o amgylch fy llygad. Yr oedd fy ngwallt yn llosgi yn ffagl ar un ochr i'm pen: tarewais gyfnas oddi ar fy ngwely amdano. Anfonwyd am Ned i ddyfod ataf: aeth yntau i nôl 'Dutch Drops' a 'Sweet Oil' a'i roddi ar fy mhen: ni chefais ddim gwerth o boen oddi wrtho wedi hynny. Ond fe chwyddodd fy wyneb nes bod fy llygad ynghau am ddeuddydd. Yr wyf yn meddwl nad oes tu mewn i'r greadigaeth gwell na Dutch Drops at fendio llosg tân.

Hyn ar frys fy annwyl fab,

Oddi wrth dy dad,

W. Edwards."

AR WERTH

Pabell i 4 gysgu - cyflwr da iawn: £80.

Cwpwrdd wal - sengl - fel newydd. £12.

Arosfa, Groeslon
Caernarfon

Beic Raleigh Tomahawk coch. 3 oed. Cyflwr da iawn. £30.00 n.c.a. Ffôn: Caernarfon 3577.

Soffa a dwy gadair o ddefnydd brethyn brown, mewn cyflwr da iawn. £40.

Bwrdd Melamine gwyn dwy leff a phedair cadair, fel newydd. £40.

Coets gadair mewn cyflwr da. £10.

Beic i blentyn o 6 - 7 oed, mewn cyflwr da. £10.

Ffôn - Llanberis 357.

Carafan i gysgu pedwar, mewn cyflwr da iawn. £450.

Ffôn - Llanberis 357.

**CEFNOGWCH
EIN
HYSBYSEBWYR**

AELWYD LLANBERIS YN EISTEDDFOD MAESTEG 1953



Dyma barti cân actol 'Llwyn Onn' aelwyd Llanberis yn eisteddfod yr Urdd ym Maesteg. Gwyddom mai Len Jones yw'r pendefig a Joan Griffiths oedd Merch Llwyn Onn. Ond pwy yw perchnogion y coesau anhygoel yn y blaen? Dyfalwch a rhowch wybod i ni.



Parti dawns werin aelwyd Llanberis - buddugwyr yn Eisteddfod yr Urdd, Maesteg - gyda'u hyfforddwraig Alice Williams. (Y ddau lun uchod drwy garedigrwydd Mrs Dorothy Jones, Fron Gader, Cwm-y-glo).

Awdurdod Datblygu Cymru

A ydych chi mewn busnes?

A ydych chi'n meddwl
cychwyn ar eich pen eich hun?

Mae Uned Diwydiannau Bychan yr Awdurdod
yma i'ch helpu i fod yn llwyddiannus.

Fe gewch gyngor gan arbenigwyr profiadol
ym mhob agwedd o redeg busnes. Yr ydym
wedi dysgu sut i ddewis y ffordd orau i
lwyddo ac yn gwybod am yr anawsterau.

Gallwch fanteisio ar ein cysylltiadau niferus
gyda mudiadau eraill sydd yn awyddus i'ch
cynghori, ac mae benthyciadau ar log isel ar
gael i rai mathau o weithgareddau.

Mae eich swyddfa leol ym Mangor.
Cysylltwch â ni i drefnu cyfarfod gydag un
o'n cynghorwyr; cewch drafod eich
syniadau a'ch gofynion yn rhad ac am ddim.

Uned Diwydiannau Bychan,
Awdurdod Datblygu Cymru,
Isnant, Ffordd Glynne,
Bangor. Ffôn Bangor 52606

**Welsh
Development Agency**

Certified Copy of an Entry of Marriage. Pursuant to the Births, Deaths, and Marriages Registration Acts 1836 to 1856

Superintendent Registrar's District of CARNARVON

1916. Marriage Solemnized at The Registrar Office in the District of CARNARVON in the County of CARNARVON

Column No.	When Married	Name and Surname	Age	Condition	Rank or Profession	Residence at the time of Marriage	Father's Name and Surname	Rank or Profession of Father
26	Twenty-second November 1916	Richard David Owen	28 years	Bachelor	Farmer Labourer	Glanrafon Pontung	Richard David Owen	Farmer
		Annie Mary Williams	19 years	Spinster		Gronfedw Isaf Bettws garmon	Robert Morris Williams	Farmer Labourer

Married in the Registrar Office according to the Rites and Ceremonies of the by Certificate before me, R. Jones Registrar

This Marriage was Solemnized between us, Richard D. Owen and Annie M. Williams in the Presence of us, David Owen and Nellie Williams

I, R. Jones, Registrar of Marriages for the District of CARNARVON in the County of CARNARVON do hereby certify that this is a True Copy of the Entry No. 26 in the Register Book of Marriages, for the said District, and that such Register Book is now legally in my custody.

Witness my Hand this Twenty-second day of November 1916. Registrar.

The Statutory Fees payable for an ordinary certified copy of an entry in a Register of Births, Deaths, or Marriages, if taken at the time of registration, are 2s. 7d. (including 1d. for the stamp); but if taken at any time afterwards an additional fee of 1s. is chargeable for a search.

Dyma dystysgrif priodas Mr a Mrs Richard Owen. Mae'r hanes ar y dudalen flaen.

DAW GOBAITH O ANOBAITH

gan Tony Elliot

Nos Wener wyntog a'r glaw yn disgyn fel llen ac yn cuddio'r mynyddoedd o'n golwg. Nos Wener wyntog, - a'r gwyliau hanner tymor wedi cyrraedd; - a ninnau i fod i gychwyn i lawr i Gaerdydd ar y dydd Sadwrn i aros efo ffrindiau.

'Roedd swm y glaw yn cael ei chwythu yn erbyn y ffenestr yn caledu fy nheimpladau yn erbyn y daith i Gaerdydd. Dyma'r tywydd i aros adref o flaen y tân. Mae'r biwrocrataid di-wyneb sydd yn 'cynllunio' (!) ffyrdd Cymru wedi llwyddo'n rhyfeddol i wneud y daith o'r Gogledd i lawr i'r Brifddinas yn ddigon diflas ar ddiwrnod o haf, heb sôn am yr un daith yng nghanol y gwynt a'r glaw.

Nos Wener wyntog; - dim llawer o gwsg y noson honno - yn troi a throsi, ac arwyddion ffyrdd yn chwarae rhan amlwg yn yr hunllef am y tro cyntaf ers diwedd y chwe degau! 'Doedd dim paent gwyrdd arnyn' nhw'r tro yma, dim ond enwau megis Llanfair ym Muallt ac Aberhonddu!

Gwawriodd y Sadwrn! - dydd yr antur. Ar ôl dilyn y drefn briodol - h.y. deffro; codi; ymolchi; bwyta; bwydo'r hogiau, yn ogystal â gwasgu 'gwisgo' i mewn i'r rhestr yn rhywle, yn sydyn dyma sylweddoli fod y car wedi'i lwytho a'r teulu'n eistedd yn eiddgar ynddo yn barod i gychwyn. Dim un esgus ar ôl! Rhaid oedd cychwyn tua'r De.

Cyrraedd Beddgelert a phethau'n gwella! 'Roedd yr haul allan, ac awyr las draw uwchben Meirionnydd - 'doedd neb wedi sôn wrth y Crêwr mawr am Gomisiwn y Ffiniau! Croesi daear las Maldwyn i Lanidloes. Dwsinau o rieni'r dref hardd honno yn cerdded yn hamddenol o siop i siop. 'Roeddwn yn teimlo fel stopio rhai ohonyn' nhw i'w cael nhw i arwyddo deiseb i gael gwared ag Aelod Seneddol sydd yn llygru meddyliau'u plant.

Cyrraedd Rhaeadr Gwy a mynd â'r hogiau i weld cronfeydd Cwm Elan iddyn' nhw gael sylweddoli pam mae ein biliau dŵr ni mor uchel. Yn anffodus yr unig argraff a wnaeth y dŵr oedd yn rhaeadr dros argae

Pen-y-Garreg ar Llŷr Tegai oedd i wneud iddo daflu i fyny ar ddillad ei fam. Honno wedyn yn gorfod newid wrth ochr y ffordd, a golchi'i dillad mewn rhyw nant oedd yn llifo i lawr i'r llyn. Ffordd dda o dalu'r pwyth yn ôl i bobl Birmingham! Cyrraedd Llanfair ym Muallt ond dim amser i yrru'r ddwy filltir i fyny'r ffordd i Gilmeri i gymryd rhan yn 'nathliadau' colli'n rhyddid, felly bomio drwy Lanfair ym Muallt ac Aberhonddu. Taith ddigalon wedyn i lawr y Cwm o Ferthyr, heibio i Aberafan ac, yn y diwedd, i Radyr.

Am newid! Ar ôl y digalonni, dyma groeso tywysogaidd yn ein disgwyl . . .

Aeth Sheila i'r ysgol efo Mary, fy ngwraig - cynnyrch ysgol gynradd Gatholig ac ysgol uwchradd Gatholig yn y Rhyl. Cynnyrch uniaith Saesneg wrth gwrs. Brodor o Sir Benfro yw Richard. Cymro Di-Gymraeg a oedd wedi herio Nicholas Edwards a Jim Callaghan yn ystod ei yrfa fel ymgeisydd seneddol Plaid Cymru. Roedd bod yng nghwmni'r ddau yn ddigon i godi calon Mark Thatcher yn y Sahara! I'r rhan fwyaf o'u cymdogion yn Radyr, mae'r Dr a Mrs Richard Davies yn bobl ifanc digon cyffredin, gyda Richard yn ddarlithydd yn Athrofa'r Brifysgol, a Sheila yn wraig tŷ ac yn fam i Llion sydd yn 15 mis oed.

Ond i'r rhai sydd yn eu hadnabod yn dda mae'r ddau yn destun llawenydd ac edmygedd. Tua 18 mis yn ôl, a Sheila yn disgwyl Llion, treuliodd Richard a hithau gyfran helaeth o'u gwyliau haf ar gwrs Wlpan yng Ngholeg y Brifysgol Llanbedr-Pont-Steffan er mwyn dysgu Cymraeg. Am nifer o resymau e.e. eu haddysg, cefndir cartrefol, lleoliad eu cartrefi ac yn y blaen, nid oeddent yn gallu siarad Cymraeg, er bod y ddau'n genedlaetholwyr tanbaid. Ond 'roeddent yn benderfynol o fagu eu babi newydd yn Gymro.

Cofiaf yn iawn fel y daeth Richard a Sheila i aros efo ni ym Mhenisa'rwaun cyn mynd ar y cwrs. Saesneg oedd iaith y siarad ar ein haelwyd yn ystod eu harhosiad er

bod y ddau yn gwneud eu gorau, i ymarfer yr ychydig o Gymraeg oedd ganddynt efo Llŷr a Rhys. Fel y soniais yn gynharach mae Mary a Sheila wedi bod yn ffrindiau agos iawn ers blynyddoedd, ac yn naturiol Saesneg oedd iaith eu llythyrau, galwadau ffôn ac yn y blaen - tan yn ddiweddar beth bynnag.

Mae'n debyg y bydd nifer ohonoch chi, erbyn hyn yn dechrau gofyn beth yw'r cysylltiad rhwng hyn i gyd â'n gwyliau hanner tymor ninnau yng Nghaerdydd. Yr ateb, yn syml iawn, yw bod Richard a Sheila, erbyn hyn, yn Gymry Cymraeg, ac yn gwireddu'u breuddwyd o fagu Llion fel Cymro bach. O gofio bod Mary, fy ngwraig, hefyd wedi mynnu dysgu Cymraeg er mwyn dwyn yr hogiau i fyny fel Cymry roedd y sefyllfa yng nghartref ein ffrindiau yn ystod y gwyliau hanner tymor yn wyrthiol a dweud y lleiaf - tri o Gymry Cymraeg newydd sbon yn dewis byw eu bywydau o ddydd i ddydd trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'r gair 'dewis' yn bwysig iawn. Faint ohonom ni yn yr ardal hon sydd yn dewis byw ein bywydau drwy gyfrwng y Gymraeg tybed? Damwain ddaeryddol yw ein Cymreictod i nifer helaeth ohonom ni yn anffodus. 'Rydym yn siarad Cymraeg am mai yng Ngwynedd y cawsom ein geni.

Ond i Sheila, Richard a Mary 'dewis' oedd y gair arwyddocaol. Bellach, â'r oriau o chwysu, bustachu ac aberthu y tu cefn iddynt, 'roedd y tri ohonyn' nhw'n ymfalchïo yn eu gallu i edrych ar yr hen fyd 'ma drwy ffenestr newydd!

'Roedd gwrandao ar Sheila yn siarad yn ddigon i godi calon unrhyw un ar ôl y daith i lawr. "Maen nhw'n sôn am agor ysgol gynradd Gymraeg newydd yng Nghaerdydd cyn bo hir - y bumed neu'r chweched" . . . "Roedd 300 o bobl mewn noson goffi i'r Ysgol Feithrin Gymraeg y noson o'r blaen, ac 85 y cant ohonyn' nhw'n ddi-Gymraeg" . . . "Mae pobl ffordd hyn yn sylweddoli eu colled. Maen' nhw'n benderfynol y bydd eu plant yn cael y cyfle o gael Addysg Gymraeg."

Ar adegau eraill, 'roedd gwrandao arni yn gwneud i mi wrido a chywilyddio. "Mae'ch sefyllfa chi'n ddelfrydol yng Ngwynedd gyda phob ysgol gynradd yn Ysgol Gymraeg." "Wrth gwrs mae'ch ysgolion uwchradd chi yn cynnig pob pwnc trwy gyfrwng y Gymraeg mae'n debyg." Gwyn eu byd y rhai diniwed!

Cofiaf i mi wylltio yn y gorffennol wrth glywed pobl yn disgrifio Cymru fel dwy genedl. Ond yn raddol, 'rwyf yn dod i gredu hynny fy hunan. Ar y naill ochr mae Cymry di-Gymraeg a Dysgwyr brwdfrydig y De-ddwyrain poblog; pobl sydd yn sylweddoli eu colled ar ôl colli'r Gymraeg ac yn brwydro'n ddi-fflino i'w hadfer (ac yn llwyddo hefyd, diolch i Dduw). Ar y llaw arall mae Cymry Cymraeg y Gorllewin, sydd yn cymryd yr iaith yn ganiataol ac yn eistedd yn ôl yn gwylio ei thranc heb godi bys i'w hachub.

Wrth gwrs, mae elfen o gyffredinol yn fy nadansoddiad o'r sefyllfa. Ond 'rwyf yn cofio llythyr a welais yn ôl yn y saithdegau cynnar mewn rhifyn o 'Tafod y Ddraig' gan ddyn o Went. Ni fedraf gofio ei enw, ond byrdwn ei neges oedd mai rheini a gweithwyr di-Gymraeg y Cymoedd oedd yn mynd i chwarae'r rhan allweddol ym mrwydr yr iaith yn y pen draw, ac nid Cymry Cymraeg naturiol siroedd y Gorllewin. 'Roeddwn yn credu ar y pryd, yn fy anaeddfedrwydd mai lol oedd hynny i gyd. Ar ôl treulio'r Gwyliau Hanner Tymor yng Nghaerdydd rwyf yn dechrau ail-ystyried neges y llythyrwr hwnnw. Yn sicr 'daeth gobaith o anobaith' i minnau beth bynnag, a gwelais Gymru mewn golau newydd.

Am eiliad rhwng cymylau - ei hwyrddydd

Daeth harddwch i'w bryniau; Ac anfarwol oedd golau Ei gwawr er i'r awr hwyrhau!

D.S. - RHIF FFÔN NEWYDD - O Fawrth 3, 1982, bydd rhif ffôn newydd gan Tony Elliott, Golygydd Newyddion yr Eco. Y rhif newydd fydd LLANBERIS 872438.

EISTEDDFOD ABERTAWE

DRAMA GOMISIWN

Beth yw adwaith y newyddiadurwr i'r digwyddiadau mae o'n groniclo Sul, gŵyl a gwaith yn ei alwedigaeth? Mae ganddo ei ddull proffesiynol o gyflwyno'r ffeithiau, ac eto'i gyd, mae ganddo ei olwg bersonol ar bethau. Dyna'r cefndir mae Tom Richards yn ei archwilio yn ei ddrama gomisiwn. Ac ni raid dweud mwy am ddigwyddiad canolog y ddrama na'i bod hi'n delio â 'phwnc llosg' cyfamserol.

Bu Tom Richards yn gweithio ar y 'Cambrian News' yn Aberystwyth, a'r 'Western Mail' yng Nghaerdydd cyn mynd yn Olygydd Newyddion yn y BBC yng Nghaerdydd. Dros ugain mlynedd yn ôl, 'sgrifennodd ddrama gomisiwn Eisteddfod Caerdydd, 'Eisteddfa Gwatwarwr'.


Perfformir y ddrama gan Gymdeithas y Ddrama Gymraeg, Abertawe, yn Theatr y Grand ar nos Fercher a nos lau yr Eisteddfod. Bu'r cwmni amatur yma'n fawr eu sêl yn

cynnal Gŵyl Ddrama Gymraeg flynyddol bron y n ddi-dor oddi ar 1919.

PABELL Y DYSGWYR

Ym mhabell y Dysgwyr eleni yn Abertawe, dangosir dwy ffilin fydd o ddiddordeb i Eisteddfodwyr yn gyffredinol, ac i ddysgwyr yn arbennig. Mae un o'r ffilmau yn mynd â ni am dro o gwmpas golygfeydd hardd o'r Bae a'r ddinas. Bydd y sylwebaeth wedi ei baratoi'n ofalus ar gyfer anghenion dysgwyr. Fe fydd yna ddiddordeb lleol a chyffredinol cryf hefyd yn y ffilin liw a baratoir gan staff Athrofa Gorllewin Morgannwg. Amcan y ffilin fydd dangos sut mae modd troi'r di-Gymraeg yn Gymry rhugl, trwy ddilyn hynt a helynt myfyrwyr sy'n dysgu Cymraeg yn y Coleg ar hyn o bryd.

CROESAIR MAWRTH



AR DRAWS

1. Bet 'to sy'n dal y tel! (5)
5. Gwreiddiau a fwyteir. (5)
8. Gwroniaid. (5)
9. "Mi sydd fachgen ... ffôl".
10. Dryllio neu rwygo. (5)
11. Malwr sy'n gwneud rhywbeth angenrheidiol yn y bore i rai! (5)
12. Hylif ysgrifennu. (3)
13. Murmur. (2)
14. Bardd cerdd o bedair llinell ar ddeg. (7)
18. Bwyd brecwast. (3)
19. Eithr. (3)
21. Gostyngiddrwydd. (7)
25. Annwyl. (2)
26. Hwn yw pen eithaf y Waun. (3)
28. Angau. (5)
29. Fflag. (5)
30. Offeryn eglwysig. (5)
31. Y munud yma, chwedeg gwaith? Na. (2, 3)
32. Cenadwri. (5)
33. Gwatwar. (5)

I LAWR

1. 72 awr.
2. Bin caled ar y gwely. (8)
3. Destlus. (6)
4. Pobl gyffredin neu ddawns. (6)
5. "Er dyfied yw y loes Er ... yw y Groes". (6)
6. Trafod. (4)

7. Hanes. (5)
15. Leo o'r Dwyrain Canol. (3)
16. Meddai. (3)
17. Aderyn. (5, 3)
20. Pigyn yn ochr Den a Ner. (7)
22. Fel arfer, mae'n cuddio i ben yn y tywod. (6)
23. Yn wir. (6)
24. Disg gramaffon. (6)
25. Dilledyn nos. (5)
27. Ar ei ben ei hun. (4)

Cyfrif y llythrennau ch, dd, ff, ng, ll, ph, rh, th fel un llythyren.

ATEBION CROESAIR CHWEFROR:

AR DRAWS: 1. Gwastad 5. Tocyn 8. Anlwc 9. Gormesu 10. Datguddiad 12. Dydd 13. Culfor 14. Adegau 17. Mwy 18. Gwangelon 20. Anifail 21. Meirw 23. Didol 24. Nadroedd I LAWR: 1. Gwaed 2. Ail 3. Tacluso 4. Digrif 5. Tyred 6. Creadigol 7. Meudau 11. Talfyriad 13. Cwmpawd 15. Dygymod 16. Darlun 18. Gwael 19. Newydd 22. Iro.

Enillydd: Sharon Owen, 7 Bryn Hyfryd. Penisarwaun. Gwobr o £2 am yr ateb cywir cyntaf i'w dynnu. Anfoner y cynigion i Twrog Jones, 23 Glanffynnon, Llanrug.

DYDDIADUR

MAWRTH

1, Llun - WAUNFAWR - Plant yr Ysgol Feithrin yn dathlu Gŵyl Ddewi gyda the parti.

DEINIOLEN - Sefydliad y Merched yn croesawu'r henoed i swper Gŵyl Ddewi.

YR ARDAL - Plaid Cymru Etholaeth Arfon - Noson Dathlu Gŵyl Ddewi yng nghwmni Hogiau Llandegai ym Mron Eryri, Llanberis.

2, Mawrth - DEINIOLEN - Merched y Wawr yn dathlu Gŵyl Ddewi ym Mron Eryri, Llanberis.

3, Mercher - LLANRUG - Y Cyngor Eglwys - Seiat dan arweiniad Mr Tegid Roberts, yn Eglwys Sant Mihangel.

LLANRUG - Y Gymdeithas Undebol - Dathlu Gŵyl Ddewi ym Mhlas Tan Dinas.

4, Iau - DINORWIG - Y Gymdeithas Undebol yn dathlu Gŵyl Ddewi gyda Noson o Gawl a Chân yn y Ganolfan.

LLANBERIS - Cinio Gŵyl Ddewi Clwb yr Henoed yng Ngwesty'r Fictoria.

WAUNFAWR - Sefydliad y Merched yn dathlu Gŵyl Ddewi yn Neuadd yr Eglwys.

5, Gwener, LLANBERIS - Te yr Henoed.

YR ARDAL - Clwb Eryri yn dathlu Gŵyl Ddewi yng Ngwesty'r Gwynedd, Llanberis.

YR ARDAL - Dydd Gweddi Byd-eang y Chwirydd yng Nghapel Mawr, Llanrug.

6, Sadwrn - YR ARDAL - Eisteddfod Gylch yr Urdd yn Neuadd Ysgol Brynrefail.

8, Llun - LLANBERIS - Gyrfa Chwist yn y Ganolfan am 7.30.

9, Mawrth - LLANRUG - Merched y Wawr yn dathlu Gŵyl Ddewi yng Ngwesty'r Gwynedd, Llanberis.

10, Mercher - BETHEL - Merched y Wawr yn dathlu Gŵyl Ddewi yng Ngwesty'r Gwynedd, Llanberis.

LLANBERIS - Bingo yn y Ganolfan.

11, Iau - LLANRUG - Clwb Blodau'r Grug.

12, Gwener - LLANBERIS - Noson o Gwyl a Bingo yng Ngwesty'r Gwynedd. Yr elw er budd Cronfa Cancr Dinorwig.

BETHEL - Noson Goffi yn Neuadd Goffa pryd y dewisir

Brenhines y Carnifal a'i Gosgordd.

13, Sadwrn - YR ARDAL - Eisteddfod Sir yr Urdd (dros 15 oed) yn Ysgol Dyffryn Ogwen am 3 o'r gloch.

15, Llun - LLANBERIS - Gyrfa Chwist yn y Ganolfan am 7.30.

16, PENISARWAUN - Clwb yr Heulwen.

19, Gwener - LLANBERIS - Te'r Henoed.

LLANBERIS - Noson yng nghwmni 'Lleisiau'r Gweunydd', Penisarwaun yng Ngwesty'r Gwynedd. Yr elw er budd Cronfa Cancr Dinorwig. Pris gan gynnwys cyw iâr yw £2. Enwau i Mr Meirion Evans, Gwesty'r Gwynedd.

20, Sadwrn - YR ARDAL - Eisteddfod Sir yr Urdd (dan 12 oed) yn Neuadd Pritchard Jones, Bangor am 1 o'r gloch.

LLANRUG - Ffair Sborion wedi ei threfnu gan Bwyllgor Merched y Seindorf yng Nghaernarfon.

22, Llun - LLANBERIS - Gyrfa Chwist yn y Ganolfan am 7.30.

24, Mercher - LLANBERIS - Bingo yn y Ganolfan.

25, Iau - LLANRUG - Cwmni Drama Llanberis yn perfformio 'Y Treble Chance' (ffars gan Meirion Powell) yn Neuadd Ysgol Brynrefail am 7.30. Y noson dan nawdd Cymdeithas Lenyddol Capel Mawr.

26, Gwener - DEINIOLEN - Noson Goffi yn Ysgol Gwaun Gynfi am 7.00 pryd y dewisir Brenhines y Carnifal a'i Gosgordd.

CWM-Y-GLO - Eisteddfod Clwb y Graig yn y Ganolfan. Drysau'n agor am 6.00. Dechreuir am 6.30.

27, Sadwrn - BETHEL - Cinio Blynnyddol Clwb y Rhos.

YR ARDAL - Eisteddfod Sir yr Urdd (o 12-15 oed) yn Neuadd John Bright, Llandudno am 1 o'r gloch.

29, Llun - LLANBERIS - Y Cwmni Drama yn perfformio 'Y Treble Chance' ym Mron Eryri.

LLANBERIS - Gyrfa Chwist yn y Ganolfan am 7.30.

30, Mawrth - LLANBERIS - Y Cwmni Drama y perfformio 'Y Treble Chance' (ffars gan Meirion Powell) ym Mron Eryri.

DYDDIADAU I'W COFIO

Ebrill 22 a 23 - Eisteddfod Plant Capeli Llanberis a Nant Peris.

E.W. Pritchard CENTRAL GARAGE Llanberis

Ffôn 202

TREFNWYR ANGLADDAU
CEIR AR GYFER PRIODASAU
GWASANAETH TACSI

CHWARAEON

PENCAMPWR SNWCER

Ym mis Hydref 1979 y daeth enw Clive Griffith, Pant Tirion, Llanrug i sylw darllenwyr yr 'Eco' fel un o chwaraewyr snwcer mwyaf addawol yr ardal. Y pryd hwnnw, roedd wedi cael y fraint o gystadlu ym Mhencampwriaeth Prydain i ieuencid dan 19 oed. Er na fu'n llwyddiannus yn y gystadleuaeth, bu'r profiad o fantais iddo, ac aeth ymlaen i gynrychioli Gogledd Cymru wedi hynny. Flwyddyn union yn ddiweddarach, yn rhifyn Hydref 1980 o 'Eco'r Wyddfa', roedd Clive yn cael ei longyfarch am doriad o 100 am y tro cyntaf. Y tro hwn, ein braint yw ei longyfarch unwaith eto.

Bellach, mae Clive yn chwarae i dîm Duon Crosville Caernarfon, ond nid fel aelod o'r tîm hwnnw y daeth ei lwyddiant diweddaraf, ond mewn cystadleuaeth i unigolion, sef Pencampwriaeth Snwcer Penmaenmawr. Daeth Clive â'r tlws yn ôl i Lanrug. Yn dilyn hyn, bu'n fwy llwyddiannus hyd yn oed by thefnos yn ôl, yng nghystadleuaeth Snwcer Agored Llandudno. Dyma un o brif gystadlaethau gogledd Cymru yn y byd snwcer.

Mae'r bencampwriaeth yn agored i chwaraewyr o Ogledd Cymru, o siroedd y Gororau ac o rannau o Lancashire hyd at Southport. Roedd rhai o'r 'gynnu mawr' rhyngwladol yn cystadlu yma hefyd. Câl pob rownd ei phenderfynu ar y gorau o dair ffrâm, felly, doedd fawr o le gan unrhyw un o'r cystadluwyr i wneud camgymeriad.

Wnebai Clive wrthwynebydd caled yn y rownd gyntaf, sef Howard Griffiths o Wrecsam; un sydd wedi bod yn bencampwr Gogledd Cymru am chwe mlynedd. Sgubwyd y pencampwr i'r ochr o ddwy ffrâm i ddim.

Yn yr ail rownd, dwy ffrâm i ddim oedd y canlyniad o blaid Clive. Yn

ystod y ffrâm gyntaf, gwnaeth doriad o 60 - digon i dorri calon ei wrthwynebydd.

Yn y rownd go-gynderfynol, chwaraewr arall sy'n cynrychioli Gogledd Cymru oedd yn erbyn Clive, ond colli o ddwy ffrâm i ddim fu hanes hwnnw hefyd, a Clive yn gwneud toriad o 39 yn ei ail ffrâm i'w alluogi i gyrraedd y rownd gynderfynol.

Yn y rownd honno y colodd Clive ei gêm gyntaf, yn erbyn Steve Smith, un arall o chwaraewyr profiadol cylch Wrecsam. Ond enillodd y ddwy gêm nesaf i'w gario i mewn i'r rownd derfynol; a hynny, dim ond ar ei ail gynnig yn y gystadleuaeth hon.

L. Dodd, chwaraewr rhyngwladol Lloegr oedd ei wrthwynebydd yn y rownd derfynol. Roedd wedi gwneud toriad o 40 neu fwy ymhob un o'i gemau hyd yma'n y gystadleuaeth, ond doedd hynny'n golygu dim i Clive, ac er mai'r Sais o Southport oedd y ffeffryn i ennill, colli fu ei hanes o ddwy ffrâm i ddim - a dyna un o bencampwriaethau'r Gogledd yn ddiogel yn nwylo Clive Griffith.



Clive gyda rhai o'r tlysau a enillodd yn ddiweddar.



Tîm Rygbi Ysgol Brynrefail 1954.

DIFLASTOD!

BETHEL 2 - LLANRUG 4

Canwyd cnul angladdol y gêm bêl-droed ar gae Ysgol Brynrefail bnawn Sadwrn diwethaf, ond aeth galarwyr Llanrug adref fymryn yn fwy bodlon na rhai Bethel. Gosodwyd y patrwm diflas i'r pnawn pan anghofiodd rhai o aelodau Bethel ddod i'r cynhebrwng, a bu'n rhaid llenwi eu tîm â chwaraewyr benthyg. Oherwydd hyn, teimlai Llanrug mai gêm hawdd oedd yn eu hwynebu ac yr oedd eu hagwedd ar y cae yn llawer rhy ddi-daro.

Wedi chwarter awr o'r gêm aeth Bethel ar y blaen: Wyn Evans yn dangos pâr o sodlau i gefnwyr Llanrug, ac yn codi'r bêl yn daclus dros ben y gôl-geidwad. O fewn chwarter awr arall roedd Llanrug yn gyfartal: Keith Roberts yn taro'r bêl i gefn y rhwyd ar ei ail gynnig.

Ar ddechrau'r ail hanner aeth Llanrug ar y blaen gyda dwy gôl sydyn: un gan Nigel Whitehead, a'r llall gan Keith Roberts. Aeth y chwarae ar chwal wedi hyn, a dechreuodd rhai o'r gwylywyr droi am adref, ac eraill i gerdded o gwmpas y cae i gadw'n gynnes ac yn effro. Gydag ambell un o'r chwaraewyr hyd

yn oed yn dylyfu gêm, daeth Bethel i'r amlwg gyda gôl dda gan John Pritchard, a bu peth cynnwrf o flaen gôl Llanrug am ychydig funudau. Deffrôdd y reffari o'i bnawn cysglyd am ychydig eiliadau i anfon Keith Roberts oddi ar y cae am dano un o chwaraewyr Bethel. Roedd y cyfan fel pe'n digwydd mewn breuddwyd (neu hunllef) ddi-ddiwedd.

Ychydig funudau cyn diwedd y gêm, sgoriodd Harold Roberts i roi'r hoelen olaf yn arch Bethel. Daeth y chwiban olaf â chryn ryddhad i bawb, ac ymlusgodd y chwaraewyr yn ôl am gawod o ddŵr oer. Efallai i ambell un ohonynt ddeffro ar ôl ei chael.

SIALENS!

Mae swyddogion Eco'r Wyddfa yn rhoi sialens i fwrdd golygyddol neu swyddogion unrhyw bapur bro arall o fewn cyrraedd i'r ardal, i gêm bêl-droed 5 bob ochr.

RHEOLAU

1. Mae'n rhaid i bob aelod o'r tîm fod dros 30 oed, a rhaid dod â thystysgrif geni i brofi'r oedran.
 2. Ni chaniateir mwy na 5 aelod ym mhob tîm.
 3. Ni chaniateir gwisgo 'studs'.
 4. Ni fydd tîm yr Eco yn gyfrifol am unrhyw niwed corfforol neu ddamwain a all ddigwydd yn ystod y gêm.
 5. Gan dîm Eco'r Wyddfa mae'r hawl i ddewis dyfarnwr ar gyfer pob gêm.
 6. Cyfrifoldeb y timau'n cystadlu fydd talu'r gost o logi neuadd neu gampfa.
- Os oes unrhyw un yn ddigon beiddgar ac eofn i dderbyn y sialens hon, cysyllter â swyddogion yr Eco!

PÊL-DROED AR Y SUL

Cynhaliwyd Cystadleuaeth 5 bob ochr Cynghrair Arfon ar ddydd Sul, Chwefror 21. Yr oedd tri thîm o ardal yr Eco yn cystadlu, sef Llanberis, Llanrug a Bethel. Ni chynhaliwyd y gystadleuaeth hon ers tua dau dymor, a'r enillwyr y tro hwnnw oedd tîm Llanrug. Roedd y gystadleuaeth y pryd hwnnw'n cael ei chynnal ar noson waith yng Nghampfa'r Coleg Technegol ym Mangor. Y tro hwn, yng Nghanolfan Adloniant Arfon yng Nghaernarfon y cynhaliwyd hi, ac oherwydd nad oedd yn bosibl llogi'r gampfa yno am gyfnod hir o amser yn ystod yr wythnos penderfynwyd cynnal y gystadleuaeth ar bnawn a nos Sul. Yr oedd gorfodaeth ar i bob Clwb yn y Gynghrair anfon tîm i'r gystadleuaeth.

Y cwestiwn sy'n aros yw: a oes hawl gan y Gynghrair i orfodi clwb i chwarae pêl-droed ar y Sul? Os yw'r hawl ganddynt, yna, diddorol fyddai derbyn sylwadau'r darllenwyr ynglŷn â chwarae pêl-droed ar y Sul. Anfonwch eich sylwadau o blaid ac yn erbyn i D.W. Thomas, Bron y Nant, Llanrug.

Gweddill y canlyniadau:

Yng Nghwpan Iau Gogledd Cymru, ffarweliodd Llanrug â'r gystadleuaeth ar ôl colli i dîm y Felinheli, ond enillodd Llanberis yr hawl i ail-chwarae ar ôl gêm gyfartal yn erbyn Cerrig y Drudion - Terence Griffith a Gwilym Williams yn sgorio iddynt.

Yn y Gynghrair, mae Llanberis yn parhau i ddringo ar ôl curo Dyffryn Nantlle o 3 gôl, ac y mae'r tîm ieuencid ar drywydd cwpan arall ar ôl curo Pwllheli.

ATEBION I BOSAU DYFRIN Y DEWIN

1. Pryf gwerdyd (warble fly) sy'n achosi i wartheg rusio.
2. Pryf teiliwrt; neu'r 'daddy longlegs'.
3. Perdsen neu 'shrimp'.
4. Aderyn, sef y gwyach bach.
5. Aderyn a roddodd ei enw i'r rhaglen deledu 'Billidowcar'!
6. Aderyn glannau'r môr, sef 'pïoden y môr' (oyster catcher).
7. Aderyn tebyg i'r fwyachen sy'n byw ar ein hafonydd (dipper).
8. Aderyn y nos - y troelliwr (nightjar).
9. Gwsberins.
10. Byssed y cwn (foxgloves).

Cystadleuaeth yr Enwau:

Afon ar goll - RHYTHALLT.